



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 1 Gorffennaf 2008
Tuesday, 1 July 2008**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister
- 33 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement
- 41 Datganiad am Ofal Lliniarol
Statement on Palliative Care
- 60 Datganiad am y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd
Statement on the Climate Change Commission
- 72 Dadl ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (2007-2013)
Debate on the European Structural Fund Programmes (2007-2013)
- 99 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Galwaf y Cynulliad i drefn.

The Presiding Officer: I call the Assembly to order.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Food Safety

Q1 Val Lloyd: What is the Welsh Assembly Government doing to promote food safety in Wales? OAQ(3)1165(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): The Food Standards Agency operates across the UK and is accountable to us in Wales for food safety. It provides training, guidance and support for local authorities on their environmental health and trading standards functions, and it monitors the delivery of their enforcement responsibilities.

Val Lloyd: Food poisoning is a serious issue in Wales, as in the UK, with about 1 million cases of food-borne disease occurring annually and, unfortunately, around 500 deaths. We saw a few years ago the devastating consequences that it can have. It is important to highlight the message of food safety, particularly at this time of year when the barbecue season is upon us. Is the Welsh Assembly Government doing any joint work with the Food Standards Agency to highlight the importance of the four Cs, namely cooking, cleaning, chilling and avoiding cross-contamination?

The First Minister: We now have the first draft of the final report of Professor Pennington's E. coli public inquiry. We must conduct an exchange of views about the emerging conclusions. However, the inquiry reminds us of the importance of food safety, given that food poisoning has potentially fatal consequences.

Diogelwch Bwyd

C1 Val Lloyd: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo diogelwch bwyd yng Nghymru? OAQ(3)1165(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gweithredu ledled y DU ac mae'n atebol i ni yng Nghymru yng nghyswllt diogelwch bwyd. Mae'n darparu hyfforddiant, canllawiau a chefnogaeth i awdurdodau lleol ar gyfer eu swyddogaethau ym maes iechyd yr amgylchedd a safonau masnach, ac yn monitro sut y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau gorfodi.

Val Lloyd: Mae gwenwyn bwyd yn fater difrifol yng Nghymru, ac yn y DU hefyd, a thua 1 miliwn o achosion o glefydau a gludir mewn bwyd yn digwydd bob blwyddyn ac, yn anffodus, tua 500 o farwolaethau. Ychydig flynyddoedd yn ôl, gwelsom y canlyniadau difrifol a all ddigwydd yn sgîl hyn. Mae'n bwysig tanlinellu'r neges ynglŷn â diogelwch bwyd, yn enwedig yr adeg hon o'r flwyddyn, a thymor y barbeciws wedi dechrau. A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud unrhyw waith ar y cyd â'r Asiantaeth Safonau Bwyd i danlinellu pwysigrwydd y pedair elfen bwysig, sef coginio, glanhau, oeri ac osgoi croeshalogi?

Y Prif Weinidog: Erbyn hyn, mae drafft cyntaf adroddiad terfynol ymchwiliad cyhoeddus yr Athro Pennington ar E. coli gennym. Rhaid inni gyfnewid barn ynghylch y casgliadau a ddaw i'r amlwg. Fodd bynnag, mae'r ymchwiliad yn ein hatgoffa am bwysigrwydd diogelwch bwyd, o gofio y gall canlyniadau gwenwyn bwyd fod yn anghueol.

On the wider issue of how we are encouraging the Food Safety Agency and local authorities to promote food safety and the four Cs, among the current initiatives on which the FSA is working with local authorities are a scheme to promote food safety among children and a bilingual food safety pantomime directed at young people, to emphasise the importance of food safety and of abiding by the rules to avoid food poisoning.

Brynle Williams: Hygiene and the safety of the public must always be top priorities, and there is no argument about that. Therefore, I am sure that the First Minister would join me in praising the high standards of Wales's many small abattoirs, which are essential to high-quality local producers that serve local and niche markets, as the Minister for Rural Affairs highlighted in her recent farming strategy. Does he agree that these small processors will be the ones facing the greatest difficulty now that the Meat Hygiene Service has changed, and given that many inspections are now charged for, despite their operating costs rising above 8 per cent? How far is his Government willing to go to safeguard the future of Wales's small abattoirs?

The First Minister: The Meat Hygiene Service is an executive agency of the Food Standards Agency, as I understand the legal position. It has the enforcement responsibility of ensuring that licensed premises produce meat for sale that is fit for human consumption. I have absolutely no reason to dissent from the conclusion that you drew, namely that local abattoirs in Wales meet MHS standards, and that the MHS has no reason to have a problem with local abattoirs in Wales that provide a valuable local service.

Leanne Wood: First Minister, you will be aware that the price of food is increasing rapidly and that the availability of ready meals in supermarkets has resulted in a decline in the skills required to grow and to cook food. Do you accept that initiatives such

Ynghylch y cwestiwn ehangach ynglŷn â sut yr ydym yn annog yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac awdurdodau lleol i hyrwyddo diogelwch bwyd a'r pedair prif elfen, mae'r mentrau cyfredol y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn cydweithio ag awdurdodau lleol yn eu cylch yn cynnwys cynllun i hyrwyddo diogelwch bwyd ymhlith plant a phantomeim diogelwch bwyd dwyieithog sydd wedi'i anelu at bobl ifanc, er mwyn pwysleisio pwysigrwydd diogelwch bwyd a glynu wrth y rheolau i osgoi gwenwyn bwyd.

Brynle Williams: Rhaid i hylendid ac iechyd y cyhoedd fod yn brif flaenoriaethau bob amser, ac nid oes dadl am hynny. Felly, yr wyf yn siŵr y byddai'r Prif Weinidog yn ymuno â mi i ganmol safonau uchel llawer o'r lladd-dai bach yng Nghymru, sy'n hanfodol i gynhyrchwyr lleol o ansawdd uchel sy'n gwasanaethu marchnadoedd lleol ac arbenigol, fel y pwysleisiodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn ei strategaeth ffermio yn ddiweddar. A yw'n cytuno mai'r prosesyddion bach hyn fydd y rhai sy'n wynebu'r anhawster mwyaf gan fod y Gwasanaeth Hylendid Cig bellach wedi newid, a chan fod codi tâl am lawer o arolygiadau erbyn hyn, er bod eu costau gweithredu wedi codi dros 8 y cant? Pa mor bell y mae ei Lywodraeth yn fodlon mynd i ddiogelu dyfodol lladd-dai bach Cymru?

Y Prif Weinidog: Mae'r Gwasanaeth Hylendid Cig yn un o asiantaethau gweithredol yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yn ôl yr hyn yr wyf yn ei ddeall am y sefyllfa gyfreithiol. Mae ganddo gyfrifoldeb gorfodi i sicrhau bod eiddo trwyddedig yn cynhyrchu cig i'w werthu sy'n addas i'w fwyta gan bobl. Nid oes gennyf reswm o gwbl dros anghytuno â'r casgliad y daethoch iddo, sef bod lladd-dai lleol yng Nghymru yn bodloni safonau'r Gwasanaeth Hylendid Cig, ac nid oes gan y Gwasanaeth Hylendid Cig reswm dros fod yn anfodlon â lladd-dai lleol yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth lleol gwerthfawr.

Leanne Wood: Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod pris bwyd yn codi'n gyflym a bod y prydau parod sydd ar gael mewn archfarchnadoedd wedi arwain at ddirywiad yn y sgiliau y mae eu hangen i dyfu ac i goginio bwyd. A dderbyniwch y byddai

as school allotments, where children can learn about growing food and about cooking, using those foods as ingredients, would be a good way to bring back those skills and to promote food safety?

The First Minister: Yes, I do. When I first went to school in 1944, half of the football field in our school had been dug up to form a school allotment under the Dig for Victory programme, and one of my first duties was to attempt, inadequately, to help to dig up potatoes or to plant radishes or whatever it might have been. There is a reversion to that Dig for Victory era, 64 years later, for reasons relating to the high prices of basic foods.

On trying to encourage young children to get involved at an early age in knowing what it takes to produce root vegetables, plants, greenhouse vegetables such as tomatoes or whatever else it might be, it is valuable for children to know what food is and to know that it does not arrive by magic in a plastic package in a supermarket and that it is grown in soil or whatever it takes. Starting to educate kids about that early on is valuable.

Developing Skills Centres

Q2 Janet Ryder: Will the First Minister make a statement on developing skills centres in north Wales? OAQ(3)1178(FM)

The First Minister: There is currently a proposal from the Wrexham 14-19 Network for the construction of a purpose-built skills centre in the town, in the Caia Park area, and we are working closely with the network to develop the business case.

Janet Ryder: I am glad to hear you say that, because I was going to ask you to congratulate the partnership that has developed between Yale College and Wrexham County Borough Council on this innovative bid to develop the £5 million centre in Queensway, Caia Park, which is the most educationally deprived ward in Wales. The council has now gifted that land to Yale, but there is still a sticking point, which is the

mentrau megis rhandiroedd ysgolion, lle y gall plant ddysgu am dyfu bwyd ac am goginio, gan ddefnyddio'r bwydydd hynny fel cynhwysion, yn ffordd dda o atgyfodi'r sgiliau hynny a hyrwyddo diogelwch bwyd?

Y Prif Weinidog: Ydwyf, yr wyf yn derbyn hynny. Pan euthum i'r ysgol am y tro cyntaf yn 1944, yr oedd hanner y cae pêl-droed yn ein hysgol wedi'i balu i greu rhandir ysgol dan y rhaglen *Dig for Victory*, ac un o'm dyletswyddau cyntaf oedd ceisio helpu, yn aflwyddiannus, i godi tatws neu i blannu rhuddygl neu beth bynnag ydoedd. Yr ydym yn dychwelyd at gyfnod *Dig for Victory*, 64 mlynedd yn ddiweddarach, am resymau'n ymwneud â phrisiau uchel bwydydd sylfaenol.

O ran ceisio annog plant ifanc i fynd ati'n gynnar a dod i wybod beth y mae'n rhaid ei wneud i gynhyrchu llysiau gwreiddiau, planhigion, llysiau tŷ gwydr megis tomatos neu beth bynnag arall y gallai fod, mae'n werthfawr i blant wybod beth yw bwyd a gwybod nad yw'n cyrraedd drwy hud a lledrith mewn pecyn plastig yn yr archfarchnad a'i fod wedi tyfu yn y pridd neu beth bynnag y mae angen ei wneud. Mae dechrau addysgu plant am hynny yn gynnar yn beth gwerthfawr i'w wneud.

Datblygu Canolfannau Sgiliau

C2 Janet Ryder: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu canolfannau sgiliau yn y gogledd? OAQ(3)1178(FM)

Y Prif Weinidog: Mae Rhwydwaith 14-19 Wrecsam wedi cyflwyno cynnig ar gyfer adeiladu canolfan sgiliau bwrpasol yn y dref, yn ardal Parc Caia, ac yr ydym yn cydweithio'n agos â'r rhwydwaith er mwyn datblygu'r achos busnes.

Janet Ryder: Yr wyf yn falch o'ch clywed yn dweud hynny, oherwydd yr oeddwn am ofyn ichi longyfarch y bartneriaeth sydd wedi datblygu rhwng Coleg Iâl a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ynghylch y cais arloesol hwn i ddatblygu'r ganolfan gwerth £5 miliwn yn Queensway, Parc Caia, sef yr ardal fwyaf difreintiedig yn addysgol yng Nghymru. Erbyn hyn, mae'r cyngor wedi rhoi'r tir hwnnw'n rhodd i Iâl, ond ceir maen

project's £300,000-worth of pre-building costs. You are aware of the project, as is the Department for Education, Lifelong Learning and Skills. That seems to be where the sticking point is. Will you take this away and do whatever you can to support the project? This ward is exactly the kind of ward where community outreach and education needs to be developed if the Government is to achieve any of its objectives. I hope that the Government can support this project in bringing forward the £300,000-worth of funding that is needed.

The First Minister: Knowing the Caia Park area as well as I do, I believe that this is a very commendable idea. We are working with the network to try to find a solution to the problem that there does not appear to be an easy way of getting the design fees paid for. In other words, we can be quite generous when it comes to the capital costs but not when it comes to the fees costs. If the project cannot get past the fees stage, there is no building to support. We are working with the network to try to find a solution to that problem within the present set of rules so that the group can get an application in for the fees part of the support. Beyond that, it should not have too much of a problem.

Darren Millar: You will be aware that several further education colleges in Wales, including Coleg Llandrillo Cymru in my constituency, are keen to establish themselves as awarding bodies for foundation degrees. Do you support their calls and, if so, what action is your Government taking to enable colleges such as Llandrillo college to enjoy such a status?

The First Minister: Successful colleges that have demonstrated a huge amount of credibility in delivering FE and sometimes in delivering degrees and franchise arrangements with the University of Glamorgan or whoever else it might be—Coleg Llandrillo Cymru is an example, as are Pembrokeshire College, Deeside College and Yale College—would be first in line to try to do what colleges in England have done much more extensively, namely to award foundation degrees. We see that as a way ahead. We do not share the view that some

tramgwydd o hyd, sef costau cyn-adeiladu'r prosiect sy'n £300,000. Yr ydych yn ymwybodol o'r prosiect, fel y mae'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Mae'n debyg mai yn y fan honno y mae'r maen tramgwydd. A wnewch ystyried hyn a gwneud hynny a allwch i gefnogi'r prosiect? Dyma'r union fath o ward lle y mae angen datblygu addysg ac allgymorth cymunedol os yw'r Llywodraeth am gyflawni rhai o'i hamcanion. Gobeithiaf y gall y Llywodraeth gefnogi'r prosiect hwn drwy ddarparu'r £300,000 o gyllid y mae ei angen arnynt.

Y Prif Weinidog: A minnau'n bur gyfarwydd ag ardal Parc Caia, credaf fod hwn yn syniad canmoladwy iawn. Yr ydym yn gweithio gyda'r rhwydwaith i geisio dod o hyd i ateb i'r broblem gan nad yw'n ymddangos bod ffordd hawdd o gael arian i dalu am y ffioedd dylunio. Mewn geiriau eraill, gallwn fod yn weddol hael o ran costau cyfalaf ond nid o ran talu costau ffioedd. Oni all y prosiect oresgyn cam y ffioedd, yna ni fydd adeilad i'w gefnogi. Yr ydym yn gweithio gyda'r rhwydwaith i geisio dod o hyd i ateb i'r broblem honno o fewn y set bresennol o reolau fel y gall y grŵp gyflwyno cais am gymorth ar gyfer y ffioedd. Ar ôl hynny, ni ddylent gael llawer iawn o broblemau.

Darren Millar: Byddwch yn ymwybodol bod amryw o golegau addysg bellach yng Nghymru, gan gynnwys Coleg Llandrillo Cymru yn fy etholaeth, yn awyddus i'w sefydlu eu hunain yn gyrrff dyfarnu graddau sylfaen. A ydych yn cefnogi eu galwadau, ac os ydych, pa gamau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i alluogi colegau fel coleg Llandrillo i fwynhau statws o'r fath?

Y Prif Weinidog: Byddai colegau llwyddiannus sydd wedi dangos cryn hygredd wrth ddarparu AB ac weithiau wrth ddarparu graddau a threfniadau masnachfaint gyda Phrifysgol Morgannwg neu rywun arall efallai—ac mae Coleg Llandrillo Cymru yn enghraifft, yn ogystal â Choleg Sir Benfro, Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Iâl—ar flaen y ciw wrth geisio gwneud yr hyn y mae colegau yn Lloegr wedi'i wneud yn llawer ehangach, sef dyfarnu graddau sylfaen. Gwelwn hynny fel ffordd ymlaen. Nid ydym yn cytuno â barn

people have that foundation degrees are not worth having; they are. They are worth delivering, and FE colleges and the post-1992 universities in Wales in particular should give serious consideration to expanding the provision of foundation degree courses.

rhai pobl nad yw graddau sylfaen yn werth eu cael; maent yn werth eu cael. Maent yn werth eu darparu, a dylai colegau AB a'r prifysgolion ôl-1992 yng Nghymru, yn benodol, feddwl yn ddwys am ehangu'r ddarpariaeth o ran cyrsiau graddau sylfaen.

Cyllido Addysg Uwch

Higher Educational Funding

C3 Paul Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllido addysg uwch yng Nghymru? OAQ(3)1168(FM)

Q3 Paul Davies: Will the First Minister make a statement on higher educational funding in Wales? OAQ(3)1168(FM)

Y Prif Weinidog: Mae Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen o dan gadeiryddiaeth Merfyn Jones, is-ganghellor Prifysgol Bangor, er mwyn adolygu addysg uwch yng Nghymru. Bydd y grŵp hwnnw yn ystyried materion priodol ynglŷn ag ariannu addysg uwch yng Nghymru. Bydd y grŵp yn cyflwyno ei adolygiad i'r Gweinidog ym mis Medi.

The First Minister: Jane Hutt, the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, has established a task and finish group chaired by Merfyn Jones, the vice-chancellor of Bangor University, in order to review higher education in Wales. The group will consider issues that are relevant to the funding of higher education in Wales. The group will report back to the Minister in September.

2.10 p.m.

Paul Davies: Yn ôl adroddiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, mae'r bwlch ariannu rhwng sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, a'r rhai yn Lloegr, wedi tyfu i ryw £70 miliwn. Heb ariannu digonol, mae'n anodd gweld sut bydd prifysgolion yn gallu cefnogi addysg ac ymchwil o safon uwch. Gall hyn gael effaith aruthrol ar dwf yr economi wybodaeth yng Nghymru. O dan yr amgylchiadau, a all y Prif Weinidog ddweud wrthym sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu cau'r bwlch ariannu?

Paul Davies: According to the Higher Education Funding Council for Wales report, the funding gap between higher education institutions in Wales and England has grown to some £70 million. Without adequate funding, it is difficult to see how universities will be able to invest in supporting higher education and research. This could have a huge impact on the growth of the information economy in Wales. Under the circumstances, will the First Minister tell us how the Government intends to close the funding gap?

Y Prif Weinidog: Bydd y grŵp wedi crynhoi ei waith a rhoi'r adroddiad yn ôl i'r Gweinidog ym mis Medi, ac yr wyf yn siŵr y bydd y fath ffeithiau a chymariaethau yr ydych wedi cyfeirio atynt ymhlith y pynciau llosg yr ymdrinnir â hwy gan y grŵp adolygu. Wedyn, gall y Gweinidog a'r Cabinet ar y cyd ystyried unrhyw argymhellion gan y grŵp.

The First Minister: The group will have summarised its work and reported back to the Minister in September, and I am sure that the kinds of facts and comparisons that you have referred to will be among the key issues that will be dealt with by the review group. Then, the Minister and the Cabinet can jointly consider any recommendations made by the group.

2.10 p.m.

Jeff Cuthbert: As part of the issue of the funding of higher education, do you agree that it is important that higher education

Jeff Cuthbert: Fel rhan o'r cwestiwn yn ymwneud â chyllido addysg uwch, a ydych yn credu ei bod yn bwysig i sefydliadau

institutions continue with their programme of greater collaboration to share resources, and that they also work with industry not just on research, but in the provision of bespoke courses? That can generate significant income, and is already done to a degree in Wales, but certainly it is done widely in other places.

The First Minister: What we have tried to get across—in a way this is an answer to Darren Millar’s question about foundation degrees, as well as an answer to Paul’s question and yours—is that any recommendations that emerge from the Merfyn Jones’s review group will be made against the background of a ‘something for something’ agenda. If you were starting a higher education system in Wales now, you would not design it as it has been inherited. Therefore, we have to try to restructure the sector in order to try to achieve the objectives that we have for the knowledge economy: widening access, greater commercialisation, and the ability to generate much more non-Government income from private or industrial sources by a better connection with business. The broad issue that we want our pre-1992 institutions to do more higher degrees and our post-1992 institutions and further education colleges to do more foundation degrees, would be fundamental to that ‘something for something’ agenda.

Peter Black: When the Assembly put in place its current scheme in relation to top-up fees in Wales, there was cross-party agreement that the funding gap between England and Wales would be bridged over time, and all parties signed up to that. I appreciate that you have now, effectively, kicked this matter into touch by handing it to the review group, but are you still committed to that agreement?

The First Minister: We do not think that the marketisation of higher education in England is particularly beneficial for England, but it is not a matter for us. We certainly can see that the marketisation of the higher education sector in England will have an impact, and possibly a negative one, on the non-marketised higher education sector in Wales. Exactly how it will impact, and what we do

addysg uwch barhau â’u rhaglen i gael mwy o gydweithio i rannu adnoddau, ac iddynt weithio gyda diwydiant hefyd, nid yn unig ym maes ymchwil, ond hefyd wrth ddarparu cyrsiau pwrpasol? Gall hynny gynhyrchu incwm sylweddol, a gwneir hynny eisoes i raddau yng Nghymru, ond yn sicr gwneir hynny’n fwy eang mewn lleoedd eraill.

Y Prif Weinidog: Yr hyn yr ydym wedi ceisio’i gyfleu—ac mewn ffordd mae’n ateb cwestiwn Darren Millar ynghylch graddau sylfaen, yn ogystal ag ateb cwestiwn Paul a’ch un chi—yw y caiff unrhyw argymhellion a fydd yn deillio o grŵp adolygu Merfyn Jones eu gwneud yng nghyd-destun yr agenda ‘rhywbeth am rywbeth’. Petaech yn llunio system addysg uwch o’r newydd yng Nghymru yn awr, ni fydddech yn ei llunio fel y system yr ydym wedi’i hetifeddu. Felly, rhaid inni geisio ailstrwythuro’r sector er mwyn ceisio cyflawni’r amcanion sydd gennym ar gyfer yr economi wybodaeth: ehangu mynediad, mwy o fasnacheiddio, a’r gallu i gynhyrchu llawer mwy o incwm nad yw’n deillio o’r Llywodraeth o ffynonellau preifat neu ddiwydiannol drwy gysylltu’n well â busnesau. Mae’r mater eang, sef ein bod am weld ein sefydliadau cyn-1992 yn gwneud mwy o raddau uwch a’n sefydliadau ôl-1992 a’n colegau addysg bellach yn gwneud mwy o raddau sylfaen, yn hanfodol ar gyfer yr agenda ‘rhywbeth am rywbeth’ honno.

Peter Black: Pan roddodd y Cynulliad ei gynllun presennol ar waith o ran ffioedd atodol yng Nghymru, cafwyd cytundeb trawsbleidiol y byddai’r bwch cyllido rhwng Cymru a Lloegr yn cau dros amser, ac ymrwymodd pob plaid i hynny. Yr wyf yn sylweddoli eich bod erbyn hyn, i bob pwrpas, wedi cefnu ar y mater hwn drwy ei roi yn nwylo’r grŵp adolygu, ond a ydych wedi ymrwymo o hyd i’r cytundeb hwnnw?

Y Prif Weinidog: Nid ydym o’r farn bod marchnadeiddio addysg uwch yn Lloegr yn arbennig o fuddiol i Loegr, ond nid mater i ni yw hynny. Yn sicr, gallwn weld y bydd marchnadeiddio’r sector addysg uwch yn Lloegr yn cael effaith, effaith negyddol o bosibl, ar y sector addysg uwch nad yw’n cael ei farchnadeiddio yng Nghymru. O ran sut yn union y bydd yn effeithio, a beth yr

about that impact, is the kind of issue that we expect the Merfyn Jones review group to report to the Minister on in September, especially as regards funding and the allegations in relation to a gap in funding in terms of resource per student.

Gareth Jones: Wythnos yn ôl, yn ei ddatganiad am y grŵp cynghori'r Gweinidog ar yr economi, dywedodd y Gweinidog, wrth gyfeirio at argymhellion Gibson ar fasnacheiddio, fod yn rhaid cynyddu'r buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu os ydym am elwa'n fasnachol i'r eithaf ar y bartneriaeth rhwng y sector preifat a'n prifysgolion. A ydych yn cytuno?

Y Prif Weinidog: Cytunaf yn gryf. Mae'n rhan o'r hyn a ddywedais wrth ateb Jeff Cuthbert. Mae'n rhaid i'n holl brifysgolion, yn ogystal â lobïo Llywodraeth y Cynulliad am fwy o arian, feddwl yn fwy creadigol am sut y gwnânt ddenu mwy o gyfalaf i mewn o'r sector preifat, oddi wrth elusennau a phobl gyfoethog sydd yn byw yn yr ardal ac sydd am gysylltu â'r brifysgol, a hefyd sut i gael hyd i ragor o ffynonellau o arian drwy fasnacheiddio'r fenter sydd yn digwydd yn y labordai neu'r syniadau sydd ym mhennau y bobl ddeallus sydd ganddynt ar eu staff, hynny yw, y bobl sydd yn gwneud yr ymchwil. Nid yw'r ddibyniaeth 100 y cant hon yn digwydd yn Lloegr. Mae tuedd yng Nghymru i bobl feddwl yn unig am ffyrdd o lobïo'r Llywodraeth am ragor o arian. Dyna pam yr ydym yn rhoi'r pwyslais hwn ar gael rhywbeth am wneud rhywbeth wrth ailstrwythuro a gwneud eich hunain yn fwy effeithiol.

Encouraging Innovation

Q4 Sandy Mewies: How is the Welsh Assembly Government encouraging innovation in Welsh companies? OAQ(3)1188(FM)

The First Minister: The big change that has been made in the past 12 months is trying to mainstream the SMART Cymru awards. SMART Cymru is the scheme that we have had for some time in order to give a kind of premium to companies that develop a new product or process. That has been a separate scheme to regional selective assistance,

ydym yn ei wneud ynghylch yr effaith honno, dyna'r union beth y byddwn yn disgwyl i grŵp adolygu Merfyn Jones adrodd yn ei gylch i'r Gweinidog ym mis Medi, yn enwedig o ran cyllido a'r honiadau am fwllch mewn cyllido o ran adnoddau fesul myfyriwr.

Gareth Jones: Last week, in his statement on the ministerial advisory group on the economy, and in referring to the Gibson recommendations on commercialisation, the Minister said that investment in research and development needs to be increased if we are to benefit to the utmost, commercially, from the partnership between the private sector and our universities. Do you agree?

The First Minister: I strongly agree. It is part of what I said in my response to Jeff Cuthbert. As well as lobbying the Assembly Government for additional money, all of our universities have to think more creatively about how they will attract more capital from the private sector, from charities and wealthy people living in the area who wish to have links with the universities, and also about how to find more sources of money through the commercialisation of the initiatives that take place in laboratories or of the ideas in the heads of the clever people that they have on their staff, that is, the people who do the research. This 100 per cent dependency does not happen in England. There is a tendency in Wales for people to think only about ways to lobby the Government for more money. That is why we are placing this emphasis on getting something for doing something in restructuring and making yourself more effective.

Hybu Arloesedd

C4 Sandy Mewies: Sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hybu arloesedd mewn cwmnïau yng Nghymru? OAQ(3)1188(FM)

Y Prif Weinidog: Y newid mawr sydd wedi cael ei wneud dros y 12 mis diwethaf yw ceisio prif ffrydio dyfarniadau SMART Cymru. SMART Cymru yw'r cynllun sydd wedi bod gennym ers cryn amser er mwyn rhoi math o bremiwm i gwmnïau sy'n datblygu cynnyrch neu broses newydd. Mae hwnnw wedi bod yn gynllun ar wahân i

which helps companies to build a new factory or office. We have now merged the two schemes so that SMART Cymru is now part of regional selective assistance. That is a major step forward in encouraging innovation.

Sandy Mewies: Like me, you are aware of the success of Revolymer in my constituency and its removable chewing gum. Do you, like me, but unlike some people, including the opposition parties who often want to talk down success in Wales, think that we should be proud of the innovative success of companies? Will you join me in congratulating the 12 out of 13 Welsh inventors who exhibited at the international exhibition of inventions in Geneva, and who walked away with medals? Each of them belongs to the Welsh Innovators Network. Their inventions range from things like a board game to a system to help with the assembling of flat-pack furniture, which I believe is much needed.

The First Minister: That is certainly much-needed. We would all welcome such an innovation. I visited Revolymer with you some 18 months ago, at its premises in Warwick International, where the Chief Whip once worked. The initiative is the result of a collaboration between Bristol University and Warwick International as the host company in whose laboratories the team of scientists were working. Meeting the clever people working at the frontiers and hearing from them about how they are trying to commercialise something that is only a bright idea at the moment—although that was 18 months ago, and it has probably gone well beyond that now—is exciting. What you said about the 12 Welsh inventors, out of 13, getting medals in Geneva is a remarkable tribute to innovation in Wales.

William Graham: I assure you, First Minister, that we on this side of the Chamber are equally supportive of Welsh business and intend to remain so.

I draw your attention to the remarkable success of the Edinburgh BioQuarter. There is much that Welsh business could learn from that particular development and, hopefully,

gymorth rhanbarthol dewisol, sy'n helpu cwmnïau i adeiladu ffatri neu swyddfa newydd. Erbyn hyn yr ydym wedi uno'r ddau gynllun fel bod SMART Cymru bellach yn rhan o gymorth rhanbarthol dewisol. Mae hynny'n gam mawr ymlaen o ran hybu arloesedd.

Sandy Mewies: Fel finnau, yr ydych yn ymwybodol o lwyddiant Revolymer yn fy etholaeth a'i gwm cnoi y gellir ei godi. A ydych chi, fel fi, ond yn wahanol i rai pobl, gan gynnwys y gwrthbleidiau sy'n aml am ddiffrïo llwyddiant yng Nghymru, yn meddwl y dylem fod yn falch o lwyddiant arloesol ein cwmnïau? A wnewch ymuno â mi i longyfarch y 12 o'r 13 dyfeisiwr o Gymru a fu'n arddangos yn yr arddangosfa ryngwladol o ddyfeisiadau yn Genefa ac a ddaeth adref gyda medalau? Mae pob un ohonynt yn perthyn i Rwydwaith Arloeswyr Cymru. Mae eu dyfeisiadau'n amrywio o bethau megis gêm fwrdd i system i helpu i roi celfi sydd mewn pecynnau fflat at ei gilydd, rhywbeth y mae gwir angen ei gael yn fy marn i.

Y Prif Weinidog: Mae gwir angen hynny'n sicr. Byddem i gyd yn croesawu arloesedd o'r fath. Ymwelais â Revolymer gyda chi tua 18 mis yn ôl, yn ei adeilad yn Warwick International, lle yr arferai'r Prif Chwip weithio. Mae'r cynllun yn ffrwyth cydweithrediad rhwng Prifysgol Bryste a Warwick International fel y cwmni sy'n ei gynnal, ac yn ei labordai yr oedd y tîm o wyddonwyr yn gweithio. Mae'n gyffrous cwrdd â'r bobl ddeallus sy'n gweithio ar flaen y gad a chlywed ganddynt sut y maent yn ceisio masnacheiddio rhywbeth nad yw ond yn syniad da ar hyn o bryd, er bod hynny 18 mis yn ôl, ac mae'n debyg ei fod wedi mynd ymhellach o lawer erbyn hyn. Mae'r hyn a ddywedasoch am y 12 dyfeisiwr o Gymru, o'r 13, yn cael medalau yn Genefa yn deyrnged ryfeddol i arloesedd yng Nghymru.

William Graham: Yr wyf yn eich sicrhau, Brif Weinidog, ein bod ni ar yr ochr hon i'r Siambr yr un mor gefnogol i fusnesau yng Nghymru, a'n bod yn bwriadu parhau'n gefnogol.

Tynnaf eich sylw at lwyddiant nodedig BioQuarter Caeredin. Mae llawer y gallai busnesau Cymru ei ddysgu gan y datblygiad penodol hwnnw, a gobeithio y gallech annog

you could encourage that. The JMJ Laboratories in Abergavenny, for example, recently launched a breakthrough MRSA screening service through the immense help of experts in this country and throughout the world. Would you agree with me that there must be a good foundation in Wales for greater biomedical commercialisation?

The First Minister: One of the traditional strengths of industry at the cutting edge of new technology is certainly on the biotechnology and life sciences side. Indeed, last week, I visited Protherics in Ffostrasol outside Llandysul, which is not the kind of place that you would necessarily associate straight away with high technology. As it happens, it is an incredibly high-tech company that is currently in the middle of a programme, funded by AstraZeneca International, trying to find a cure for septicaemia, which has defeated scientists all over the world for a long time. It is great to find examples of high technology in rural Wales, whether they are in Abergavenny or Ffostrasol, and let us have many more of them.

Mohammad Asghar: Innovation is a vital part of every business, and I am glad that the Welsh Assembly Government has a team to help businesses around Wales with innovation and technology. I note from the Welsh Assembly Government's website that, in 2006, the team helped nearly 3,000 businesses and individuals. Could you tell me how many were helped in 2007?

2.20 p.m.

The First Minister: I do not have the figures to hand, but I will ensure that the Deputy First Minister, who has responsibility for enterprise support, gives you the details, if they are available. If the details are not available, I will ensure that the Deputy First Minister supplies the 2007 figures as soon as they become available.

I mentioned earlier that we had made a change by mainstreaming the SMART Cymru awards for new products and processes of outstanding merit and by allowing it to be assisted from the regional

hynny. Lansiodd Labordai JMJ yn y Fenni, er enghraifft, wasanaeth sgrinio MRSA arloesol yn ddiweddar drwy help sylweddol arbenigwyr yn y wlad hon ac ym mhedwar ban byd. A fyddech yn cytuno â mi fod yn rhaid cael sylfaen dda yng Nghymru ar gyfer rhagor o fasnacheiddio biofeddygol?

Y Prif Weinidog: Un o gryfderau traddodiadol diwydiant sy'n torri tir newydd yng nghyswllt technoleg newydd yw'r ochr biodechnoleg a gwyddorau bywyd yn sicr. Yn wir, yr wythnos diwethaf, ymwelais â Protherics yn Ffostrasol y tu allan i Landysul, nid y math o le y byddech o anghenraid yn ei gysylltu ar unwaith ag uwch-dechnoleg. Fel y mae'n digwydd, mae'n gwmni uwch-dechnoleg o fri sydd ar hyn o bryd ar ganol rhaglen a gyllidir gan AstraZeneca International, sy'n ceisio dod o hyd i feddyginiaeth ar gyfer septisemia, sydd wedi bod yn drech na gwyddonwyr ym mhedwar ban byd ers amser maith. Mae'n wych dod o hyd i enghreifftiau o uwch-dechnoleg yng Nghymru wledig, boed hynny yn y Fenni neu yn Ffostrasol, a gadewch inni gael llawer iawn mwy ohonynt.

Mohammad Asghar: Mae arloesedd yn rhan hanfodol o bob busnes, ac yr wyf yn falch bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dîm i helpu busnesau ledled Cymru gydag arloesedd a thechnoleg. Yr wyf yn sylwi, yn ôl gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru, i'r tîm helpu bron 3,000 o fusnesau ac unigolion yn 2006. A allech ddweud wrthyf faint a gafodd gymorth yn 2007?

Y Prif Weinidog: Nid yw'r ffigurau gennyf wrth law, ond sicrhaf y bydd y Dirprwy Brif Weinidog, sy'n gyfrifol am gymorth i fenter, yn rhoi'r manylion i chi, os ydynt ar gael. Os nad yw'r manylion ar gael, sicrhaf fod y Dirprwy Brif Weinidog yn darparu ffigurau 2007 cyn gynted ag y byddant ar gael.

Soniais yn gynharach ein bod wedi gwneud newid drwy brif ffrydio dyfarniadau SMART Cymru ar gyfer cynnyrch a phrosesau newydd sy'n arbennig o deilwng a thrwy ganiatáu iddo gael cymorth o'r pot cymorth

selective assistance pot. We had already made an earlier change with regard to research and development companies, which do not invest capital. Research and development companies invest in clever people; their assets walk in at 8 a.m. and go home at 6 p.m. They are not capital assets by and large. For some time, we have had another innovation in place to try to promote research and development by subsidising the salary costs of research and development programmes or people-oriented businesses where there is not a big capital component in terms of plant or buildings. It was an important breakthrough, and mainstreaming SMART is another one. The Assembly investment grant scheme, which is probably what you are referring to, is the third one.

Alun Davies: All of us who have run businesses know that innovation is very much the lifeblood of any business. In taking forward your economic development strategy, would you continue to ensure that a real priority is given to the interface between business, universities and the higher education sector? The interface between higher education and business is where innovation becomes profitable and where we are able to exploit the innovation of people working in the universities and higher education sector. Will the Government continue to support that interface and prioritise it in taking forward its economic development policies?

The First Minister: Yes, certainly. You will be aware of the major investment that was done through Objective 1 in the Institute of Life Sciences at Swansea University. It is true that Swansea University acts as host and that a big company, rather than a small company, namely IBM, provides the computer support, but the promise—and I believe that it has been fulfilled—was to create 240 jobs in spin-out companies from that. That was the reason for putting the public money in through Objective 1. We expect to see similar programmes to the Institute of Life Sciences emerging during the convergence programme, to carry on that tradition, breaking down the barriers between the commercial world and the university world.

rhanbarthol dewisol. Yr oeddem eisoes wedi gwneud newid cynharach ynglŷn â chwmnïau ymchwil a datblygu, nad ydynt yn buddsoddi cyfalaf. Mae cwmnïau ymchwil a datblygu yn buddsoddi mewn pobl ddeallus; mae eu hasedau'n cerdded i mewn am 8 a.m. ac yn mynd adref am 6 p.m. Nid ydynt yn asedau cyfalaf at ei gilydd. Ers tro mae gennym drefn newydd arall ar waith i geisio hyrwyddo ymchwil a datblygu drwy roi cymhorthdal ar gyfer costau cyflog rhaglenni ymchwil a datblygu neu fusnesau sy'n canolbwyntio ar bobl lle nad oes elfen fawr o gyfalaf o ran offer neu adeiladau. Yr oedd cyflwyno hynny'n bwysig, yn ogystal â phrif ffrydio SMART. Yr un modd hefyd o ran cynllun grant buddsoddi'r Cynulliad, sef yr hyn yr ydych yn cyfeirio ato mae'n debyg.

Alun Davies: Mae pawb ohonom sydd wedi rhedeg busnes yn gwybod mai arloesedd yw anadl einioes unrhyw fusnes. Wrth ichi roi eich strategaeth datblygu economaidd ar waith, a fyddech yn parhau i sicrhau bod blaenoriaeth go iawn yn cael ei rhoi i'r rhyng-gysylltiad rhwng busnesau, prifysgolion a'r sector addysg uwch? Yn y rhyng-gysylltiad rhwng addysg uwch a busnesau y mae arloesedd yn dod yn broffidiol, a dyna lle y gallwn fanteisio ar arloesedd pobl sy'n gweithio yn y prifysgolion a'r sector addysg uwch. A wnaiff y Llywodraeth barhau i gefnogi'r rhyng-gysylltiad hwnnw a rhoi blaenoriaeth iddo wrth roi ei pholisïau datblygu economaidd ar waith?

Y Prif Weinidog: Gwnaiff, yn sicr. Byddwch yn gwybod am y buddsoddiad mawr a wnaethpwyd drwy Amcan 1 yn yr Athrofa Gwyddorau Bywyd ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'n wir mai Prifysgol Abertawe sy'n ei chynnal ac mai cwmni mawr, yn hytrach na chwmni bach, sef IBM, sy'n darparu'r gefnogaeth gyfrifiadurol, ond yr addewid—a chredaf ei fod wedi cael ei wireddu—oedd creu 240 o swyddi mewn cwmnïau a fyddai'n deillio o hynny. Dyna oedd y rheswm dros roi'r arian cyhoeddus drwy Amcan 1. Yr ydym yn disgwyl gweld rhaglenni tebyg i'r Athrofa Gwyddorau Bywyd yn dod i'r amlwg yn ystod y rhaglen gydgyfeirio, i barhau â'r traddodiad hwnnw, gan chwalu'r rhwystrau rhwng y byd masnachol a byd y prifysgolion.

Lefelau Tlodi Plant

C5 Bethan Jenkins: A yw'r Prif Weinidog wedi cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'r cynnydd diweddar mewn lefelau tlodi plant? OAQ(3)1186(FM)

Y Prif Weinidog: Mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Cafwyd cyfarfod bythefnos yn ôl i heddiw i drafod materion sy'n ymwneud â thlodi plant, a hynny drwy fforwm y pedair gwlad ar dlodi plant. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, bu swyddogion yn trafod yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud o'r newydd ar draws y Deyrnas Unedig er mwyn cyrraedd y targedau heriol o haneru tlodi plant erbyn 2010 a'n gwaredu rhag tlodi plant erbyn 2020.

Lefelau Tlodi Plant

C5 Bethan Jenkins: A yw'r Prif Weinidog wedi cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'r cynnydd diweddar mewn lefelau tlodi plant? OAQ(3)1186(FM)

Y Prif Weinidog: Mae swyddogion yn cyfarfod yn rheolaidd â Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Cafwyd cyfarfod bythefnos yn ôl i heddiw i drafod materion sy'n ymwneud â thlodi plant, a hynny drwy fforwm y pedair gwlad ar dlodi plant. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, bu swyddogion yn trafod yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud o'r newydd ar draws y Deyrnas Unedig er mwyn cyrraedd y targedau heriol o haneru tlodi plant erbyn 2010 a'n gwaredu rhag tlodi plant erbyn 2020.

Bethan Jenkins: Ymddengys fod Llywodraeth San Steffan yn fwy ymatebol na'n weithredol i ddigwyddiadau ynghylch cyrraedd y targedau. Felly, pa drafodaethau a gawsoch yng nghyd-destun sicrhau bod y £3 yn mynd tuag at y gwariant ar yr agenda tlodi plant? Hefyd, pa drafodaethau a gawsoch ynglŷn ag adnewyddu ac ail-greu system lles Llywodraeth San Steffan yng nghyd-destun sut y byddai hynny o gymorth o ran benthyciadau tlodi plant a'r effaith ar y sector preifat?

Child Poverty Levels

Q5 Bethan Jenkins: Has the First Minister held discussions with the UK Government on the recent rise in child poverty levels? OAQ(3)1186(FM)

The First Minister: Officials meet regularly with the UK Government. A meeting was held two weeks ago to discuss child poverty issues, through the four nations forum on child poverty. During that meeting, officials discussed renewed efforts across the United Kingdom aimed at achieving the challenging targets of reducing child poverty by 50 per cent by 2010 and totally eradicating child poverty by 2020.

Child Poverty Levels

Q5 Bethan Jenkins: Has the First Minister held discussions with the UK Government on the recent rise in child poverty levels? OAQ(3)1186(FM)

The First Minister: Officials meet regularly with the UK Government. A meeting was held two weeks ago to discuss child poverty issues, through the four nations forum on child poverty. During that meeting, officials discussed renewed efforts across the United Kingdom aimed at achieving the challenging targets of reducing child poverty by 50 per cent by 2010 and totally eradicating child poverty by 2020.

Bethan Jenkins: It seems that the Westminster Government is more reactive than proactive in terms of events around achieving the targets. Therefore, what discussions have you had in the context of ensuring that the £3 million goes towards spending on the child poverty agenda? Also, what discussions have you had about renewing and recreating the Westminster Government's benefit system in the context of how that would help in terms of child poverty loans and the impact on the private sector?

Y Prif Weinidog: Ni chredaf fod gwahaniaeth neu bellter o filiynau o filltiroedd rhwng yr hyn a ddisgrifiwyd gennych a holl athroniaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â lleihau tlodi plant a'n gwaredu o hynny. Yn ystod wyth mlynedd cyntaf y Llywodraeth Lafur, yn dechrau yn 1997 ac yn 1999 pan ddaethom ni i rym yng Nghymru, cafwyd cwmp sylweddol mewn lefelau tlodi plant a'r ganran o blant yn byw mewn tlodi ar draws y Deyrnas Unedig. Dangosodd y ffigurau diweddar gynnydd bach. Serch hynny, ac mae pawb yn awr yn dweud, 'Sut allwn ailsefydlu'r duedd hon o gwmp yn y ganran o dlodi ymhlith plant?'. Credaf y bydd y newidiadau a wnaed—o ran, er enghraifft, budd-dal yn cael ei dalu ar gyfer y plentyn cyntaf—fydd yn cael eu gweithredu o fis Ebrill 2009 ymlaen, yn arwain at y duedd honno yn cael ei ailsefydlu. Mae pawb yn disgwyl gweld cwmp yn y ganran o dlodi ymhlith plant.

Mark Isherwood: As we know, the Department for Work and Pensions figures for 2006-07 show that it was not a small increase; it was an increase of 100,000 on the previous year, with the proportionate increase in Wales being higher than that in the rest of the United Kingdom. You referred to Government measures announced in the budget, but the Institute for Fiscal Studies stated that the Treasury would have to find £2.8 billion extra to have even a 50:50 chance of meeting the 2010 target. Given the importance of this issue to everyone across the Chamber, will you communicate directly with the UK Government to express our concerns and, hopefully, to find solid proposals on which we can work together to address this?

The First Minister: I am not sure whether or not you are disagreeing with the version of events that I gave in terms of the run of statistical data. I think that what I said was perfectly accurate; therefore I do not accept your pseudo correction of it. The percentage of children in relative poverty had dropped from 35 per cent to 28 per cent in 2005-06 in Wales, and then it rose to 29 per cent—that is why I was referring to a recent small rise, relative to the very large drop that had previously occurred. Everyone is worried

The First Minister: I do not think that what you have described is a million miles away from the whole philosophy of the UK Government with regard to reducing and eliminating child poverty. During the first eight years of the Labour Government, starting in 1997 and in 1999 when we came to power in Wales, there was a significant fall in the levels of child poverty and the percentage of children living in poverty across the United Kingdom. The latest figures showed a small increase, and everyone is now saying, 'How can we re-establish this trend of a fall in the percentage of child poverty?'. I believe that the changes made—for example in terms of a benefit being paid for the first child—which will be implemented from April 2009, will lead to the re-establishing of that trend. Everyone expects to see a fall in the percentage of child poverty.

Mark Isherwood: Fel y gwyddom, dengys ffigurau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer 2006-07 nad cynnydd bach ydoedd; yr oedd 100,000 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, a'r cynnydd cyfatebol yng Nghymru yn uwch nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Cyfeiriasoch at fesurau'r Llywodraeth a gyhoeddwyd yn y gyllideb, ond dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y byddai'n rhaid i'r Trysorlys ddod o hyd i £2.8 biliwn yn ychwanegol i gael cyfle hanner a hanner hyd yn oed i gyrraedd y targed ar gyfer 2010. O ystyried pwysigrwydd y mater hwn i bawb ar draws y Siambr, a wnewch gyfathrebu'n uniongyrchol â Llywodraeth y DU i fynegi ein pryderon a, gobeithio, dod o hyd i gynigion cadarn y gallwn gydweithio arnynt er mwyn mynd i'r afael â hyn?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr a ydych yn anghytuno ai peidio â'r wybodaeth a roddais o ran trefn y data ystadegol. Credaf fod yr hyn a ddywedais yn berffaith gywir; felly nid wyf yn derbyn eich ffug gywiriad ohono. Yr oedd canran y plant mewn tlodi cymharol wedi gostwng o 35 y cant i 28 y cant yn 2005-06 yng Nghymru, ac wedyn cododd i 29 y cant—dyna pam yr oeddwn yn cyfeirio at gynnydd bach yn ddiweddar, o'i gymharu â'r gostyngiad mawr a oedd wedi digwydd cyn hynny. Mae pawb yn poeni am

about that small rise and wants to see the previous downward path being re-established. That is the reason for some of the budget measures that were announced recently—although they will not come into effect until March 2009—in terms of the increase in child benefit and how child benefit and, I think that the working families' tax credit, will be ignored in the calculation of council tax benefit and housing benefit. That will have a considerable impact on re-establishing the downward trend.

Michael German: The figures from the DWP show that, last year, there were 144,000 children in Wales living in poverty, and now there are 150,000. Those are the actual figures, which show that there are 6,000 more children living in poverty in Wales than there were in the previous year. I am sure that you will remember who said that the Welsh Assembly Government's policies would be judged according to whether they helped achieve the goal of reducing child poverty.

Recently, our children's commissioner said that this is a huge year in terms of reporting to the United Nations on children's rights, and child poverty will be one of the crucial issues. We should expect the United Nations to be really hard on the Welsh Assembly Government and we should welcome that, because, unless we have that kind of focus and unless we raise this matter to the point at which people begin to listen, we will not make the necessary inroads. Given the statement about Assembly policies and the levers that you have at your disposal in the Welsh Assembly Government, do you agree that you must now raise your game beyond your current targeted activities in order to make those necessary inroads into child poverty and to make the impact to meet the targets that you set yourself?

The First Minister: To correct you, you said 'now' that there are more children living in poverty, but we do not know that. When you say 'now', you actually mean 18 months ago, as there was a rise between 2005 and 2006—in other words, during the period up to but

y cynnydd bach hwnnw ac am weld y duedd flaenorol, sef bod gostyngiad, yn ailddechrau. Dyna'r rheswm dros rai o'r mesurau cyllideb a gyhoeddwyd yn ddiweddar—er na fyddant yn dod i rym tan fis Mawrth 2009—o ran y cynnydd mewn budd-dal plant a sut y bydd budd-dal plant, a'r credyd treth i deuluoedd sy'n gweithio, yr wyf yn credu, yn cael eu hanwybyddu wrth gyfrifo budd-dal y dreth gyngor a budd-dal tai. Bydd hynny'n cael effaith sylweddol o ran sicrhau bod y patrwm ar i lawr yn ailddechrau.

Michael German: Dengys y ffigurau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau fod 144,000 o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi y llynedd, ac erbyn hyn mae 150,000 ohonynt. Dyna'r ffigurau go iawn, sy'n dangos bod 6,000 yn fwy o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru nag yn y flwyddyn flaenorol. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cofio pwy ddywedodd y byddai polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael eu barnu yn ôl a ydynt wedi helpu i gyflawni'r nod o leihau tlodi plant ai peidio.

Yn ddiweddar, dywedodd ein comisiynydd plant fod hon yn flwyddyn enfawr o ran adrodd i'r Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant, a bydd tlodi plant yn un o'r materion hollbwysig. Dylem ddisgwyl i'r Cenhedloedd Unedig fod yn llawdrwm iawn ar Llywodraeth Cynulliad Cymru a dylem groesawu hynny, oherwydd, oni bai fod y math hwnnw o ffocws gennym ac oni bai ein bod yn codi'r mater hwn nes bod pobl yn dechrau gwranddo, ni fyddwn yn sicrhau'r gwelliannau sy'n angenrheidiol. O ystyried y datganiad am bolisïau'r Cynulliad a'r dulliau o sicrhau hyn sydd ar gael ichi yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, a ydych yn cytuno bod yn rhaid ichi, erbyn hyn, gyflawni mwy na'r hyn y mae eich gweithgareddau sydd wedi'u targedu ar hyn o bryd yn ei wneud er mwyn sicrhau'r gwelliannau hynny ym maes tlodi plant ac i sicrhau'r effaith i gyrraedd y targedau yr ydych wedi'u gosod i chi'ch hun?

Y Prif Weinidog: Er mwyn eich cywiro, dywedasoed bod mwy o blant yn byw mewn tlodi 'erbyn hyn', ond nid ydym yn gwybod hynny. Pan ddywedwch 'erbyn hyn', yr ydych mewn gwirionedd yn golygu 18 mis yn ôl, gan fod cynnydd rhwng 2005 a 2006—

not beyond 1 April 2007. We do not have the figures for after that, so I do not think that you should say 'now'. You may well be right, but we simply do not know. What we do know is that the Government is confident that the figures that it announced for the budget changes, which will come into effect in 2009, should take 500,000 children out of poverty across the UK. What proportion of those will be in Wales, I do not know. You said that we must raise our game, but I do not know whether you noticed that Brian Gibbons made an announcement on 10 June, which in effect, shoot your fox before you release it into the undergrowth. He announced proposals for a new Welsh law to take action on child poverty, and the interim action, before you can have a law, is based on getting statutory agencies to do voluntarily what they may eventually be compelled to do by law, which is to set themselves targets for contributions that they can make to the reduction of child poverty in Wales.

Michael German: If we take your definition of statistics, there will never be a 'now', because we will only ever have the last available figures.

I want to know what you intend to do in the education world. One of the things that your Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills said is that increasing educational attainment is extremely important in determining the likelihood of a child escaping poverty in later life.

2.30 p.m.

Can you tell us whether the scale-back that will have to happen in the foundation phase will help or hinder meeting the target for reducing child poverty?

The First Minister: Again, you are using imprecise language, which I had to correct you for five minutes ago. You are now referring to a 'scale-back'. What scale-back? Perhaps you could tell us about it. You are throwing an allegation about as though it

mewn geiriau eraill, yn ystod y cyfnod hyd at 1 Ebrill 2007 ond nid ar ôl hynny. Nid yw'r ffigurau ar gyfer y cyfnod wedi hynny gennym, felly nid wyf yn meddwl y dylech ddweud 'erbyn hyn'. Efallai eich bod yn iawn, ond nid ydym yn gwybod hynny. Yr hyn yr ydym yn ei wybod yw bod y Llywodraeth yn hyderus y dylai'r ffigurau a gyhoeddodd ar gyfer y newidiadau yn y gyllideb, a ddylai ddod i rym yn 2009, godi 500,000 o blant allan o dlodi ledled y DU. Pa gyfran o'r rhain a fydd yng Nghymru, nid wyf yn gwybod. Dywedasoch fod yn rhaid inni gyflawni mwy, ond ni wn a sylwasoch fod Brian Gibbons wedi gwneud cyhoeddiad ar 10 Mehefin, a oedd i bob pwrpas, yn saethu eich cadno cyn ichi ei ryddhau i'r prysgwydd. Cyhoeddodd gynigion ar gyfer cyfraith newydd yng Nghymru i gymryd camau ynghylch tlodi plant, ac mae'r camau interim, cyn i chi allu cael cyfraith o'r fath, yn seiliedig ar gael gan asiantaethau statudol wneud o'u gwirfodd yr hyn y gellir yn y pen draw eu gorfodi i'w wneud dan y gyfraith, sef gosod targedau iddynt eu hunain ar gyfer cyfraniadau y gallant eu gwneud i leihau tlodi plant yng Nghymru.

Michael German: Os cymerwn eich diffiniad chi o ystadegau, ni cheir fyth 'erbyn hyn', oherwydd dim ond y ffigurau diwethaf sydd ar gael a fydd gennym fyth.

Mae arnaf eisiau gwybod beth yr ydych yn bwriadu ei wneud ym myd addysg. Un o'r pethau a ddywedodd eich Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau oedd bod cynyddu cyrhaeddiad addysgol yn bwysig dros ben o ran penderfynu pa mor debygol ydyw y bydd plentyn yn dianc rhag tlodi yn ddiweddarach yn ei fywyd.

A allwch ddweud wrthym a fydd y lleihad y bydd yn rhaid iddo digwydd yn y cyfnod sylfaen yn gymorth ynteu'n rhwystr i gyrraedd y targed ar gyfer lleihau tlodi plant?

Y Prif Weinidog: Eto, yr ydych yn defnyddio iaith amwys, rhywbeth y bu'n rhaid imi eich cywiro yn ei gylch bum munud yn ôl. Yr ydych yn cyfeirio'n awr at 'leihad'. Pa leihad? Efallai y gallech ddweud wrthym amdano. Yr ydych yn gwneud rhyw honiad

were a matter of fact, when it is a matter of incorrect supposition on your part. Your use of language is loose and partisan, and I do not think that it befits a leader of a party. You are announcing it as though we accept that there is a scale-back. We do not; there is a delayed roll-out, but that is different. Doing something over four years instead of three is not a scale-back; it is introducing something in a way that we believe will ensure the success of the scheme.

Everybody accepts that this new initiative is the single biggest investment ever to correct child poverty before it gets hold of children when they are at nursery school age. That investment is not only financial but, more importantly, is an investment in the methods of education. Everybody accepts that it is our biggest injection of new funding, but you want to turn it into bad news. That is opposition for opposition's sake, and that is fine if that is the game that you want to play; however, people should be aware of that. This is our biggest new investment in education, but, more importantly, it gets to the source of people's inequality of outcomes from the education system, which affects their lives afterwards.

Michael German: It was a simple question, First Minister. Would the delay in—or, in your words, the 'roll-back' of—the foundation phase's implementation reduce the possibility of reaching the target that you have set yourself for child poverty? Will it help it or hinder it? Yes or no?

The First Minister: The fact that the roll-out will take place over four years instead of three will ensure the successful implementation of the biggest investment of new money in Welsh education ever. By doing it in this way, we can be reasonably sure that it will be successful, and that it will have a better impact than if it were implemented over three years, in which case it might have gone off half-cocked. Therefore, it will have a positive impact.

Provision of Healthcare

Q6 The Leader of the Opposition (Nick

fel petai'n fater o ffaith, er mai mater o dybiaeth anghywir ar eich rhan ydyw. Yr ydych yn defnyddio iaith lac a phleidiol, ac ni chredaf fod hynny'n deilwng o arweinydd plaid. Yr ydych yn ei gyhoeddi fel petaem yn derbyn bod lleihad. Nid ydym yn gwneud hynny; mae oedi gyda'r cyflwyno, ond mae hynny'n wahanol. Nid lleihad yw gwneud rhywbeth dros bedair blynedd yn lle tair, ond cyflwyno rhywbeth mewn modd y credwn y bydd yn sicrhau llwyddiant y cynllun.

Mae pawb yn derbyn mai'r fenter newydd hon yw'r buddsoddiad unigol mwyaf erioed i unioni tloedi plant cyn iddo gael gafael ar blant pan fyddant yn oed ysgol feithrin. Nid buddsoddiad ariannol yn unig ydyw, ond, yn bwysicach, mae'n fuddsoddiad yn y dulliau addysgu. Mae pawb yn derbyn mai dyma ein chwistrelliad mwyaf o arian newydd, ond mae arnoch eisiau ei droi'n newyddion drwg. Gwrthwynebu er mwyn gwrthwynebu yw hynny, ac mae hynny'n iawn os mai dyna'r gêm yr ydych am ei chwarae; fodd bynnag, dylai pobl fod yn ymwybodol o hynny. Dyma ein buddsoddiad newydd mwyaf mewn addysg, ond, yn bwysicach, mae'n mynd at wraidd yr anghydraddoldeb o ran canlyniadau i bobl drwy'r system addysg, sy'n effeithio ar eu bywydau wedyn.

Michael German: Cwestiwn syml ydoedd, Brif Weinidog. A fyddai'r oedi—neu, yn eich geiriau chi, cyflwyno'n fwy graddol—o ran rhoi'r cyfnod sylfaen ar waith yn lleihau'r posibilrwydd y cyrhaeddir y targed yr ydych wedi'i osod i chi'ch hun ar gyfer tloedi plant? A fydd yn gymorth ynteu'n rhwystr iddo? Bydd ynteu na fydd?

Y Prif Weinidog: Bydd y ffaith y bydd y cyflwyno'n digwydd dros bedair blynedd yn lle tair yn sicrhau y bydd y buddsoddiad mwyaf o arian newydd yn addysg Cymru erioed yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus. Drwy ei wneud fel hyn, gallwn fod yn weddol siŵr y bydd yn llwyddiannus, ac y caiff well effaith na phe bai'n cael ei roi ar waith dros dair blynedd, a fyddai efallai wedi golygu mai dim ond ei hanner cyflwyno a gâi. Felly, caiff effaith gadarnhaol.

Darpariaeth Gofal Iechyd

C6 Arweinydd yr Wrthblaid (Nick

Bourne): Will the First Minister make a statement on the provision of healthcare in Wales? OAQ(3)1163(FM)

The First Minister: That is a very timely question given that we are coming up to the sixtieth anniversary of the national health service. It is also timely to look at the unofficial figures. I do not yet place a lot of weight on them, but they appear to show a drop of 20 per cent, possibly more, in the number of heart attack admissions to Welsh hospitals following the introduction of the smoking ban in April 2007. We will return to that when we have properly accredited statistics. Over the next 10 years, we want to place more emphasis on the walk and the fork, so that it is seen as being equal to the scalpel and the stethoscope in improving health.

Nick Bourne: I also wish to celebrate 60 years of the NHS, which has been a marvellous and continuing achievement. However, I want to ask the First Minister about the structural changes that we are bringing in here in Wales. They are changes that I agree with, and so does my party; indeed, we would go further in reducing the number of local health boards. Does he now feel able to apologise for the introduction of the 22 local health boards that he and Jane Hutt championed, saying that they would last for at least 10 years? We know that they have cost at least £15 million in unnecessary funding, which could have been channelled into front-line healthcare.

The First Minister: You created all manner of scare stories about what the original introduction of the LHBs in 2002-03 would do. You said that there would be an overspend, but there was not. You had to withdraw and apologise for all the silly attacks that you made. What a vast amount of political capital was wasted, when you should have been thinking forward to how we could have a healthcare system in Wales to benefit people's health. Like Michael German, you get concerned about the minutiae to put up opposition for opposition's sake. Here you are again, going back to something that happened five years ago. Here we are,

Bourne): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gofal iechyd yng Nghymru? OAQ(3)1163(FM)

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n gwestiwn amserol iawn a ninnau'n dynesu at drigeinfed pen blwydd y gwasanaeth iechyd gwladol. Mae'n amserol edrych ar y ffigurau answyddogol hefyd. Nid wyf yn rhoi llawer o bwys arnynt eto, ond mae'n debyg eu bod yn dangos gostyngiad o 20 y cant, mwy efallai, yn nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i ysbytai Cymru wedi iddynt gael trawiad ar y galon ers cyflwyno'r gwaharddiad ar smygu yn Ebrill 2007. Deuwn yn ôl at hynny pan fydd gennym ystadegau sy'n cael eu cydnabod yn iawn. Dros y 10 mlynedd nesaf, mae arnom eisiau rhoi mwy o bwyslais ar ymarfer corff ac arferion bwyta, fel y gwelir eu bod yn gydradd â chylllell y llawfeddyg a'r stethosgop i wella iechyd.

Nick Bourne: Hoffwn innau ddathlu 60 mlynedd o'r GIG, sydd wedi bod yn llwyddiant bendigedig a pharhaus. Fodd bynnag, mae arnaf eisiau holi'r Prif Weinidog am y newidiadau strwythurol yr ydym yn eu cyflwyno yma yng Nghymru. Maent yn newidiadau yr wyf yn cytuno â hwy, a'm plaid hefyd; yn wir, byddem yn mynd ymhellach o ran gostwng nifer y byrddau iechyd lleol. A ydyw bellach yn teimlo y gall ymddiheuro am gyflwyno'r 22 o fyrddau iechyd lleol, trefn a gefnogwyd ganddo ef a Jane Hutt, gan ddweud y byddent yn parhau am o leiaf 10 mlynedd? Gwyddom eu bod wedi costio o leiaf £15 miliwn o gyllid diangen, y gallesid ei sianelu i ofal iechyd yn y rheng flaen.

Y Prif Weinidog: Codasoch bob math o fwanod ynghylch yr hyn y byddai cyflwyno'r byrddau iechyd lleol yn 2002-03 yn ei wneud. Dywedasoch y byddai gorwariant, ond nis cafwyd. Bu'n rhaid ichi dynnu'n ôl ac ymddiheuro am yr holl ymosodiadau gwirion a wnaethoch. Am swm aruthrol o gyfalaf gwleidyddol a wastraffwyd, pan ddylasech fod yn meddwl ymlaen at sut y gallem gael system gofal iechyd yng Nghymru a fyddai er lles iechyd pobl. Fel Michael German, yr ydych yn ymboeni am y manylion pitw i wrthwynebu er mwyn gwrthwynebu. Dyma chi eto, yn mynd yn ôl at rywbeth a ddigwyddodd bum

celebrating 60 years of the NHS, and yet, instead of looking at how we can prolong and improve people's health in Wales, you insist on playing silly party-political and partisan games. I sometimes despair.

Nick Bourne: So says the First Minister who is never partisan. It was a simple question. If the 22 local health boards were such a success, and if they were designed to last for at least 10 years, why did the incoming Minister for Health and Social Services say that we needed fewer commissioning bodies and a new simplified structure, and then set about bringing in that reform? I repeat the specific question that you dodged, as you always do. Will you apologise for the £15 million that was wasted by you and Jane Hutt on introducing a system that did not last for five years, let alone for 10. I notice that the Minister is giving you a prompt, but perhaps you could answer this question on your own.

The First Minister: Dear, dear. I despair even further. You cannot get away from looking backwards and playing silly party-political games, as you did at the time. I am sorry about how frustrated you felt. You thought that you were onto something big because you thought that there would be a big overspend following the introduction of the LHBs. Sadly for you, there was not. Now you are trying to come back at this from another angle, saying that any further devolution of health service administration in Wales must eventually result in the Assembly's Tory leader demanding an apology from the First Minister. How absolutely pathetic. Try to think about health outcomes and health policies and try not to go backwards five years because that is a complete waste of time. No-one outside the Tory party headquarters is interested in this line that your pathetic research team has come up with. Get some good researchers, and ask some real questions about real issues—[*Interruption.*] That is what people are interested in.

mlynedd yn ôl. Dyma ni, yn dathlu 60 mlynedd o'r GIG, ac eto, yn lle edrych ar sut y gallwn ymestyn a gwella iechyd pobl yng Nghymru, yr ydych yn mynnu chwarae gemau pleidiol a gwleidyddol gwirion. Weithiau byddaf yn anobeithio.

Nick Bourne: Clywch y Prif Weinidog nad yw byth yn wleidyddol bleidiol. Cwestiwn syml ydoedd. Os oedd y 22 bwrdd iechyd lleol yn gymaint o lwyddiant, ac os bwriadwyd iddynt bara am o leiaf 10 mlynedd, pam y dywedodd y Gweinidog newydd dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod angen llai o gyrff comisiynu a strwythur newydd wedi'i symleiddio, cyn bwrw ati i gyflwyno'r diwygiad hwnnw? Ailadroddaf y cwestiwn penodol y bu ichi ei osgoi, fel y gwnewch bob tro. A wnewch ymddiheuro am y £15 miliwn a wastraffwyd gennych chi a Jane Hutt ar gyflwyno system na wnaeth bara am bum mlynedd, heb sôn am 10? Sylwaf fod y Gweinidog yn awgrymu ateb ichi, ond efallai y gallech ateb y cwestiwn hwn ar eich pen eich hun.

Y Prif Weinidog: Diar, diar. Yr wyf yn anobeithio mwy byth. Ni allwch roi'r gorau i edrych yn ôl a chwarae gemau pleidiol wleidyddol gwirion, fel y gwnaethoch ar y pryd. Mae'n flin gennyf eich bod yn teimlo mor rhwystredig. Yr oeddech yn meddwl eich bod ar drywydd rhywbeth mawr oherwydd credech y byddai gorwariant mawr ar ôl cyflwyno'r byrddau iechyd lleol. Yn anffodus i chi, ni ddigwyddodd hynny. Yn awr yr ydych yn ceisio dod yn ôl at hyn o ongl arall, gan ddweud bod unrhyw ddatganoli pellach yng ngweinyddiaeth y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn sicr o olygu yn y pen draw y bydd arweinydd y Toriaid yn y Cynulliad yn mynnu ymddiheuriad gan y Prif Weinidog. Am hollol druenus. Ceisiwch feddwl am ganlyniadau iechyd a pholisïau iechyd a cheisiwch beidio â mynd yn ôl bum mlynedd oherwydd y mae hynny'n wastraff llwyr ar amser. Nid oes gan neb y tu allan i bencadlys y blaid Doriaidd ddiddordeb yn y trywydd hwn y mae eich tîm ymchwil truenus wedi'i ddyfeisio. Mynnwch ymchwilwyr da, a gofynnwch gwestiynau go iawn am bynciau go iawn—[*Torri ar draws.*] Dyna y mae gan bobl ddiddordeb ynddo.

Nick Bourne: When you indulge in personal attacks of that nature—[*Interruption.*]

Nick Bourne: Pan fyddwch yn ymroi i ymosodiadau personol o'r fath—[*Torri ar draws.*]

The Presiding Officer: Order. I cannot even hear the leader of the opposition.

Y Llywydd: Trefn. Ni allaf hyd yn oed glywed arweinydd yr wrthblaid.

Nick Bourne: I am grateful, Llywydd. First Minister, when you indulge in personal attacks of that nature, you run down the office that you hold. It is not statesmanlike and it is about time you became a statesman. Let us try this question for a third time, since we did not get an answer on the first two occasions. If the 22 local health boards were such a success, why did the incoming Minister see the need to reduce the number of commissioning bodies, quite rightly, and to introduce a new, simplified structure? Quite correctly, you said, as did Jane Hutt, that this new system would last for 10 years. It was heralded as the only one in the western world—and now we know why—and it cost us £15 million. I have not made these figures up; they were used by the Minister. Will you now apologise for wasting that money, which could have been used on patient care? Believe me, it may be minutiae to you, but it matters to patients throughout Wales.

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar, Lywydd. Brif Weinidog, pan fyddwch yn ymroi i ymosodiadau personol o'r fath, yr ydych yn bychanu'r swydd sydd gennych. Nid yw'n gweddu i wladweinydd ac mae'n hen bryd ichi dyfu'n wladweinydd. Gadewch inni roi trydydd cynnig ar y cwestiwn hwn, gan na chawsom ateb y ddau dro cyntaf. Os oedd y 22 o fyrddau iechyd lleol yn gymaint o lwyddiant, pam y gwelodd y Gweinidog newydd fod angen lleihau nifer y cyrff comisiynu, yn gwbl gywir, a chyflwyno strwythur newydd, wedi'i symleiddio? Yn hollol gywir, dywedaso, fel y dywedodd Jane Hutt, y byddai'r system newydd hon yn para am 10 mlynedd. Dywedwyd mai hon oedd yr unig un yn y byd gorllewinol—a gwyddom pam bellach—a chostiodd £15 miliwn inni. Nid wyf wedi dyfeisio'r ffigurau hyn o'm pen a'm pastwn fy hun; fe'u defnyddiwyd gan y Gweinidog. A wnech ymddiheuro'n awr am wastraffu'r arian hwnnw, y gallesid ei ddefnyddio ar ofal i gleifion? Credwch fi, efallai mai manylion pitw ydynt i chi, ond mae'n bwysig i gleifion drwy Gymru gyfan.

The First Minister: This is persistent but absolutely pathetic questioning. You are accusing me of making personal attacks, but I have named no-one. You made a personal attack and named someone, and yet that is okay for you because the Tories think that they are born to rule. They are allowed to be personal, but we are not. I did not name anyone and I am accused of making personal attacks, and yet he did name someone. I do not understand this set of rules under which it is okay for Tories to name someone, but not for me. Even though I did not name anyone, I am accused of making a personal attack. That is the height of Tory absurdity and inconsistency.

Y Prif Weinidog: Holi dyfal ond cwbl druenus yw hyn. Yr ydych yn fy nghyhuddo o wneud ymosodiadau personol, ond nid wyf wedi enwi neb. Gwnaethoch chi ymosodiad personol ac enwi rhywun, ac eto mae hynny'n iawn i chi oherwydd y mae'r Torïaid yn credu eu bod wedi'u geni i lywodraethu. Caniateir iddynt hwy fod yn bersonol, ond nid ni. Nid enwais neb ac fe'm cyhuddir o wneud ymosodiadau personol, ac eto enwodd ef rywun. Nid wyf yn deall y set hon o reolau lle y mae'n iawn i Dorïaid enwi rhywun, ond nid i mi. Er nad enwais neb, fe'm cyhuddir o wneud ymosodiad personol. Dyna hurtrwydd ac anghysondeb y Torïaid ar ei waethaf.

You wanted there to be a big overspend on the introduction of LHBs; sadly for you, you did not get it. Your fox was well and truly

Yr oedd arnoch eisiau i orwariant mawr ddigwydd pan gyflwynwyd byrddau iechyd lleol; yn anffodus i chi, ni ddigwyddodd

shot. Now you are trying to come at this again by saying, 'Because changes are out for consultation now, that implies that the original changes were wrong and were not delivered in a way that met with your satisfaction'. What you wanted was a big overspend on the introduction of LHBs. You did not get it, and it is pathetic to try to go back four years when everyone else is looking at the impact of the smoking ban on heart disease, for example. It seems to have had a pretty big impact, but we are not quite sure. You do not want to discuss that because that would mean looking forwards instead of backwards. You do not want to discuss the sixtieth anniversary of the NHS, or what we will do differently over the next 10 years. We want to use the NHS to improve health rather than treat illnesses, which has been deemed to be its problem over the past 60 years. We want to take it forward beyond that, and everyone else is interested in how to use the NHS to improve health, but the Tories are a backward-looking party.

Nick Bourne: I just remind the First Minister that he is First Minister and that the current and former Ministers for health are accountable as Ministers. That is why they were named in the Chamber. We make no apologies for that and he well knows the tradition.

However, let us come back to what he described as 'minutiae', which he claims do not matter to people outside. If you have learned the lesson, we can move on, but £15 million achieves an awful lot in healthcare terms. That money has been wasted because of your policies, which you said would last at least a decade but which barely lasted five years. You have not apologised for this, you have not learned the lessons, and that is why we are in such a mess.

The First Minister: You are getting pompous now, as you did not even ask a question. You just cannot engage on health, can you? You have to go back to see whether you can make a partisan political point about

hynny. Cafodd eich cadno ei saethu go iawn. Yn awr yr ydych yn ceisio bwrw ati eto drwy ddweud, 'Am fod ymgynghori ynghylch newidiadau yn awr, mae hynny'n awgrymu bod y newidiadau gwreiddiol yn anghywir ac na chawsant eu cyflwyno mewn modd a oedd wrth eich bodd'. Yr hyn yr oedd arnoch ei eisiau oedd gorwariant mawr pan gyflwynwyd byrddau iechyd lleol. Ni chawsoch hynny, ac mae'n druenus ceisio mynd yn ôl bedair blynedd tra mae pawb arall yn edrych ar effaith y gwaharddiad ar smygu ar glefyd y galon, er enghraifft. Mae'n ymddangos ei fod wedi cael effaith eithaf mawr, ond nid ydym yn hollol siŵr. Nid oes arnoch eisiau trafod hynny oherwydd byddai hynny'n golygu edrych ymlaen yn lle yn ôl. Nid oes arnoch eisiau trafod trigeinfed penblwydd y GIG, na beth a wnawn yn wahanol dros y 10 mlynedd nesaf. Mae arnom eisiau defnyddio'r GIG i wella iechyd yn hytrach na thrin salwch, sef ei broblem dros y 60 mlynedd diwethaf, fe greidir. Mae arnom eisiau mynd ag ef ymlaen y tu hwnt i hynny, ac mae gan bawb arall ddiddordeb mewn sut i ddefnyddio'r GIG i wella iechyd, ond plaid sy'n edrych yn ôl yw'r Torïaid.

Nick Bourne: Atgoffaf y Prif Weinidog ei fod yn Brif Weinidog a bod y Gweinidogion iechyd cyfredol a blaenorol yn atebol fel Gweinidogion. Dyna pam y'u henwyd yn y Siambr. Nid ymddiheurwn ddim am hynny ac mae'n gyfarwydd iawn â'r traddodiad.

Fodd bynnag, gadewch inni ddod yn ôl at yr hyn a ddisgrifiodd fel 'manyion pitw', nad ydynt yn bwysig i bobl y tu allan yn ôl ei honiad ef. Os ydych wedi dysgu'r wers, gallwn symud ymlaen, ond mae £15 miliwn yn cyflawni cryn dipyn o ran gofal iechyd. Mae'r arian hwnnw wedi'i wastraffu oherwydd eich polisiau, y dywedasoeh y byddent yn para o leiaf ddegawd, ond prin y gwnaethant bara pum mlynedd. Nid ydych wedi ymddiheuro am hyn, nid ydych wedi dysgu'r gwersi, a dyna pam yr ydym yn y fath lanast.

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn mynd yn rhwysgfawr yn awr, gan na wnaethoch hyd yn oed ofyn cwestiwn. Ni allwch ymgysylltu â maes iechyd, na allwch? Mae'n rhaid ichi fynd yn ôl i weld a allwch wneud pwynt

the introduction of LHBs, and have a bit of a go at the Minister for health at the time and then at the First Minister. You would do anything and everything except talk about health, health policies and outcomes. This week marks the sixtieth anniversary of the health service. Everyone else is interested in what the past has taught us, and in looking at what we might want to do differently over the next 10 years. It has taught us that we want to use the NHS to promote health as well as to treat ill health. Only the Tories want to go back five years and replay an argument that we had in the Assembly five years ago. What an absolute waste of time, but I am afraid that the Tories have shown their complete inadequacy when it comes to running the national health service.

2.40 p.m.

Lynne Neagle: First Minister, in view of the announcements made by the Secretary of State for Health in Westminster, Alan Johnson, this week, are you in a position to clarify the situation in Wales on guidance issued by the National Institute for Health and Clinical Excellence and the all-Wales medicines strategy group? Is the Assembly Government in a position today to guarantee the legal rights of patients in Wales to have immediate access to drugs and treatments approved by NICE? Can you also clarify whether this legal right, if it is to exist in Wales, will also extend to those drugs and treatments approved separately by the all-Wales medicine strategy group?

The First Minister: I do not think that I can go into quite the level of detail that you are looking for in response to that multiple-part question. There is a separate NICE in Scotland, but not in Wales or Northern Ireland; England, Wales, and Northern Ireland are all covered by NICE. The proposals to speed up NICE approval will be welcomed by everyone, because I think that people realise that, although NICE is a world-standard body whose advice is frequently followed by scores of countries all over the world, there has been one big area of

pleidiol wleidyddol ynglŷn â chyflwyno byrddau iechyd lleol, ac ymosod ar y Gweinidog iechyd ar y pryd ac wedyn ar y Prif Weinidog. Gwnaech unrhyw beth a phopeth heblaw sôn am iechyd, polisiau a chanlyniadau iechyd. Yr wythnos hon dethlir trigeinfed pen-blwydd y gwasanaeth iechyd. Mae gan bawb arall ddiddordeb yn yr hyn yr ydym wedi'i ddysgu yn sgîl y gorffennol, ac mewn edrych ar yr hyn yr hoffem ei wneud yn wahanol efallai yn y 10 mlynedd nesaf. Yr ydym wedi dysgu bod arnom eisiau defnyddio'r GIG i hybu iechyd yn ogystal ag i drin afiechyd. Dim ond y Torïaid sydd am fynd yn ôl bum mlynedd ac ailgynnal dadl a gawsom yn y Cynulliad bum mlynedd yn ôl. Am wastraff llwyr ar amser, ond mae arnaf ofn bod y Torïaid wedi dangos eu hannigonolrwydd llwyr o ran rhedeg y gwasanaeth iechyd gwladol.

Lynne Neagle: Brif Weinidog, yn wyneb y cyhoeddiadau a wnaethpwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn San Steffan, Alan Johnson, yr wythnos hon, a allwch egluro'r sefyllfa yng Nghymru ynghylch y canllawiau a gyhoeddir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol a grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan? A ydyw Llywodraeth y Cynulliad heddiw'n gallu gwarantu hawliau cyfreithiol cleifion yng Nghymru i gael mynediad yn syth at gyffuriau a thriniaethau a gymeradwyir gan NICE? A allwch egluro hefyd a fydd yr hawl gyfreithiol hon, os yw i fodoli yng Nghymru, yn cynnwys hefyd y cyffuriau a'r triniaethau hynny a gymeradwyir ar wahân gan grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan?

Y Prif Weinidog: Ni chredaf y gallaf fanylu cymaint â'r hyn yr ydych yn ei ddisgwyl wrth ymateb i'r cwestiwn hwnnw yr oedd amryw o rannau iddo. Ceir NICE ar wahân yn yr Alban, ond nid yng Nghymru na Gogledd Iwerddon; NICE sy'n gofalu am Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd pawb yn croesawu'r cynigion i gyflymu cymeradwyaeth NICE, oherwydd credaf fod pobl yn sylweddoli, er bod NICE yn gorff o safon fyd-eang y dilynir ei gyngor yn fynych gan ugeiniau o wledydd drwy'r byd yn grwn, fod anfodlonrwydd mawr wedi bod ynghylch

dissatisfaction, namely that it takes two years to approve certain drugs, but the Scots are frequently able to come to their own conclusions much quicker than that. Alan Johnson has said that he wants to bring the average period for approval down from about two years to about six months. I think that we would all welcome that.

On the question of where this intersects with the all-Wales medicines strategy group, I will have to ask Edwina Hart to write to you about the specifics of that.

Jenny Randerson: First Minister, last week, the Minister for health said that the ambulance service had six months to deliver its targets. Do you accept that having £12 million to repay on previous debts last year and £17 million this year—that is, 9 per cent of its current income—will make it difficult for the ambulance service to reach its targets, to change its performance, and to turn itself around without further Assembly Government investment in revenue funding? Will you agree to discuss with the Minister for health a reconsideration of the pay-back period for these debts, which are hampering the ambulance service's ability to achieve our ambitions for Wales? First Minister, I would be grateful if you would reply by answering the question rather than treating me like a five-year-old.

The First Minister: I am not sure what that is meant to imply, but perhaps you want to make a complaint to the appropriate quarter. However, you have raised an important issue, although that final little remark was unnecessarily waspish and will not help your reputation. I do not know whether we would ever want to encourage a system of writing off debts incurred by a health body in funding itself so that it did not need to repay them, as it would be discouraging to most other health bodies that have borrowed from the centre to commence a restructuring programme. When they have done their restructuring and have worked very hard to achieve savings, they would think it unfair if they saw another body having the debt written off either in full or in part. They might say, 'We tried very hard, so why could

un peth, sef ei fod yn cymryd dwy flynedd i gymeradwyo rhai cyffuriau, ond mae'r Albanwyr yn aml yn gallu dod i'w casgliadau eu hunain yn llawer cyflymach na hynny. Mae Alan Johnson wedi dweud bod arno eisiau dod â'r cyfnod cymeradwyo ar gyfartaledd i lawr o ryw ddwy flynedd i ryw chwe mis. Yr wyf yn meddwl y byddem i gyd yn croesawu hynny.

O ran y cwestiwn lle y mae hyn yn cysylltu â grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan, bydd yn rhaid imi ofyn i Edwina Hart ysgrifennu atoch ynglŷn â manylion hynny.

Jenny Randerson: Brif Weinidog, yr wythnos diwethaf, dywedodd y Gweinidog iechyd fod gan y gwasanaeth ambiwlans chwe mis i gyrraedd ei dargedau. A ydych yn derbyn y bydd gorfod ad-dalu £12 miliwn ar ddyledion blaenorol y llynedd ac £17 miliwn eleni—hynny yw, 9 y cant o'i incwm cyfredol—yn ei gwneud yn anodd i'r gwasanaeth ambiwlans gyrraedd ei dargedau, newid ei berfformiad, a newid ei sefyllfa'n llwyr heb fuddsoddiad pellach gan Lywodraeth y Cynulliad mewn cyllid refeniw? A wnewch gytuno i drafod ailystyried cyfnod ad-dalu'r dyledion hyn, sy'n amharu ar allu'r gwasanaeth ambiwlans i gyflawni ein huchelgeisiau i Gymru, â'r Gweinidog iechyd? Brif Weinidog, byddwn yn ddiolchgar ped atebch y cwestiwn yn hytrach na'm trin fel plentyn pum mlwydd oed.

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr beth y mae hynny i fod i'w awgrymu, ond efallai fod eisiau ichi wneud cwyn i'r man priodol. Fodd bynnag, yr ydych wedi codi mater pwysig, er bod y sylw bach diwethaf hwnnw'n ddiangen o bigog ac na wnaiff helpu eich enw da. Ni wn a fyddai fyth arnom eisiau annog trefn o ddileu dyledion a achosir gan gorff iechyd wrth ei ariannu ei hun fel na fyddai angen iddo'u had-dalu, gan y byddai hynny'n beth digalon i'r rhan fwyaf o gyrff iechyd eraill sydd wedi benthyca gan y canol i gychwyn rhaglen ailstrwythuro. A hwythau wedi gwneud eu hailstrwythuro ac wedi gweithio'n galed iawn i sicrhau arbedion, byddent yn ei gweld yn annheg pe gwelent gorff arall yn cael dileu'r ddyled yn llawn neu'n rhannol. Efallai y dywedent, 'Fe wnaethom ymdrechu'n galed iawn, felly pam

the ambulance service not do so as well?'

na allai'r gwasanaeth ambiwlans wneud hynny hefyd?'

On the figures for the ambulance service, there was an impressive increase, but we want to increase the targets as well. Although it reached the 65 per cent target, we know that, in parts of Wales, it was way off the target. Therefore, there is an issue about the minimum that we expect, as well as achieving an all-Wales average of 65 per cent, which I think was exceeded by just 0.1 per cent. In parts of Wales, especially in south-east Wales, they were a mile off. That is the kind of point that Edwina Hart was concentrating on. We want all parts of Wales to benefit from achieving a 65 per cent target, and not just the best areas and the average.

O ran ffigurau'r gwasanaeth ambiwlans, yr oedd cynnydd da, ond mae arnom eisiau cynyddu'r targedau hefyd. Er iddo gyrraedd y targed o 65 y cant, gwyddom ei fod yn is o lawer na'r targed mewn rhannau o Gymru. Felly, mae cwestiwn ynghylch yr isafswm a ddisgwyliwn, yn ogystal â sicrhau cyfartaledd o 65 y cant i Gymru gyfan, y rhagorwyd arno o 0.1 y cant yn unig, yr wyf yn credu. Mewn rhannau o Gymru, yn enwedig yn y de-ddwyrain, yr oeddent yn bell ohoni. Dyna'r math o bwynt yr oedd Edwina Hart yn canolbwyntio arno. Mae arnom eisiau i bob rhan o Gymru elwa o gyrraedd targed o 65 y cant, nid yr ardaloedd gorau a'r rhai canolig yn unig.

The Education Portfolio

Y Portffolio Addysg

Q7 Andrew R.T. Davies: Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's education priorities? OAQ(3)1172(FM)

C7 Andrew R.T. Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y portffolio addysg? OAQ(3)1172(FM)

The First Minister: Over the next few months, the priorities will be to roll out the foundation phase and to implement the report on 'Skills That Work for Wales'.

Y Prif Weinidog: Yn ystod y misoedd nesaf, y blaenoriaethau fydd cyflwyno'r cyfnod sylfaen a rhoi'r adroddiad am 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' ar waith.

Andrew R.T. Davies: Last week I raised with you the increase in sickness absence for teachers in Wales. This week, I have had a reply from the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills, which gives the figures for different local authority areas. In South Wales Central, Rhondda Cynon Taf has a lamentable record, with the number of sick days doubling over the last five years, from approximately 15,000 to 30,000 days. However, Monmouthshire has managed to maintain its sick days at the same level over that period. Could you please indicate what your Government is doing to work with local authorities on their support for teachers, and how local education authorities are engaging with the teaching profession so that this disparity can be addressed for the benefit of everyone in educational establishments?

Andrew R.T. Davies: Yr wythnos diwethaf, soniais wrthyf am y cynnydd mewn absenoldeb oherwydd salwch ymysg athrawon yng Nghymru. Yr wythnos hon, yr wyf wedi cael ateb gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sy'n rhoi'r ffigurau ar gyfer gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. Yng Nghanol De Cymru, mae gan Rhondda Cynon Taf record druenus, a nifer y dyddiau o salwch wedi dyblu dros y pum mlynedd diwethaf, o tua 15,000 i 30,000 o ddyddiau. Fodd bynnag, mae sir Fynwy wedi llwyddo i gynnal ei dyddiau o salwch ar yr un lefel dros y cyfnod hwnnw. A allech ddweud beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i weithio gydag awdurdodau lleol ynghylch eu cefnogaeth i athrawon, a sut y mae awdurdodau addysg lleol yn ymgysylltu â'r proffesiwn addysgu fel y gellir mynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn er budd pawb mewn sefydliadau addysgol?

The First Minister: There is a kind of supervisory role for the Assembly Government, but the primary responsibility must lie with local authorities, in terms of improving those at the lower end of the league table and bringing them up to the level of the best. I have no reason to question the figures that you have given, Andrew, and it is interesting that they suggest an emerging disparity. We would want the Welsh Local Government Association and the Association of Directors of Education in Wales to share best practice across local authority areas. If that is not happening, we may need to intervene.

Janet Ryder: The funding formula for further education has affected colleges in many different ways. Unfortunately, many colleges have seen a standstill or a cut in the budgets that they have received for this year, so they will have to look at saving money in other ways. Some may well look at cutting back the adult education and community outreach education that is vital to the delivery of a proper skills and re-training agenda in this country. How will you address that situation and ensure that post-19 non-statutory education has some form of funding to allow it to continue?

The First Minister: It is not for us to dictate to further education colleges how they should manage within their budgets. As far as I am aware, there is a big effort by FE colleges to remain within their budgetary allocations, which will vary according to the criteria on the kind of students that they educate, the level to which they educate them, and whether that meets certain priorities that we have set for them. Some FE colleges have done much better than others, and the ones with pressing problems are urgently seeking savings, but those savings do not usually come from front-line staff. They will probably want to think seriously about situation where it will affect front-line services, and look at whether they can find savings on the administrative side.

Kirsty Williams: Despite evidence from Estyn that a good built environment leads to improved teaching performance, better

Y Prif Weinidog: Mae gan Lywodraeth y Cynulliad ryw fath o rôl oruchwylio, ond rhaid i'r prif gyfrifoldeb fod yn eiddo i'r awdurdodau lleol, o ran gwella'r rhai sydd ar ben isaf y tabl cynghrair a'u codi at lefel y goreuon. Nid oes gennyf ddim rheswm dros amau'r ffigurau yr ydych wedi'u rhoi, Andrew, ac mae'n ddiddorol eu bod yn awgrymu bod gwahaniaeth yn dod i'r amlwg. Byddem am i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru rannu'r arferion gorau ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Os nad yw hynny'n digwydd, efallai y bydd angen inni ymyryd.

Janet Ryder: Mae'r fformiwla ariannu ar gyfer addysg bellach wedi effeithio ar golegau mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Yn anffodus, mae llawer o golegau wedi cael cyllidebau digyfnawid neu doriadau yn eu cyllidebau ar gyfer eleni, felly bydd yn rhaid iddynt edrych ar ffyrdd eraill o arbed arian. Efallai'n wir y bydd rhai'n ystyried torri'r addysg i oedolion a'r addysg allgymorth cymunedol sy'n hanfodol i ddarparu agenda sgiliau ac ailhyfforddi briodol yn y wlad hon. Sut yr ewch i'r afael â'r sefyllfa honno a sicrhau y bydd rhyw fath o arian ar gael i addysg anstatudol ôl-19 er mwyn iddi allu parhau?

Y Prif Weinidog: Nid ein lle ni yw dweud wrth golegau addysg bellach sut y dylent weithredu o fewn eu cyllidebau. Hyd y gwn, mae colegau AB yn gwneud ymdrech fawr i aros o fewn eu dyraniadau cyllidebol, a fydd yn amrywio yn ôl y meini prawf ynghylch y math o fyfyrwyr y byddant yn eu haddysgu, hyd at ba lefel y byddant yn eu haddysgu, ac a yw hynny'n bodloni rhai blaenoriaethau penodol yr ydym wedi'u gosod ar eu cyfer. Mae rhai colegau AB wedi gwneud yn llawer gwell nag eraill, ac mae'r rhai â phroblemau dybryd yn chwilio'n daer am arbedion, ond ni ddaw'r arbedion hynny o staff y rheng flaen fel arfer. Mae'n debyg y byddant am feddwl o ddifrif am sefyllfa lle y bydd hynny'n effeithio ar wasanaethau rheng flaen, ac ystyried a allant ganfod arbedion ar yr ochr weinyddol.

Kirsty Williams: Er gwaethaf tystiolaeth gan Estyn fod amgylchedd adeiledig da'n arwain at well perfformiad addysgu, gwell

results and a positive impact on behaviour—I should say, Presiding Officer, that it obviously has not worked for the First Minister, given his grumpy performance this afternoon—you have admitted that the last Government’s target of making all schools fit for purpose by 2010 will not be met. However, at least the last Government had a target—the One Wales Government has not bothered to set one, and talks instead about vague continued improvements. When will your Government set a target that shows when our schoolchildren can expect decent buildings, wherever they are in Wales, and how much money will you allocate for that?

The First Minister: We have massively increased the amount of capital expenditure on school improvements, and it is now running at double the level of a few years ago. We also expect local authorities to generate more revenue themselves via the process of land and capital receipts. Newport City Council has been engaged in that work, adapting the school stock to the number of schoolchildren and making capital receipts available for modernisation. Therefore, it is not just a matter of dependence on funds from us, but also of generating income for an appropriate schools capital funding budget. I know that Cardiff County Council, for instance, is in the middle of this process; it has taken an inordinately long time, but it is engaging in the process.

2.50 p.m.

Jeff Cuthbert: A few moments ago, in the last question, you were invited to look back five years. Do you agree that, when we look back to the Tories’ years in charge of education in Wales, we see a disastrous picture? They spent hardly anything on school buildings in communities like mine, and abandoned a generation of young people, allowing them to leave school without qualifications to the extent that a third of constituents in constituencies such as mine have serious problems with literacy and numeracy. One of our priorities is that we will not abandon a generation, as they did, and through our programme of vocational

canlyniadau ac effaith gadarnhaol ar ymddygiad—dylwn ddweud, Lywydd, ei bod yn amlwg nad yw hynny wedi gweithio i’r Prif Weinidog, o ystyried ei berfformiad sarrug y prynhawn yma—yr ydych wedi cyfaddef na chaiff targed y Llywodraeth ddiwethaf o sicrhau bod pob ysgol yn addas i’w diben erbyn 2010 ei fodloni. Fodd bynnag, o leiaf yr oedd gan y Llywodraeth ddiwethaf darged—nid yw Llywodraeth Cymru’n Un wedi trafferthu gosod un, gan ddewis sôn am welliannau parhaus amwys yn lle hynny. Pryd y gwnaiff eich Llywodraeth osod targed sy’n dangos pryd y gall ein plant ysgol ddisgwyl adeiladau teilwng, lle bynnag y maent yng Nghymru, a faint o arian a ddyrannwch ar gyfer hynny?

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi cynyddu’n aruthrol y gwariant cyfalaf ar welliannau mewn ysgolion, ac mae’r lefel bellach gymaint ddwywaith ag a oedd ychydig flynyddoedd yn ôl. Yr ydym hefyd yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn cynhyrchu mwy o refeniw eu hunain drwy broses derbyniadau tir a chyfalaf. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi bod yn ymwneud â’r gwaith hwnnw, gan addasu’r stoc ysgolion ar gyfer nifer y plant ysgol a sicrhau bod derbyniadau cyfalaf ar gael i’w moderneiddio. Felly, nid mater o ddibynnu ar gyllid gennym ni’n unig ydyw, ond cynhyrchu incwm hefyd ar gyfer cyllideb cyllid cyfalaf briodol i ysgolion. Gwn fod Cyngor Sir Caerdydd, er enghraifft, ar ganol y broses hon; mae wedi cymryd llawer iawn o amser, ond mae ar ganol y broses.

Jeff Cuthbert: Rai munudau’n ôl, yn y cwestiwn diwethaf, fe’ch gwahoddwyd i edrych yn ôl bum mlynedd. A gytunwch, wrth inni edrych yn ôl at flynyddoedd y Toriaid yn rheoli addysg yng Nghymru, ein bod yn gweld darlun trychinebus? Ni wariasant fawr ddim ar adeiladau ysgolion mewn cymunedau megis fy un i, a chefnasant ar genhedlaeth o bobl ifanc, gan adael i gynifer ohonynt adael yr ysgol heb gymwysterau nes bod gan draean yr etholwyr mewn etholaethau megis fy un i broblemau difrifol o ran llythrennedd a rhifedd. Un o’n blaenoriaethau yw na fyddwn yn cefnu ar genhedlaeth, fel y gwnaethant hwy, a thrwy

education, the Welsh baccalaureate, we will ensure that the number of those not in employment, education or training is reduced to the absolute minimum.

The First Minister: I agree. The collapse of the apprenticeship system in the early 1980s is a case in point, and it is difficult to rebuild an apprenticeship culture. You can reopen the places, but you have lost the culture in between, and rebuilding it along the lines set out in 'Skills That Work for Wales' is a major priority for us over the next few months. John Griffiths is taking that agenda forward. The Welsh baccalaureate and the foundation phase are major initiatives that will take Welsh education forward and ensure that it leads the way on a world-wide basis.

The Independent Commission

Q8 The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): Will the First Minister outline the timetable for the establishment of the independent commission to review the funding and finance of the Assembly? OAQ(3)1184(FM)

The First Minister: The 'One Wales' delivery plan makes clear that the commission will begin its work this year, and it will be given adequate time—though not too much—to undertake a thorough analysis. We reckon that a year would enable it to make recommendations by autumn 2009.

Michael German: Can you tell us something of the structure of this commission? Will it involve a broad swathe of opinion and breadth in its membership, or will it be a closed commission whose membership will be determined entirely by the Government, which will mean that it will not have the broad input of a wider membership, despite the fact that its report will come to the Government? It will be interesting to know your thoughts on the matter and what progress has been made.

The First Minister: A broad swathe of evidence will certainly be necessary, but whether it needs a broad swathe of opinion on its executive council, as we have in mind

ein rhaglen o addysg alwedigaethol, bagloriaeth Cymru, sicrhawn y caiff nifer y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ei leihau gymaint ag sy'n bosibl.

Y Prif Weinidog: Cytunaf. Mae cwmp y system prentisiaeth ar ddechrau'r 1980au yn enghraifft, ac mae'n anodd ailadeiladu diwylliant prentisiaeth. Gallwch ailagor y lleoedd, ond yr ydych wedi colli'r diwylliant, ac mae ei ailadeiladu fel yr amlinellir yn 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yn un o'n prif flaenoriaethau dros y misoedd nesaf. John Griffiths sy'n rhoi'r agenda honno ar waith. Mae bagloriaeth Cymru a'r cyfnod sylfaen yn fentrau pwysig a fydd yn symud addysg Cymru ymlaen ac yn sicrhau ei bod yn arwain y ffordd ar raddfa fyd-eang.

Y Comisiwn Annibynnol

C8 Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r amserlen ar gyfer sefydlu'r comisiwn annibynnol i adolygu nawdd a chyllid y Cynulliad? OAQ(3)1184(FM)

Y Prif Weinidog: Mae cynllun cyflenwi 'Cymru'n Un' yn ei gwneud yn glir y bydd y comisiwn yn dechrau ar ei waith eleni, ac y rhoddir digon o amser iddo—ond nid gormod—i gynnal dadansoddiad trwyadl. Yr ydym yn credu y byddai blwyddyn yn ei alluogi i wneud argymhellion erbyn hydref 2009.

Michael German: A allwch ddweud rhywbeth wrthym am strwythur y comisiwn hwn? A fydd yn cynnwys amrywiaeth helaeth o farn ac a fydd ei aelodaeth yn eang, ynteu a fydd yn gomisiwn caeedig gyda'r Llywodraeth yn unig yn penderfynu ar ei aelodaeth, a fydd yn golygu na fydd yn cael mewnbwn helaeth gan aelodaeth ehangach, er y bydd ei adroddiad yn dod gerbron y Llywodraeth? Bydd yn ddiddorol gwybod beth yr ydych yn ei feddwl ynghylch y mater a pha gynnydd sydd wedi'i wneud.

Y Prif Weinidog: Yn sicr, bydd angen amrywiaeth helaeth o dystiolaeth, ond yr wyf yn amau'n gryf a oes angen amrywiaeth helaeth o farn ar ei gyngor gweithredol, fel

for the convention, I doubt very much. I think that everybody would accept that the kind of membership that people have in mind for the convention, which we are hoping to finalise shortly, would not be appropriate for a commission on funding. It will be looking at comparative systems by which central governments all over the world ensure that the right amount of funding is available to regional tier administrations, or the next tier down, as we are. That is not really a job for which you necessarily want a large number of people, but you do want them to be able to get at all the evidence, some of which will be highly technical. Therefore, there will not be as many, but no final decisions have been taken yet.

Alun Ffred Jones: Wrth edrych ymlaen at y pum mlynedd nesaf, mae'n weddol amlwg na fydd cynnydd mawr yng nghyllideb y Cynulliad. A allwch gadarnhau y bydd y comisiwn yn ystyried pwerau ar ffyrdd i fenthycu a chodi arian, yn enwedig ar gyfer cynlluniau cyfalaf?

Y Prif Weinidog: Mater i'r comisiwn yw penderfynu ei argymhellion, ac nid mater i ni. Bydd ganddo ryddid i edrych ar systemau mewn cyfundrefnau datganoledig mewn gwledydd eraill a holi sut y maent yn delio â phynciau llosg codi cyfalaf, benthyca, trethi neu unrhyw beth arall. Mae'n hollol agored i'r comisiwn—nid ni fydd yn penderfynu pa gwestiynau y caiff ei aelodau eu gofyn. Gobeithio y bydd ganddynt y gallu, a'u bod yn ddigon annibynnol, i gynnig argymhellion yn rhydd.

Angela Burns: What is the point of reviewing the Barnett formula given that the Westminster Government has consistently said that it has absolutely plans to review it? Surely, it is just going to be a one-sided affair.

The First Minister: You could say that; it is a reasonable point to make, except that the UK Government has taken over the idea of a review of Scotland's funding as a devolved administration and Parliament, and it has appointed a former chief medical officer for England and vice-chancellor of Durham University—although a Scot—Sir Kenneth

sydd gennym mewn golwg ar gyfer y confensiwn. Credaf y byddai pawb yn derbyn na fyddai'r math o aelodaeth sydd gan bobl mewn golwg ar gyfer y confensiwn, yr ydym yn gobeithio'i chwblhau yn fuan, yn briodol ar gyfer comisiwn ynghylch cyllid. Bydd yn edrych ar systemau cymharol a ddefnyddiwyd gan lywodraethau canolog o bedwar ban byd i sicrhau bod cyllid priodol ar gael i weinyddiaethau haen ranbarthol, neu'r haen nesaf i lawr, fel ni. Nid oes angen nifer fawr o bobl ar gyfer y gwaith hwnnw, o anghenraid, ond mae angen iddynt allu casglu'r holl dystiolaeth, a bydd rhywfaint ohoni'n dechnegol iawn. Felly, ni fydd cynifer ohonynt, ond nid oes penderfyniadau terfynol wedi'u gwneud eto.

Alun Ffred Jones: In looking forward to the next five years, it is fairly clear that there will not be a huge increase in the Assembly's budget. Can you confirm that the commission will look at powers in relation to raising and borrowing money, especially for capital schemes?

The First Minister: It is a matter for the commission, and not for us, to decide on its recommendations. It will be free to look at systems in other devolved situations in other countries and ask how they deal with the controversial issues of raising capital, borrowing, taxes or anything else. It is completely up to the commission—it will not be up to us to decide what questions its members can ask. I hope that they will have the ability, and that they will be independent enough, to freely offer their recommendations.

Angela Burns: Beth yw diben adolygu fformiwla Barnett gan fod Llywodraeth San Steffan wedi dweud yn gyson ei bod yn bendant yn bwriadu ei hadolygu? Siawns nad proses unochrog fydd hon.

Y Prif Weinidog: Gallech ddweud hynny; mae'n bwynt rhesymol i'w wneud, heblaw bod Llywodraeth y DU wedi ymgymryd â'r syniad o adolygu cyllid yr Alban fel gweinyddiaeth ddatganoledig a Senedd, ac mae wedi penodi cyn brif swyddog meddygol Lloegr ac is-ganghellor Prifysgol Durham—er mai Albanwr ydyw—Syr Kenneth Calman,

Calman, to chair it. I believe that the UK Government is taking over the funding of that body, and it will be providing expertise from the Treasury to look at funding issues.

It has not said, 'Yes, and it can review the Barnett formula', but it is looking at funding and finance issues for a devolved parliament. How you can do that without looking at the Barnett formula beats me. I do not, therefore, think that we are doing anything outlandish.

However, doing nothing unless you have four-party agreement between the UK Government, including the Treasury, and the three devolved administrations seems to be going a bit far—I think that that is the implication behind your question—and I would not accept that.

Y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Plant Agored i Niwed

C9 Nerys Evans: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch plant agored i niwed? OAQ(3)1179(FM)

Y Prif Weinidog: Ar 26 Mehefin, cyhoeddodd Pwyllgor Materion Cymreig San Steffan ei adroddiad am y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch plant agored i niwed. Yr ydym wrthi'n ystyried yr argymhellion ac yn anelu at gyflwyno'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol terfynol cyn gynted ag y bo modd.

Nerys Evans: Yr oeddwn yn aelod o'r pwyllgor Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwnnw. Gwrandawodd y pwyllgor ar dystiolaeth a chyflwyno nifer o argymhellion i chi, fel Llywodraeth. Cawsom ymateb gan y Llywodraeth ac yr oedd y Gorchymyn wedi newid yn sylweddol—yr oedd yn hollol wahanol; yr oedd hyd yn oed y teitl wedi newid. Penderfynodd y pwyllgor na fyddem yn gallu rhoi barn ar y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol newydd ac y dylem o leiaf gael cyfarfod craffu ar y cyd gyda phwyllgor yn San Steffan. Ni chafwyd cyfarfod ar y cyd am resymau nad oes digon amser i'w trafod ar hyn o bryd. A ydych yn credu ei bod yn

yn gadeirydd. Credaf fod Llywodraeth y DU yn ymgymryd â chyllido'r corff hwnnw, ac y bydd yn darparu arbenigedd gan y Trysorlys i edrych ar faterion sy'n ymwneud â chyllido.

Nid yw wedi dweud, 'Ie, a chaiff adolygu fformiwla Barnett', ond mae'n edrych ar faterion sy'n ymwneud ag ariannu a chyllid ar gyfer senedd ddatganoledig. Ni wn sut y gallwch wneud hynny heb edrych ar fformiwla Barnett. Felly, nid wyf yn credu ein bod yn gwneud dim byd ffôl.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod peidio â gwneud dim oni bai fod gennych gytundeb pedair ochrog rhwng Llywodraeth y DU, gan gynnwys y Trysorlys, a'r tair gweinyddiaeth ddatganoledig yn mynd braidd yn rhy bell—credaf mai dyna a awgrymwch yn eich cwestiwn—ac ni fyddwn yn derbyn hynny.

The Vulnerable Children Legislative Competence Order

Q9 Nerys Evans: Will the First Minister make a statement on the progress of the vulnerable children legislative competence Order? OAQ(3)1179(FM)

The First Minister: On 26 June, Westminster's Welsh Affairs Committee published its report on the vulnerable children legislative competence Order. We are considering the recommendations and aim to table the final LCO at the earliest opportunity.

Nerys Evans: I was a member of that legislative competence Order committee. The committee listened to evidence and put forward a number of recommendations to you, as a Government. We received a reply from the Government, and the Order was significantly altered—it was completely different; even the title had changed. The committee decided that it could not express an opinion on the new legislative competence Order and that it should at least hold a joint scrutiny meeting with the Westminster committee. Such a meeting was not held, for reasons that time does not allow me to cover at the moment. Do you believe that it is acceptable that the only scrutiny of an

dderbyniol mai pwyllgor o Senedd Llundain yn unig sydd wedi cael cyfle i graffu ar Orchymyn cymhwysedd deddfwriaethol Llywodraeth y Cynulliad?

Y Prif Weinidog: Mater o fusnes rhwng y ddwy weinyddiaeth neu'r ddau gorff deddfwriaethol yw hynny; nid mater i mi. Nid wyf yn siŵr a aeth unrhyw beth o'i le gyda'r trefniadau, gan mai dyma'r tro cyntaf i mi glywed am unrhyw broblem rhyngom ni a nhw o ran hynny. Yr hyn sy'n bwysig yn awr yw'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar ei ffurf bresennol—nid wyf yn deall bod y Pwyllgor Dethol Materion Cymreig wedi gwneud argymhellion i'w newid yn sylweddol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ysgrifennu at aelodau'r Cabinet er mwyn cael y cytundeb terfynol i gyhoeddi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar ei ffurf derfynol ac wedyn gellir ei anfon yn ôl atom ni er mwyn i ni ei osod gerbron y Cynulliad. Yr wyf yn deall bod rhaid rhoi wythnos o rybudd ac wedyn cawn ddadl arno ar ei ffurf derfynol. Ni fyddwch yn gallu cyflwyno gwelliannau; bydd yn rhaid ei dderbyn neu ei wrthod, yn ôl yr hyn a ddeallaf.

David Melding: The Welsh Affairs Committee, in supporting the LCO on vulnerable children, said that it particularly welcomed the fact that the Assembly could, if it so wished, bring forward a Measure to make the Children's Commissioner for Wales accountable to the National Assembly, not to the Welsh Assembly Government. Many of us believe that that is an important point of principle and while, speaking personally, I would commend you and the Minister, Jane Hutt, who have been responsible for the appointment process on both occasions, for the exemplary way in which you conducted those processes, international best practice does put this power with legislatures rather than Governments.

The First Minister: It is a point that is worth considering. I will have to read that part of the Welsh Affairs Select Committee's report again. My understanding was that the committee did not press very hard for many substantial changes, if any. It may be that this

Assembly Government legislative competence Order has been carried out by a committee of the London Parliament?

The First Minister: That is a matter of business between the two administrations or legislative bodies; it is not a matter for me. I am not sure whether anything went wrong with the arrangements, because this is the first that I have heard of a problem between us and them on this issue. The important point now is the legislative competence Order in its current form—I am not given to understand that the Welsh Affairs Committee recommended any significant changes to it. The Secretary of State is writing to all Cabinet members in order to gain final agreement for the publication of the legislative competence Order in its final form, and then it can be returned to us so that we can lay it before the Assembly. I understand that a week's notice is required, and then we can discuss the final draft. You will not be able to table amendments; my understanding is that it will have to be accepted or rejected.

David Melding: Dywedodd y Pwyllgor Materion Cymreig, wrth gefnogi'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ynghylch plant agored i niwed, ei fod yn croesawu'n arbennig y ffaith y gallai'r Cynulliad, petai'n dymuno gwneud hynny, gyflwyno Mesur i sicrhau bod Comisiynydd Plant Cymru'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac nid i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae llawer ohonom yn credu bod hynny'n bwynt pwysig o ran egwyddor ac er y byddwn i'n bersonol yn eich cymeradwyo chi a'r Gweinidog, Jane Hutt, sydd wedi bod yn gyfrifol am y broses benodi y ddau dro, am y ffordd ardderchog y cynaliasoch y prosesau hynny, mae'r arfer gorau'n rhyngwladol yn rhoi'r grym hwn i ddeddfwrfeydd yn hytrach nag i Lywodraethau.

Y Prif Weinidog: Mae'n bwynt gwerth ei ystyried. Bydd yn rhaid imi ddarllen y rhan honno o adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig eto. Yn ôl a ddeallaf, ni phwysodd y pwyllgor yn galed iawn am lawer o newidiadau sylweddol, os o gwbl.

was one change that the committee did press for, but I am not sure and I will have to re-read it. I would certainly want to take the committee's views seriously. As you say, David, the issue for us was not who was to appoint the children's commissioner or to whom the commissioner would be technically accountable. It was a Government appointment, but it was done in a manner that involved children—as far we know, uniquely—having voting rights that were equal to those of the adult members. In terms of the conduct of the previous, interim and new children's commissioner, I think that few could have any doubts that they have all considered themselves to be accountable to the children of Wales. It is pretty much a technical matter, but I will look into it again.

Free Swimming Scheme

Q10 Eleanor Burnham: Will the First Minister make a statement on the progress of the free swimming scheme? OAQ(3)1187(FM)

The First Minister: Rhodri Glyn Thomas, the Minister responsible for heritage and sport, is currently reviewing an evaluation report on the free swimming scheme, which was commissioned by the Sports Council for Wales on our behalf. Early indications reveal that the scheme has had a very positive impact on participation rates for both the under-16s age group and the over 60s.

Eleanor Burnham: You probably know that I have constantly asked about swimming lessons. It is a bit like giving somebody free piano activities, but for them not to be able to play the piano; many children may be able to splash about, but may not be able to swim. In view of the fact that British Swimming has shown that someone drowns in the UK every 17 hours and that drowning is the highest cause of accidental death among children, do you not think that it is about time that we adopted a more structured approach to this? For instance, Swim Wales says that we should have properly structured lessons during this free swim period. How do you and the Welsh Assembly Government respond to this important need?

Efallai fod hyn yn un newid y pwysodd y pwyllgor amdano, ond nid wyf yn siŵr, a bydd yn rhaid imi ei ailddarllen. Yn sicr, byddwn am gymryd barn y pwyllgor o ddifrif. Fel y dywedwch, David, nid yr hyn a oedd dan sylw i ni oedd pwy i'w benodi'n gomisiynydd plant, nac i bwy y byddai'r comisiynydd yn atebol yn dechnegol. Penodiad gan y Llywodraeth ydoedd, ond gwnaethpwyd ef mewn modd lle'r oedd gan blant—sefyllfa unigryw, hyd y gwyddom—yr un hawliau pleidleisio â'r oedolion a oedd yn aelodau. O ran ymddygiad y cyn gomisiynydd plant, y comisiynydd interim a'r comisiynydd newydd, credaf na fyddai fawr neb wedi amau nad ydynt i gyd wedi ystyried eu bod yn atebol i blant Cymru. Mater technegol ydyw gan mwyaf, ond edrychaf arno eto.

Cynllun Nofio am Ddim

C10 Eleanor Burnham: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd y cynllun nofio am ddim? OAQ(3)1187(FM)

Y Prif Weinidog: Mae Rhodri Glyn Thomas, y Gweinidog dros dreftadaeth a chwaraeon, wrthi ar hyn o bryd yn adolygu adroddiad gwerthuso ar y cynllun nofio am ddim a gomisiynwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru ar ein rhan. Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod y cynllun wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar y niferoedd dan 16 mlwydd oed a dros 60 mlwydd oed sy'n cymryd rhan.

Eleanor Burnham: Mae'n debyg eich bod yn gwybod fy mod wedi holi yn gyson ynghylch gwersi nofio. Mae'n debyg i roi gwersi piano am ddim i rywun na all ganu'r piano; efallai fod llawer o blant yn gallu taflu dŵr dros bob man, ond efallai na allant nofio. O gofio bod Cymdeithas Nofio Prydain wedi dangos bod rhywun yn boddi yn y DU bob 17 awr ac mai boddi yw prif achos marwolaeth ddamweiniol ymysg plant, onid ydych yn credu ei bod yn hen bryd inni fabwysiadu dull mwy strwythuredig o ymdrin â hyn? Er enghraifft, mae Nofio Cymru yn dweud y dylai fod gennym wersi wedi'u strwythuro'n briodol yn ystod y cyfnod hwn o nofio am ddim. Sut yr ydych chi a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymateb i'r

angen pwysig hwn?

3.00 p.m.

The First Minister: You imply that structured swims are not part of the free swimming scheme, but they are. The number of structured sessions for those aged 16 and under continues to increase, from 24,000 in 2004-05, to 71,000 in 2006-07—that is not quite three times as much, but it is close to a 300 per cent expansion. That is a positive development in ensuring that young people can not just splash about, as some people do, and learn to swim informally, but get proper swimming lessons to a large extent, so that they can swim several hundred metres, so that, if they ever fell into a swift-flowing river, they would be able to reach the bank safely.

Alun Cairns: In reality, there is no such thing as a free policy, because it has to be funded from somewhere, no matter how laudable that policy might be as something that we have supported here. What consideration have you given to analysing how funds could potentially be better used in local authorities for other sporting activities? Rather than having a top-down approach, whereby you say, 'This is the policy—take it or leave it.', those resources could be provided to local authorities for them to provide services as they see fit, so that even more young people and children can participate.

The First Minister: I am always grateful to have a lesson in the fundamentals of public finance from Alun Cairns—send me the bill for the lesson, and I will send it back to you. You imply that there is a top-down approach to this, but it is quite the opposite. We encourage local authorities, which run leisure centres, to use their refund from us for the cost of providing the free swimming scheme—that is the basis of the scheme—to introduce young children to a wide variety of sports. Those sports includes ones that I have never heard of previously, such as Octopush, which is a form of underwater hockey, as well as water polo, snorkelling, kayaking, and even pool disco nights—that is more for

Y Prif Weinidog: Yr ydych yn awgrymu nad yw sesiynau nofio wedi'u strwythuro'n rhan o'r cynllun nofio am ddim, ond maent yn rhan ohono. Mae nifer y sesiynau strwythuredig i rai sy'n 16 oed ac yn iau'n dal i godi, o 24,000 yn 2004-05, i 71,000 yn 2006-07—nid yw hynny'n gymaint dair gwaith yn hollol, ond mae'n gynnydd o 300 y cant bron. Mae hynny'n ddatblygiad cadarnhaol o ran sicrhau bod pobl ifanc nid yn unig yn gallu taflu dŵr dros bob man, fel y mae rhai'n gwneud, a dysgu nofio'n anffurfiol, ond yn cael gwersi nofio iawn i raddau helaeth, fel y gallant nofio rhai cannoedd o fetrau, fel y gallent gyrraedd y lan yn ddiogel pe disgynent i afon sy'n llifo'n gyflym.

Alun Cairns: Mewn gwirionedd, nid oes y fath beth â pholisi rhad ac am ddim, gan fod yn rhaid iddo gael ei ariannu o rywle, ni waeth pa mor ganmoladwy y gallai'r polisi hwnnw fod fel rhywbeth yr ydym wedi'i gefnogi yma. Pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i ddadansoddi sut y gellid defnyddio cyllid yn well mewn awdurdodau lleol ar gyfer chwaraeon eraill? Yn hytrach na bod dull o'r brig i lawr o weithredu, fel eich bod yn dweud, 'Dyma'r polisi—cewch ei dderbyn neu ei wrthod, fel y mynnoch' gellid rhoi'r adnoddau hynny i awdurdodau lleol iddynt ddarparu gwasanaethau fel y gwelant orau, fel y bydd mwy byth o blant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan.

Y Prif Weinidog: Byddaf bob amser yn ddiolchgar am gael gwers ar hanfodion cyllid cyhoeddus gan Alun Cairns—anfonwch y bil ataf am y wers, ac fe'i hanfonaf yn ôl atoch. Yr ydych yn awgrymu bod dull o'r brig i lawr o weithredu yn hyn o beth, ond mae fel arall yn hollol. Yr ydym yn annog awdurdodau lleol, sy'n rhedeg canolfannau hamdden, i ddefnyddio'u had-daliad gennym ni ar gyfer cost darparu'r cynllun nofio am ddim—felly y trefnwyd y cynllun—i gyflwyno amrywiaeth fawr o chwaraeon i blant ifanc. Ymhlith y chwaraeon hynny y mae rhai nad wyf erioed wedi clywed amdanynt o'r blaen, fel Octopush, sy'n rhyw fath o hoci dan y dŵr, yn ogystal â pholo

your age group than mine, but I am sure that we would want to encourage that, would we not? That is what happens if local authorities decide that that is what they want to do; there is no top-down approach to this—they decide. I do not know where you get that the ‘top-down’ phrase from—it does not coincide with reality.

dŵr, snorcelu, caiacio, a hyd yn oed nosweithiau disgo yn y pwll—mae hynny’n fwy addas i’ch grŵp oedran chi na’r hun i, ond yr wyf yn siŵr y byddem am hyrwyddo hynny, oni fyddem? Dyna sy’n digwydd os yw awdurdodau lleol yn penderfynu mai hynny y maent am ei wneud; nid oes dull o’r brig i lawr o weithredu yn hyn o beth—hwy sy’n penderfynu. Ni wn o ble’r ydych yn cael yr ymadrodd ‘o’r brig i lawr’—nid felly y mae.

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones): There are no changes to report to this week’s Government business. Business for the next three weeks is as set out in the draft business statement and announcement, which can be found in the agenda papers that are available to Members electronically.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones): Nid oes newidiadau i’w hadrodd ym musnes y Llywodraeth yr wythnos hon. Mae’r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi’i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes drafft, y gellir ei weld ymhlith papurau’r agenda sydd ar gael i’r Aelodau’n electronig.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): I thank the Leader of the House for that statement. Will he consider two topics for debate? The first is tourism, which is of central importance to the Welsh economy, and to my region of Mid and West Wales. Powys, in particular, has suffered a spending squeeze, which has led to the closure of several tourist information centres, and continues to be regarded as a low priority. Will he consider a debate on that issue?

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Diolchaf i Arweinydd y Tŷ am y datganiad hwnnw. A wnaiff ystyried dau destun ar gyfer dadl? Y cyntaf yw twristiaeth, sydd o bwys hanfodol i economi Cymru, ac i’r rhanbarth i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae pwysau ar wariant wedi bod ym Mhowys, yn benodol, a hynny wedi arwain at gau amryw o ganolfannau croeso, ac fe’i hystyriir yn flaenoriaeth isel o hyd. A wnaiff ystyried cael dadl ar y pwnc hwnnw?

On the second topic we could have a debate, or a ministerial statement, and possibly dialogue with Westminster. I refer to the Lloyds TSB debit card that is being sent around, unsolicited, to youngsters, some as young as 11. That causes massive concern to Assembly Members across parties; I have certainly been contacted about this. Should we not be seeking to close this loophole—if it is a loophole in the law—whereby these cards are being sent to youngsters as young as 11, I am told, who are ordering goods on the internet, without parental supervision? Should we not be doing something in relation to our own banking as an Assembly, and you as an Assembly Government, as well as the other institutions that we deal with, if Lloyds TSB refuses to change that practice, which I

Ynghylch yr ail destun, gallem gael dadl, neu ddatganiad gweinidogol, a deialog â San Steffan o bosibl. Yr wyf yn cyfeirio at gerdyn debyd Lloyds TSB sy’n cael ei anfon, heb i neb ofyn amdano, at bobl ifanc, rai ohonynt cyn ieuenged ag 11 oed. Mae hynny’n achosi pryder mawr iawn i Aelodau’r Cynulliad o bob plaid; cysylltwyd â mi ynghylch hyn, yn sicr. Oni ddylem geisio cau’r bwloch hwn—os yw’n fwllch yn y gyfraith—sy’n cael ei ddefnyddio i anfon y cardiau hyn at bobl ifanc cyn ieuenged ag 11 oed, yn ôl yr hyn a glywaf, sy’n archebu nwyddau ar y rhyngwyd, heb eu goruchwylio gan eu rhieni? Oni ddylem wneud rhywbeth mewn cysylltiad â’n bancio ein hunain fel Cynulliad, a chithau fel Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â’r sefydliadau eraill yr

believe all of us would condemn?

Carwyn Jones: On your first point, you can raise any issues regarding tourism in Powys with the appropriate Minister. On your second point, I have not heard about that issue before, but, as you have raised it, I assume that this is a genuine card that is being circulated by Lloyds TSB. If memory serves, the law states that you cannot enter into a contract under the age of 18, so any payment, in law, at least, has to be guaranteed by parents beforehand. Therefore, why on earth the bank would send out a debit card to those under the age of 18, unsolicited, is beyond my understanding. If it is doing that, that would rightly be of great concern to many Members. It would not be a devolved issue, because the law regarding commercial transactions is not devolved—it is in Scotland, but not in Wales. However, I would share your concerns about any bank, or any financial institution, sending out a card, unsolicited, to anybody, whether under or over the age of 18.

Chris Franks: At the end of May, there was a serious failure of the national grid. A number of power stations experienced problems, including a power station on Deeside, and over 500,000 homes experienced blackouts. This is the most serious such incident since the great storm of 1987. Apparently, Ofgem has considered holding an investigation into the security of power supplies. Will you indicate what contingency plans exist to protect Welsh power supplies, and can you advise me whether it is possible to arrange a debate on the disruption or the risk of disruption to power supplies to Welsh homes and Welsh industry?

Carwyn Jones: The National Grid is responsible for providing power across the whole of Great Britain, and it is a matter for the operators of the national grid to ensure that there is sufficient power at any one time. The way that the grid operates is such that power stations are brought on line when it is anticipated that there will be a power surge of

ydyd yn delio â hwy, os bydd Lloyds TSB yn gwrthod newid yr arfer hwnnw, y credaf y byddai pob un ohonom yn ei gondemnio?

Carwyn Jones: Ynghylch y pwynt cyntaf a wnaethoch, gallwch godi unrhyw faterion mewn cysylltiad â thwristiaeth ym Mhowys gyda'r Gweinidog priodol. Ynghylch yr ail bwynt a wnaethoch, nid wyf wedi clywed am y mater hwnnw o'r blaen, ond, gan eich bod wedi'i godi, cymeraf fod hwn yn gerdyn dilys sy'n cael ei ddsbarthu gan Lloyds TSB. Os cofiaf yn iawn, mae'r gyfraith yn dweud na allwch wneud contract dan 18 oed, felly rhaid i rieni warantu unrhyw daliad ymlaen llaw, yn ôl y gyfraith, o leiaf. Felly, ni allaf ddeall pam ar y ddaear y byddai'r banc yn anfon cerdyn debyd, heb i neb ofyn amdano, at rai sydd dan 18 oed. Os ydyw'n gwneud hynny, byddai'n briodol i hynny fod yn destun pryder i lawer o Aelodau. Ni fyddai'n fater sydd wedi'i ddatganoli, gan nad yw'r gyfraith sy'n ymwneud â thrafodion masnachol wedi'i datganoli—mae wedi'i datganoli yn yr Alban, ond nid yng Nghymru. Fodd bynnag, byddwn innau, fel chithau, yn pryderu am unrhyw fanc, neu unrhyw sefydliad ariannol, sy'n anfon cerdyn, heb i neb ofyn amdano, at unrhyw un, boed yn iau na 18 oed neu'n hŷn.

Chris Franks: Ddiwedd Mai, cafwyd methiant difrifol yn y grid cenedlaethol. Aeth nifer o orsafoedd pŵer i drafferthion, gan gynnwys gorsaf bŵer yng Nglannau Dyfrdwy, a chollwyd y cyflenwad trydan mewn mwy na 500,000 o gartrefi. Hwn yw'r digwyddiad mwyaf difrifol o'i fath ers y storm fawr yn 1987. Mae'n debyg bod Ofgem wedi ystyried cynnal ymchwiliad i ddiogelwch cyflenwadau pŵer. A wneuch nodi pa gynlluniau wrth gefn sydd ar gael i ddiogelu cyflenwadau pŵer yng Nghymru, ac a allwch fy hysbysu a oes modd trefnu dadl ynghylch tarfu neu'r perygl y bydd tarfu ar gyflenwadau pŵer i gartrefi a diwydiant yng Nghymru?

Carwyn Jones: Mae'r Grid Cenedlaethol yn gyfrifol am ddarparu trydan ledled Prydain Fawr, a lle gweithredwyr y grid cenedlaethol yw sicrhau bod digon o drydan ar unrhyw adeg. Mae'r grid yn gweithio drwy gysylltu gorsafedd pŵer pan ragwelir y bydd ymchwydd o ryw fath wrth ddefnyddio trydan, y clywir amdano'n digwydd yn aml ar

some kind, famously after sporting events or television programmes that are watched by many people. Often, power stations such as Dinorwig will be brought on line at that stage and the top lake drained for the turbines in Dinorwig until the water gets to the bottom. That is the way that these things are handled. Now and again there are difficulties with power supply; that is nothing new. I am sure that the operators of the national grid have plans in place to restore power as quickly as possible when there are such difficulties.

Eleanor Burnham: Can we have a statement giving an update on not spots throughout Wales? Some of my colleagues have been working on particular issues in north Wales, and this is an ongoing difficulty for many people. It is time for the Government to tell us what is happening and how these not spots will be removed or improved.

Carwyn Jones: The Government already has a contract in place with BT to ensure that businesses and citizens across Wales can get broadband where it is economically and technically feasible. Under this contract, all the remaining telephone exchanges have been upgraded to provide a broadband service and, as a Government, we are currently working with BT on several significant broadband not-spot areas. We hope to be able to reach an agreement on the implementation of broadband solutions in these areas using a mix of technologies before long. In addition, as a Government, we will soon be publishing our procurement programme to seek a telecommunications provider or consortium to address the remaining broadband not spots in Wales.

Lesley Griffiths: Leader of the House, you may be aware that I recently tabled a statement of opinion on the prospect of Wales and Scotland submitting a joint bid for the Euro 2016 championship. On Sunday, we witnessed the conclusion of a lucrative and successful Euro 2008, hosted by Switzerland and Austria, which showed Wales and Scotland what can be achieved if you have the political will and ambition. I understand

ôl digwyddiadau chwaraeon neu raglenni teledu sy'n cael eu gwyllo gan lawer o bobl. Yn aml, cysylltir gorsafoedd pŵer fel Dinorwig bryd hynny a chaiff y llyn uchaf ei wagio i droi'r tyrbinau yn Ninorwig nes bydd y dŵr yn cyrraedd y gwaelod. Felly y trafodir y pethau hyn. Ambell dro bydd trafferthion â'r cyflenwad pŵer; nid yw hynny'n beth newydd. Yr wyf yn sicr bod cynlluniau ar gael gan weithredwyr y grid cenedlaethol i adfer y pŵer cyn gynted ag sy'n bosibl pan fydd trafferthion o'r fath.

Eleanor Burnham: A allwn gael datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ardaloedd sydd heb eu cysylltu â band eang ledled Cymru? Mae rhai o'm cyd-Aelodau wedi bod yn gweithio ar broblemau penodol yn y gogledd, ac mae hyn yn achosi anhawster i lawer o bobl o hyd. Mae'n bryd i'r Llywodraeth ddweud wrthym beth sy'n digwydd a sut y caiff yr ardaloedd digyswllt eu dileu neu eu gwella.

Carwyn Jones: Mae'r Llywodraeth eisoes wedi gwneud contract â BT i sicrhau bod busnesau a dinasyddion ledled Cymru'n gallu cael band eang os yw'n economaidd ac yn ymarferol yn dechnegol. Dan y contract hwn, mae'r holl gyfnewidfeydd ffôn a oedd ar ôl wedi'u huwchraddio i ddarparu gwasanaeth band eang ac, fel Llywodraeth, yr ydym yn gweithio gyda BT ar hyn o bryd ar amryw o ardaloedd sylweddol sydd heb eu cysylltu â band eang. Yr ydym yn gobeithio gallu dod i gytundeb ynghylch datrys problemau o ran band eang yn yr ardaloedd hyn cyn bo hir drwy ddefnyddio cymysgedd o dechnolegau. Yn ogystal â hynny, fel Llywodraeth, byddwn yn cyhoeddi ein rhaglen gaffael cyn hir i chwilio am ddarparwr telathrebu neu gonsortiw m i roi sylw i'r ardaloedd yng Nghymru sy'n dal heb eu cysylltu â band eang.

Lesley Griffiths: Arweinydd y Tŷ, efallai y gwyddoch imi gyflwyno datganiad barn yn ddiweddar am y posibilrwydd y bydd cais ar y cyd yn cael ei gyflwyno gan Gymru a'r Alban ar gyfer pencampwriaeth Ewro 2016. Ddydd Sul, gwelsom ddiwedd Ewro 2008 a fu'n llwyddiannus a phroffidiol, a gynhaliwyd gan y Swistir ac Awstria, a ddangosodd i Gymru a'r Alban beth y gellir ei gyflawni os oes gennych ddigon o ewyllys

that the First Minister met with his Scottish counterpart in the margins of the Joint Ministerial Committee last week to discuss possible co-operation between our two countries, and the political will on this now seems to be in place. However, it is ultimately a decision for the Football Association of Wales and the Scottish Football Association. Will the Government therefore consider making a formal statement to clarify its position, so that we can give both the FAW and the SFA the confidence of knowing that the political will and support exist in this place for a bid to be submitted for 2016?

Carwyn Jones: I do not think that anyone would disagree, in principle, with the idea that we should look at hosting this event in 2016. However, the first step has to be for the FAW and the SFA to bring forward a bid; there is little point in us doing anything until they formally say that they want to put forward a joint bid. Once that is done, we can consider as a Government, and presumably the Scottish Government will consider this as well, how we might help to take it forward, but they need to bring forward such a bid first.

Darren Millar: I would like to petition you again, Minister, for a Welsh Assembly Government statement on BT's proposals to remove over a quarter of Wales's telephone box network. BT has recently indicated to me that the decision is being made purely on financial grounds, with total disregard of mobile telephone reception. In making the decision purely on financial grounds, there appears to be no regard whatsoever for access to emergency services through the phone box network, particularly in some of the more remote parts of rural Wales. Can we have time for a statement before the summer recess?

3.10 p.m.

Carwyn Jones: I understand that a consultation is taking place at the moment. We await the results of that consultation, but

ac uchelgais gwleidyddol. Yr wyf yn deall bod y Prif Weinidog wedi cwrdd â Phrif Weinidog yr Alban o'r neilltu yn y Cydbwyllgor Gweinidogion yr wythnos diwethaf i drafod posibilrwydd cydweithredu rhwng ein dwy wlad, ac mae'n ymddangos bod yr ewyllys gwleidyddol ar gael ar gyfer hyn yn awr. Er hynny, mae'n fater i'w benderfynu yn y pen draw gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru a Chymdeithas Bêl-droed yr Alban. Felly, a wnaiff y Llywodraeth ystyried gwneud datganiad ffurfiol i egluro ei safbwynt, fel y gallwn sicrhau cymdeithasau pêl-droed Cymru a'r Alban fod yr ewyllys wleidyddol a'r gefnogaeth ar gael yn y fan hon i gyflwyno cais ar gyfer 2016?

Carwyn Jones: Nid wyf yn credu y byddai neb yn anghytuno, mewn egwyddor, â'r syniad y dylem ystyried cynnal y digwyddiad hwn yn 2016. Fodd bynnag, y cam cyntaf y mae'n rhaid ei gymryd yw i Gymdeithas Bêl-droed Cymru a Chymdeithas Bêl-droed yr Alban gyflwyno cais; nid oes fawr o ddiben i ni wneud dim nes iddynt ddweud yn ffurfiol eu bod am gyflwyno cais ar y cyd. Ar ôl gwneud hynny, gallwn ystyried fel Llywodraeth, a gellir cymryd y bydd Llywodraeth yr Alban yn ystyried hyn hefyd, sut y gallem helpu i fwrw ymlaen ag ef, ond mae angen iddynt gyflwyno cais o'r fath yn gyntaf.

Darren Millar: Hoffwn wneud cais i chi eto, Weinidog, am ddatganiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am y cynigion gan BT i gael gwared â mwy na chwarter y rhwydwaith blychau ffôn yng Nghymru. Mae BT wedi rhoi gwybod imi'n ddiweddar fod y penderfyniad yn cael ei wneud ar sail ariannol yn unig, gan lwyr ddiystyru'r gallu i dderbyn signalau ffôn symudol. Wrth benderfynu ar sail ariannol yn unig, mae'n ymddangos nad oes dim sylw o gwbl i fynediad at wasanaethau brys drwy'r rhwydwaith blychau ffôn, yn enwedig yn rhai o'r rhannau mwy pellennig o Gymru wledig. A allwn gael amser ar gyfer datganiad cyn toriad yr haf?

Carwyn Jones: Yr wyf yn deall bod ymgynghoriad yn digwydd ar hyn o bryd. Yr ydym yn disgwyl canlyniadau'r

the situation is being monitored closely to see whether there is anything that can be said or done in the meantime to represent those people who will be at a disadvantage if particular telephone boxes are removed.

Leanne Wood: Leader of the House, I am working on a number of housing cases in Rhondda Cynon Taf that are linked by the fact that it has been difficult, if not impossible, for tenants and their representatives to get in touch with the housing officers of the newly-created RCT Homes. Tenants are unhappy because they were promised that, following stock transfer, their service would be improved. Staff in my office have tried on a number of occasions to contact RCT Homes without success. I have raised the individual cases with the Deputy Minister for Housing, but I would be grateful if you could find Government time to debate this issue so that we can see whether tenants in other areas are experiencing problems similar to those being experienced by tenants in Rhondda Cynon Taf.

You will also be aware of yesterday's publication of royal expenditure, which showed an increase of 7 per cent in Prince Charles's income and that over £50,000 was spent on helicopter rides for his son. Many people struggling to pay the mortgage, food and fuel bills, will find this kind of extravagance at the expense of the taxpayer difficult to accept. So, I would be grateful if you could provide time for us to debate royal expenditure to see whether we can present a case for Wales to receive a proportional share of royal expenditure as part of the Barnett consequential.

Finally, I am sure that you will be aware of reports about documents received from the defence training review executive board, which show that there is a major affordability gap in the proposed St Athan development, that there are 15 significant risks to frontline troops from the Metrix proposal, that 72 per cent of trainers have said that they do not want to move to south Wales and that the construction industry cannot cope with the project, which coincides with the construction work for the Olympics in

ymgyngoriad hwnnw, ond mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus i weld a oes rhywbeth y gellir ei ddweud neu ei wneud yn y cyfamser i gynrychioli'r bobl hynny a fydd dan anfantais os ceir gwared â blychau ffôn penodol.

Leanne Wood: Arweinydd y Tŷ, yr wyf yn gweithio ar nifer o achosion sy'n ymwneud â thai yn Rhondda Cynon Taf sy'n gysylltiedig â'r ffaith ei bod wedi bod yn anodd, os nad yn amhosibl, i denantiaid a'u cynrychiolwyr gysylltu â'r swyddogion tai yn Cartrefi RCT, sydd newydd gael ei greu. Mae tenantiaid yn anfodlon am eu bod wedi cael addewid y byddai eu gwasanaeth yn cael ei wella, ar ôl trosglwyddo'r stoc. Mae staff yn fy swyddfa wedi ceisio cysylltu â Cartrefi RCT droeon, ond yn ofer. Yr wyf wedi codi'r achosion unigol gyda'r Dirprwy Weinidog dros Dai, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech neilltuo rhywfaint o amser y Llywodraeth i gael dadl am y mater hwn fel y gallwn weld a yw tenantiaid mewn ardaloedd eraill yn cael problemau tebyg i'r rhai y mae tenantiaid yn Rhondda Cynon Taf yn eu cael.

Byddwch yn ymwybodol hefyd fod y gwariant brenhinol wedi'i gyhoeddi ddoe, a ddangosodd gynnydd o 7 y cant yn incwm y Tywysog Charles a bod mwy na £50,000 wedi'i wario ar deithiau mewn hofrennydd i'w fab. Bydd llawer o bobl sy'n ei chael yn anodd talu'r morgais, a biliau am fwyd a thanwydd, yn ei chael yn anodd derbyn afradlondeb o'r fath ar draul y trethdalwr. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech neilltuo amser inni gael dadl am y gwariant brenhinol i weld a allwn gyflwyno dadl dros gael cyfran o'r gwariant brenhinol i Gymru fel rhan o'r symiau canlyniadol dan fformiwla Barnett.

Yn olaf, yr wyf yn siŵr y byddwch yn ymwybodol o adroddiadau am ddogfennau a gafwyd gan fwrdd gweithredol yr adolygiad o hyfforddiant amddiffyn, sy'n dangos bod bwlch mawr o ran fforddiadwyedd yn y datblygiad arfaethedig yn Sain Tathan, fod 15 o beryglon sylweddol i filwyr rheng flaen o ganlyniad i gynnig Metrix, fod 72 y cant o hyfforddwyr wedi dweud nad ydynt yn dymuno symud i dde Cymru ac na all y diwydiant adeiladu ymdopi â'r prosiect, sy'n digwydd yr un pryd â'r gwaith adeiladu ar

London. Do you accept that in addition to all of these problems, the credit crunch will make borrowing more expensive, bearing in mind that this is also a PFI project? These are serious concerns which need to be given debating time in the Assembly. I accept that the decision around this development is not an Assembly decision and that it is not a devolved issue, but Members need to be satisfied that if this project falls apart, the Assembly's budget will not be adversely affected.

Carwyn Jones: With regard to RCT Homes, that is a constituency issue which, as you have already stated, you have raised with the appropriate Minister, and I am sure that that can be taken forward with her.

When you talked about Prince Charles's income, I thought that you were talking initially about the hospital. [*Laughter.*] So when I heard 'helicopter rides', I thought 'I have not heard that one before'. Nevertheless, I got the point after a while. As you know, no member of the royal family is paid out of the Welsh block, so there is no contribution from us in that regard.

With regard to St Athan, it is important that we do not put ourselves in a situation whereby we, effectively, appear not to be able to deliver a project in Wales. We have the construction ability to build this project, and it is important that we make that point. If it is the case that many instructors do not want to come to Wales, that does not work very well in terms of selling Wales. I suspect that as soon as the project is up and running and building work begins and they see the facility being built, many people will want to move to Wales. We do not want to give the impression to the world that there is no point building anything in Wales because no-one wants to come here in any case; there is a great danger there. The commitment to the defence training academy is still extremely strong. The Ministry of Defence reaffirmed its commitment to package 1 on 31 January 2008, and it is an important development that will bring many jobs to the Vale of Glamorgan and the wider surrounding area,

gyfer y Gemau Olympaidd yn Llundain. A ydych yn derbyn y bydd y wasgfa greddyd, ar ben yr holl broblemau hyn, yn ei gwneud yn ddrutach cael benthyg arian, gan gofio bod hwn yn brosiect menter cyllid preifat hefyd? Mae'r rhain yn bryderon difrifol y mae angen neilltuo amser i gael dadl arnynt yn y Cynulliad. Yr wyf yn derbyn nad yw'r penderfyniad am y datblygiad hwn yn un a wnaethpwyd gan y Cynulliad ac nad yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli, ond mae angen i Aelodau fod yn sicr, os bydd y prosiect hwn yn methu, na fydd hynny'n amharu ar gyllideb y Cynulliad.

Carwyn Jones: Gyda golwg ar Cartrefi RCT, mae hynny'n fater etholaethol yr ydych wedi'i godi gyda'r Gweinidog priodol, fel yr ydych wedi dweud eisoes, ac yr wyf yn siŵr y gellir codi hynny gyda hi.

Pan soniasoch am incwm y Tywysog Charles, tybiwn eich bod yn sôn i ddechrau am yr ysbyty. [*Chwerthin.*] Felly pan glywais y geiriau 'teithiau mewn hofrennydd', meddyliais 'Nid wyf wedi clywed am hynny o'r blaen'. Er hynny, deallais y pwynt ar ôl ychydig. Fel y gwyddoch, ni thelir i'r un aelod o'r teulu brenhinol o floc Cymru, felly nid oes dim cyfraniad gennym ni yn hynny o beth.

Gyda golwg ar Sain Tathan, mae'n bwysig inni beidio â'n rhoi ein hunain mewn sefyllfa lle y mae'n ymddangos, i bob pwrpas, nad ydym yn gallu cwblhau prosiect yng Nghymru. Mae gennym ddigon o allu o ran adeiladu i adeiladu'r prosiect hwn, ac mae'n bwysig inni wneud y pwynt hwnnw. Os yw'n wir bod llawer o hyfforddwyr nad ydynt yn dymuno dod i Gymru, nid yw hynny'n beth da o ran gwerthu Cymru. Yr wyf yn amau, cyn gynted ag y bydd y prosiect ar waith a'r gwaith adeiladu'n dechrau a hwythau'n gweld y cyfleuster yn cael ei godi, y bydd llawer o bobl am symud i Gymru. Nid ydym am roi'r argraff i'r byd nad oes diben adeiladu dim yng Nghymru am nad oes neb am ddod yma beth bynnag; mae perygl mawr yn hynny o beth. Mae'r ymrwymiad i'r academi hyfforddiant amddiffyn yn gryf iawn o hyd. Ailddatganodd y Weinyddiaeth Amddiffyn ei hymrwymiad i becyn 1 ar 31 Ionawr 2008, ac mae'n ddatblygiad pwysig a fydd yn dod â llawer o swyddi i Fro

including the Valleys.

Mark Isherwood: I have two matters that I would like to raise. First, will the Assembly Government be making a statement on the report published by Mind Cymru last week, and commissioned by the Big Lottery Fund, into the provision of mental health services for young people in rural Wales? It found access barriers and a lack of mental health provision at all levels, including in schools, further education and GP practices, and with employers. It made six specific recommendations, including one to undertake a review of advocacy arrangements for young people.

Secondly, will the Assembly Government make a statement on Llanbedr airfield? Last month, I asked the Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport what the current position was regarding plans to bring work on the unmanned air vehicle—work that is currently being undertaken in the United States—to the UK and specifically to Llanbedr. The reply was that,

‘most of the advances in that particular technology are currently at Aberporth, not Llanbedr. I was not aware of the link with Llanbedr’.

However, I am advised that the Welsh Development Agency purchased the Llanbedr site for future use in unmanned aerial vehicle testing and development—a commercial activity—because Aberporth’s runway is not long enough for the large unmanned aerial vehicles and custom unmanned aerial vehicles. I am also advised that, when the Llanbedr property came onto the market last summer, the sales particulars stated conditions in relation to tenure that included the requirement to operate the property as a commercial airfield and that UAV flying be accommodated.

I also seek a statement relating to the Crichel Down rule, which, as you as a barrister will know, gives people who have formally

Morgannwg a’r cyffiniau, gan gynnwys y Cymoedd.

Mark Isherwood: Mae gennyf ddau fater yr hoffwn eu codi. Yn gyntaf, a fydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud datganiad am yr adroddiad a gyhoeddwyd gan Mind Cymru yr wythnos diwethaf, ac a gomisiynwyd gan y Gronfa Loteri Fawr, ynglŷn â darparu gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc yn y Gymru wledig? Gwelwyd rhwystrau a diffyg darpariaeth iechyd meddwl ar bob lefel, gan gynnwys mewn ysgolion, mewn addysg bellach, ym meddygfeydd meddygon teulu, a gyda chyflogwyr. Gwnaeth bum argymhelliad penodol, gan gynnwys un ynglŷn â chynnal adolygiad o’r trefniadau eiriolaeth i bobl ifanc.

Yn ail, a wnaiff Llywodraeth y Cynulliad ddatganiad am faes awyr Llanbedr? Fis diwethaf, gofynnais i’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth beth oedd y sefyllfa bresennol gyda golwg ar gynlluniau i ddod â gwaith ar y cerbyd awyr dibeilot—gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn yr Unol Daleithiau—i’r DU ac, yn benodol, i Lanbedr. Yr ateb oedd,

‘mae’r rhan fwyaf o gynnydd yn y dechnoleg benodol honno yn Aberporth ar hyn o bryd, nid yn Llanbedr. Nid oeddwn yn gwybod am y cysylltiad â Llanbedr’.

Fodd bynnag, caf ar ddeall bod Awdurdod Datblygu Cymru wedi prynu safle Llanbedr i’w ddefnyddio yn y dyfodol i brofi a datblygu cerbydau awyr dibeilot—gweithgarwch masnachol—oherwydd nad yw llain laniog Aberporth yn ddigon hir i’r cerbydau awyr dibeilot mawr a’r cerbydau awyr dibeilot arbennig. Caf ar ddeall hefyd, pan ddaeth yr eiddo yn Llanbedr ar y farchnad yr haf diwethaf, fod y manylion gwerthu’n cynnwys amodau ynglŷn â’r ddeiliadaeth ac mai un o’r rheini oedd bod gofyn defnyddio’r eiddo fel maes awyr masnachol, gan ddarparu ar gyfer hedfan cerbydau awyr dibeilot.

Yr wyf yn gofyn am ddatganiad hefyd ynghylch y rheol Crichel Down, ac, a chithau’n fargyfreithiwr, byddwch yn

owned land a right to reacquire that land if it was acquired through compulsory purchase and is subsequently sold on. I understand in this case that one local farmer was interested in reacquiring some of the land. Exceptions in the Crichel Down rule state that where land is to be transferred to another Government department for public purposes, a ministerial statement will take the land out of the rules, but I understand that, in practice, departments are reluctant to apply for ministerial approval. Was a ministerial statement provided in this case? Would it still have applied when the property was sold to a private sector team? How will proposals to develop Llanbedr as a civilian airfield impact on the UAV project and on the economic contribution that that could make or could have made to the economy of north Wales?

Carwyn Jones: The Mind Cymru report is being considered at the moment by the Minister for Health and Social Services.

With regard to Crichel Down, if you feel that there has been any question mark over the behaviour of Ministers, it is a matter for you to take up with the First Minister, who is responsible for the Ministerial Code.

Thirdly, as you well know, Llanbedr airfield is the subject of a potential legal dispute between the Assembly Government and the Snowdonia Society. I had the novel experience of having papers served on me as Counsel General by my former colleague Alun Pugh, who is now director of the Snowdonia Society. It is important that, as a Government, we do not express a view in the Chamber or in any way other than through legal correspondence regarding an issue that may potentially end in legal proceedings.

Alun Davies: I have asked before about a statement on the Bury inlet issues and the issues of pollution in the Tywi river. We have not received a statement. However, we read in the press last week that the Welsh

gwybod bod honno'n rhoi'r hawl i bobl ailgaffael tir y maent wedi bod yn berchen yn ffurfiol arno, os cafwyd y tir hwnnw drwy bryniant gorfodol a hwnnw'n cael ei werthu wedyn. Deallaf, yn yr achos hwn, fod gan un ffermwr lleol ddiddordeb mewn ailgaffael rhywfaint o'r tir. Yn ôl yr eithriadau yn rheol Crichel Down, os mai'r bwriad yw trosglwyddo'r tir i un o adrannau eraill y Llywodraeth at ddibenion cyhoeddus, bydd datganiad gan Weinidog yn eithrio'r tir o'r rheolau. Serch hynny, deallaf, o safbwynt ymarferol, fod adrannau'n gyndyn o wneud cais am gymeradwyaeth gan Weinidog. A roddwyd datganiad gan Weinidog yn yr achos hwn? A fyddai wedi bod yn berthnasol yr un fath wrth werthu'r eiddo i dîm yn y sector preifat? Sut y bydd cynigion i ddatblygu Llanbedr fel maes awyr sifil yn effeithio ar y prosiect cerbydau awyr dibeilot ac ar y cyfraniad economaidd y gallai neu y gallasai hynny ei wneud i economi'r gogledd?

Carwyn Jones: Mae adroddiad Mind Cymru'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gyda golwg ar Crichel Down, os teimlwyd fod amheuaeth ynghylch ymddygiad Gweinidogion o gwbl, mater i chi yw codi hynny gyda'r Prif Weinidog, sy'n gyfrifol am God y Gweinidogion.

Yn drydydd, fel y gwyddoch yn dda, mae maes awyr Llanbedr yn destun anghydfod cyfreithiol posibl rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Eryri. Cefais brofiad newydd wrth i bapurau gael eu cyflwyno imi fel Cwnsler Cyffredinol gan fy nghyn gyd-Weinidog Alun Pugh, sydd bellach yn gyfarwyddwr Cymdeithas Eryri. Mae'n bwysig nad ydym ni, fel Llywodraeth, yn mynegi barn yn y Siambr nac mewn unrhyw fodd arall ac eithrio drwy gyfrwng gohebiaeth gyfreithiol ynglŷn â mater a all, o bosibl, arwain yn y pen draw at achosion cyfreithiol.

Alun Davies: Yr wyf wedi gofyn o'r blaen am ddatganiad ynglŷn â'r problemau yng nghilfach Porth Tywyn a'r llygredd yn afon Tywi. Nid ydym wedi cael datganiad. Fodd bynnag, darllenasom yn y wasg yr wythnos

Assembly Government has now instigated an investigation via the Environment Agency into the pollution, or potential pollution, that has led to the death of 6,000 tonnes of cockles in the Bury inlet and to the cancellation of a number of activities and events in and around the rivers and coast of Carmarthen bay. This is a real issue for many thousands of people in south-west Wales and is an issue of continuing public concern. If the Assembly Government is sponsoring an investigation by the Environment Agency, I believe that we should be given a statement in the Chamber so that we can understand the Government's approach and policy and question Ministers on what they intend to do, what their programme is and how they intend to respond to the issues of water quality in this area.

3.20 p.m.

Carwyn Jones: As a Government, we are sympathetic to the plight of the cockle gatherers and the associated businesses that rely on the cockle gathering industry around the Bury inlet. At present, the reasons for the mass mortalities are not known. There may be one factor or a combination of factors, which is why the Minister for Rural Affairs and the Minister for Environment, Sustainability and Housing have jointly asked the Environment Agency, which is the appropriate body, to co-ordinate a research into trying to discover the cause of the mortalities that have occurred in the cockle beds. With an inquiry ongoing on the part of the Environment Agency, a joint ministerial statement will be issued once the agency's initial findings are known in the next few weeks. When those findings are available, they will be made known to Members as soon as possible.

diwethaf fod Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach wedi rhoi ymchwiliad ar waith, drwy gyfrwng Asiantaeth yr Amgylchedd, i'r llygredd neu'r llygredd posibl, sydd wedi arwain at ddifa 6,000 tonnell o gocos yng nghilfach Porth Tywyn a chanslo nifer o weithgareddau a digwyddiadau yn afonydd ac ar lannau bae Caerfyrddin a'r cyffiniau. Mae'n broblem wirioneddol i filoedd lawer o bobl yn y de-orllewin ac yn destun pryder parhaus i'r cyhoedd. Os yw Llywodraeth y Cynulliad yn talu i Asiantaeth yr Amgylchedd am gynnal ymchwiliad, credaf y dylem gael datganiad yn y Siambr er mwyn inni ddeall ymagwedd a pholisi'r Llywodraeth a holi Gweinidogion am yr hyn y bwriadant ei wneud, beth yw eu rhaglen a sut y bwriadant ymateb i'r problemau gydag ansawdd y dŵr yn yr ardal hon.

Carwyn Jones: Fel Llywodraeth, yr ydym yn cydymdeimlo â thrybini'r casglwyr cocos a'r busnesau cysylltiedig sy'n dibynnu ar y diwydiant casglu cocos o gwmpas cilfach Porth Tywyn. Ar hyn o bryd, ni wyddys pam mae cymaint o'r cocos wedi'u difa. Efallai mai un ffactor sy'n gyfrifol neu gyfuniad o ffactorau, a dyna pam y mae'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai wedi gwneud cais ar y cyd i Asiantaeth yr Amgylchedd, sef y corff priodol, gydgysylltu gwaith ymchwil er mwyn ceisio canfod beth sydd wedi difa'r gwelyau cocos. Gydag ymchwiliad ar y gweill gan Asiantaeth yr Amgylchedd, cyhoeddir datganiad ar y cyd gan y Gweinidogion, pan fydd canfyddiadau cychwynnol yr asiantaeth yn hysbys yn ystod yr wythnosau nesaf. Pan fydd y wybodaeth honno ar gael, rhoddir gwybod i'r Aelodau cyn gynted ag sy'n bosibl.

Datganiad am Ofal Lliniarol Statement on Palliative Care

The Presiding Officer: I call on the Minister for Health and Social Services to make one of her weekly statements.

Y Llywydd: Galwaf ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi un o'i datganiadau wythnosol.

The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart): In October 2007, I established a dedicated palliative care planning group, led by Viv Sugar, chair of

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart): Ym mis Hydref 2007, sefydlais grŵp cynllunio arbennig ar gyfer gofal lliniarol, dan

the Welsh Consumer Council, to advise me on a range of issues. The group met five times from November 2007 onwards. Its work is now complete and, earlier today, the group published and presented its report. I convey my thanks to this group for its time and the energy with which it has completed a complex task within a limited time. The report was made available to Assembly Members earlier today.

The key task undertaken by the group was to specify the elements of a core palliative care service, including end-of-life care for adults and children. Once established, the core service will be used to inform the funding decisions that the Welsh Assembly Government and local health boards make in this area.

The need for a core specification has become more urgent over recent times because the importance of palliative care services has gained recognition and also because provision on the ground has remained patchy across Wales. As Minister, it has been important for me to secure a shared understanding of what constitutes core palliative care services and to obtain a means for measuring the quality of those services.

Through the work of the planning group, organisations and individuals from the national health service and the private and voluntary sector have been consulted, and the resulting report provides me with an excellent basis on which to take things forward. The report covers adult and children's palliative care, it specifies combined short and medium-term recommendations, it raises concerns about the existing commissioning process and recommends a move to regional commissioning for adult care, with children's palliative care commissioned at an all-Wales level.

The group makes it clear that some of the issues raised with it lay outside its remit, or required deeper analysis than was possible within its time constraints. There are implementation issues that now flow from the

arweiniad Viv Sugar, cadeirydd Cyngor Defnyddwyr Cymru, i'm cyngori ynglŷn ag amryw o faterion. Cyfarfu'r grŵp bum gwaith o fis Tachwedd 2007 ymlaen. Mae ei waith wedi'i gwblhau erbyn hyn, ac, yn gynharach heddiw, cyhoeddodd y grŵp ei adroddiad a'i gyflwyno. Dymunaf ddiolch i'r grŵp hwn am ei waith ac am iddo gwblhau tasg gymhleth gyda chymaint o egni o fewn cyfnod byr. Darparwyd yr adroddiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn gynharach heddiw.

Y dasg allweddol yr ymgwymerwyd â hi gan y grŵp oedd amlinellu elfennau craidd gwasanaeth gofal lliniarol, gan gynnwys gofal diwedd oes i oedolion a phlant. Ar ôl ei sefydlu, defnyddir y gwasanaeth craidd yn sail ar gyfer y penderfyniadau cyllido a wneir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r byrddau iechyd lleol yn y maes hwn.

Yn ddiweddar, am fod pobl wedi dod yn fwyfwy ymwybodol o bwysigrwydd gwasanaethau lliniarol a hefyd oherwydd bod y ddarpariaeth ar lawr gwlad wedi parhau'n anghyson ledled Cymru, mae disgrifio'r gofynion craidd wedi dod yn rhywbeth yr oedd mwy o angen ei wneud. Fel Gweinidog, mae wedi bod yn bwysig imi sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r hyn y mae gwasanaethau gofal lliniarol craidd yn ei gynnwys a dod o hyd i ffordd o fesur ansawdd y gwasanaethau hynny.

Drwy gyfrwng gwaith y grŵp cynllunio, ymgynghorwyd â chyrff ac ag unigolion o'r gwasanaeth iechyd gwladol a'r sector preifat a'r sector gwirfoddol, ac mae'r adroddiad a gafwyd yn sgîl hynny'n rhoi sylfaen ragorol imi allu bwrw ymlaen â phethau. Mae'r adroddiad yn ymwneud â gofal lliniarol i oedolion ac i blant. Mae'n manylu ynglŷn ag argymhellion tymor byr a thymor canolig, mae'n codi pryderon ynglŷn â'r broses gomisiynu ar hyn o bryd ac yn argymhell symud tuag at gomisiynu gofal i oedolion yn rhanbarthol, a chomisiynu gofal lliniarol i blant ar lefel Cymru gyfan.

Mae'r grŵp yn ei gwneud yn glir bod rhai o'r materion a godwyd gydag ef y tu hwnt i'w gylch gorchwyl, neu fod angen eu dadansoddi'n ddyfnach nag yr oedd modd iddo wneud o fewn yr amser oedd ar gael.

report's recommendations, and those will need to be carefully addressed. Therefore, I have asked Baroness Finlay to lead on implementation, and she has agreed to do so. Her wealth of experience, not just in palliative care services, means that she is aware of how services are currently delivered and what gaps and barriers there are to good palliative care provision.

Members of the main group will include patient and carer input from Dafydd Wigley, nursing and GP input from Vivienne Cooper and Helen Herbert respectively, management experience from Paul Williams, chief executive of Abertawe Bro Morgannwg University NHS Trust, and expertise on service planning from one of the regional officers, Marion Andrews-Evans. These people will provide expertise to implement the wide range of recommendations contained in the report.

Baroness Finlay plans to set up sub-groups to take forward specific issues. Clinical data requirements will be led by Dr Andy Fowell, chair of the palliative care clinical advisory group, and the development of a model service level agreement will be taken forward by John Savage, the director of Nightingale House. More widely, establishing service level agreements is an early priority. I have already discussed this with the forum of voluntary hospices. Service level agreements will provide clarity, confirming those palliative care services that should fall to the NHS to fund and those that would be more appropriately funded via voluntary hospices fundraising. These service level agreements need to be established formally from 1 April 2009, ensuring financial stability for hospices and appropriately spent public funding.

Some hospices will find this process difficult, but every effort will be made to support them to ensure that they develop service level agreements and receive appropriate funding for palliative care services that comply with

Yn sgîl argymhellion yr adroddiad, rhaid ystyried yn awr sut i'w rhoi ar waith, a bydd angen rhoi sylw gofalus i hynny. Felly, yr wyf wedi gofyn i'r Farwnes Finlay arwain o ran rhoi'r argymhellion ar waith, ac mae wedi cytuno i wneud hynny. Mae ei phrofiad helaeth, nid ym maes gwasanaethau gofal lliniarol yn unig, yn golygu ei bod yn gwybod sut y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar hyn o bryd a pha fylchau a rhwystrau sy'n llesteirio darparu gofal lliniarol da.

Ymhlith aelodau'r prif grŵp bydd Dafydd Wigley'n cyfrannu o safbwynt y claf a'r gofalwr, Vivienne Cooper yn cyfrannu o safbwynt nyrsys, Helen Herbert yn cyfrannu o safbwynt meddygon teulu, Paul Williams, prif weithredwr Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Abertawe Bro Morgannwg yn cynnig profiad rheoli, a daw arbenigedd ar gynllunio gwasanaethau gan un o'r swyddogion rhanbarthol, Marion Andrews-Evans. Bydd y bobl hyn yn cynnig arbenigedd i roi'r ystod eang o argymhellion sydd yn yr adroddiad ar waith.

Mae'r Farwnes Finlay'n bwriadu sefydlu is-grwpiau i fwrw ymlaen â materion penodol. Dr Andy Fowell, cadeirydd y grŵp ymgynghorol clinigol ar ofal lliniarol a fydd yn arwain o ran gofynion data clinigol, a bydd John Savage, cyfarwyddwr Tŷ'r Eos, yn bwrw ymlaen â datblygu cytundeb lefel gwasanaeth enghreifftiol. Ar lefel ehangach, sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth fydd un o'r blaenoriaethau cyntaf. Yr wyf eisoes wedi trafod hyn gyda fforwm yr hosbisau gwirfoddol. Bydd cytundebau lefel gwasanaeth yn cynnig eglurder, gan gadarnhau'r gwasanaethau gofal lliniarol hynny y dylai'r GIG eu cyllido a'r rhai y byddai'n fwy priodol eu cyllido drwy'r arian a godir yn wirfoddol gan hosbisau. Mae angen sefydlu'r cytundebau lefel gwasanaeth hyn yn ffurfiol o 1 Ebrill 2009 ymlaen, gan sicrhau sefydlogrwydd ariannol i'r hosbisau a bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol.

Bydd y broses hon yn anodd i rai hosbisau ond gwneir pob ymdrech i'w cefnogi i sicrhau eu bod yn datblygu cytundebau lefel gwasanaeth ac yn cael cyllid priodol ar gyfer gwasanaethau gofal lliniarol sy'n

the core service definition, as set out in Viv Sugar's report.

I will not compromise on good quality palliative care and equity of access. If the voluntary sector cannot meet the requirements of a service level agreement, it will not receive central funding.

That brings me to the funding available this year and beyond. A sum of £2 million has been set aside for voluntary hospices. Baroness Finlay's implementation group will provide me with recommendations on the most appropriate use of this central funding for 2008-09 by mid September. Where we can and where timescales allow, I will be happy to establish long-term service level agreements with hospices earlier than 1 April 2009. That will not be quite what the voluntary hospices want to hear. They want a decision now on the allocation of the £2 million and, as Assembly Members, you will be approached by voluntary hospices on this issue.

As Minister for Health and Social Services, if I am to address the inequities of palliative care service provision, I must be sure that public funding is directed where it is needed most, meeting patient need in line with the National Institute for Clinical Excellence guidelines and clinical advice. That will mean that patients and their carers will receive the level of palliative and end-of-life care that they expect to receive, when and where they expect to receive it.

In line with our 'One Wales' commitment to provide more funding for palliative care, there is an additional £1 million in 2008-09, increasing to £2 million in 2009-10 and to £5 million by 2010-11. My intention is to invest that in the NHS and voluntary sector providers of palliative care, depending on where the service gaps exist. Again, recommendations for spend will come from Baroness Finlay's implementation group. The regional planning fora will be able to support her total funding recommendations. My overriding intention is to use the central

cydymffurfio â'r diffiniad o'r gwasanaeth craidd, fel y'i ceir yn adroddiad Viv Sugar.

Mae gofal lliniarol o safon a sicrhau ei fod ar gael yn deg i bawb yn rhywbeth nad wyf yn barod i gyfaddawdu yn ei gylch. Oni all y sector gwirfoddol gyflawni gofynion cytundeb lefel gwasanaeth, ni fydd yn cael cyllid canolog.

Mae hynny'n dod â mi at yr arian sydd ar gael eleni a'r tu hwnt. Mae £2 miliwn wedi'i neilltuo ar gyfer hosbisau gwirfoddol. Bydd grŵp gweithredu'r Farwnes Finlay'n rhoi argymhellion imi ynglŷn â'r ffordd fwyaf priodol o ddefnyddio'r arian canolog hwn ar gyfer 2008-09 erbyn canol mis Medi. Lle y gallwn wneud hynny a lle y bydd yr amserlenni'n caniatáu, byddaf yn fodlon sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth hirdymor gyda hosbisau cyn 1 Ebrill 2009. Nid dyna'n union y bydd yr hosbisau gwirfoddol am ei glywed. Maent am gael penderfyniad yn awr ynglŷn â dyrannu'r £2 miliwn ac, fel Aelodau'r Cynulliad, bydd yr hosbisau gwirfoddol yn dod atoch ynglŷn â hyn.

Fel y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, os wyf am fynd i'r afael â'r diffyg cydraddoldeb yn y ddarpariaeth gwasanaeth gofal lliniarol, rhaid imi fod yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfeirio i'r lle y mae mwyaf o'i angen, gan ddiwallu anghenion cleifion yn unol â chanllawiau a chynghor clinigol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol. Bydd hynny'n golygu y caiff cleifion a'u gofalwyr y lefel o ofal lliniarol a gofal diwedd oes y maent yn disgwyl ei gael, ar yr adeg ac yn y fan lle y maent yn disgwyl ei gael.

Yn unol ag ymrwymiad 'Cymru'n Un' i ddarparu rhagor o arian ar gyfer gofal lliniarol, mae £1 miliwn yn ychwanegol ar gael yn 2008-09, a bydd hynny'n cynyddu i £2 miliwn yn 2009-10 ac i £5 miliwn erbyn 2010-11. Fy mwriad yw buddsoddi hynny yn y GIG ac yn y rhai sy'n darparu gofal lliniarol yn y sector gwirfoddol, gan ddibynnu ar ym mhle y mae bylchau yn y gwasanaeth. Unwaith eto, daw argymhellion ar gyfer gwario gan grŵp gweithredu'r Farwnes Finlay. Bydd y fforymau cynllunio rhanbarthol yn gallu ategu cyfanswm ei

funding to help meet the gaps in service. I am determined that the funding will be used for services that meet the definition of a core palliative care service, as set out in Viv's report. By sticking to these two fundamental principles, I believe that we can move towards ensuring that we deliver high-quality palliative care for everyone who needs it.

Jonathan Morgan: I thank the Minister for the statement. I welcome the report that highlights the challenge to us and the opportunities that exist to ensure that best practice in the field of palliative care is seen in all parts of Wales. I join the Minister in thanking Viv Sugar and her colleagues for the dedication that they demonstrated in completing this task and their thoroughness in addressing issues. I would also like to welcome the appointment of Baroness Finlay of Llandaf who will lead the next stage. Ilorra Finlay is known to many of us in this Chamber, and her work as an expert in the field of palliative care is internationally recognised. We feel that that will add strength to the next stage and that the group, ably led by Baroness Finlay, will address the gaps identified.

You state that Viv Sugar's report mentions a number of concerns, particularly about the existing commissioning process. Recognising that the group will examine this issue, how do you think, as Minister, that we should be getting the NHS to see the hospice movement and the voluntary sector as expert providers of services, as opposed to merely seeing them as charitable organisations that are very good at raising money? It is important that we create that level of engagement within the NHS, and I would be keen to hear how you think that we can achieve that—perhaps through the restructuring process that you are currently looking at. That is a fundamental issue when it comes to the commissioning of services, particularly in the field of palliative care.

You pointed out that the group chaired by Baroness Finlay will look at the appropriate use of the central funding for 2008-09 and will advise on funding for the future. Many

hargymhellion cyllido. Fy mhrif fwriad yw helpu i lenwi'r bylchau yn y gwasanaeth. Yr wyf yn benderfynol y caiff yr arian ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o wasanaeth gofal lliniarol craidd, fel y'i ceir yn adroddiad Viv. Drwy lynu wrth y ddwy egwyddor sylfaenol hyn, credaf y gallwn symud tuag at sicrhau ein bod yn darparu gofal lliniarol o safon i bawb y mae ei angen arno.

Jonathan Morgan: Diolchaf i'r Gweinidog am y datganiad. Croesawaf yr adroddiad sy'n dangos yr her yn glir inni a'r cyfleoedd sydd ar gael i sicrhau bod yr arferion gorau ym maes gofal lliniarol yn cael eu gweld ym mhob rhan o Gymru. Ymunaf â'r Gweinidog i ddiolch i Viv Sugar a'i chydweithwyr am yr ymroddiad a ddangoswyd ganddynt wrth gwblhau'r dasg hon a'u trylwyredd wrth fynd i'r afael â'r materion dan sylw. Yn ogystal hoffwn groesawu penodiad y Farwnes Finlay o Landaf a fydd yn arwain y cam nesaf. Mae Ilorra Finlay yn adnabyddus i lawer ohonom yn y Siambr hon, ac mae ei gwaith fel rhywun sy'n arbenigo ym maes gofal lliniarol yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol. Teimlwn y bydd hynny'n cryfhau'r cam nesaf ac y bydd y grŵp, dan arweiniad abl y Farwnes Finlay, yn mynd i'r afael â'r bylchau a welwyd.

Yr ydych yn dweud bod adroddiad Viv Sugar yn crybwyll nifer o bryderon, yn enwedig am y broses gomisiynu bresennol. Gan gydnabod y bydd y grŵp yn archwilio'r mater hwn, sut yr ydych yn meddwl, fel Gweinidog, y dylem gael gan y GIG weld y mudiad hosbisau a'r sector gwirfoddol yn ddarparwyr gwasanaethau arbenigol, yn hytrach na dim ond eu gweld yn sefydliadau elusennol sy'n dda iawn am godi arian? Mae'n bwysig inni greu'r lefel honno o ymgysylltu o fewn y GIG, a byddwn yn awyddus i glywed sut y credwch y gallwn wireddu hynny—efallai drwy gyfrwng y broses ailstrwythuro yr ydych yn edrych arni ar hyn o bryd. Mae hwnnw'n fater sylfaenol o ran comisiynu gwasanaethau, yn enwedig ym maes gofal lliniarol.

Dywedasoch y bydd y grŵp dan gadeiryddiaeth y Farwnes Finlay'n edrych ar sut y defnyddir y cyllid canolog yn briodol ar gyfer 2008-09 ac y bydd yn cynghori ynglŷn

of the individuals who gave evidence to this inquiry said that they believed that the core funding for palliative care in Wales ought to be raised in a way that reflects the increase in core funding for palliative care in England, and, in particular, some people thought that that core funding should go above 40 per cent and should be close to 50 per cent, although I think that you and I accept that many of them would not want it to go above 50 per cent, because there would then be an issue about the level of Government control. Can you outline broadly where you think that this is heading, as that was one of the central issues that was raised? Do you think that the funding levels in Wales could be raised in a similar way to how they have been raised across the border? Do you believe that we will need to put in place a three-year funding cycle? That is mentioned in the report, and the annual funding decisions can be problematic for the palliative care sector.

You rightly pointed out in your statement that we need to ensure that there is investment in the NHS and the voluntary sector, depending on where the service gaps are. In that regard, the Viv Sugar report is worrying. We would like to see you respond in particular to the following challenges: providing out-of-hours access to medicines and practitioners with relevant skills, the lack of consultant cover in some parts of Wales, the gap in the number of skilled community nurses, and emergency respite care. These are addressed in the report, and are enormous funding and policy challenges for the Assembly Government. I am keen to hear of any initial thoughts that the Minister might have on that.

3.30 p.m.

In the field of children's services, Minister, have you had an opportunity to assess the gap particularly with regard to specialist paediatric palliative care nursing? That was addressed in the Viv Sugar report, it is of particular concern, and so has the Government had time to assess that gap, and

â chyllido ar gyfer y dyfodol. Dywedodd llawer o'r unigolion a roddodd dystiolaeth i'r ymchwiliad hwn eu bod yn credu y dylid cynyddu'r arian ar gyfer gofal lliniarol yng Nghymru mewn modd sy'n adlewyrchu'r cynnydd yn y cyllid craidd ar gyfer gofal lliniarol yn Lloegr, ac, yn benodol, teimlai rhai pobl y dylai'r cyllid craidd godi'n uwch na 40 y cant ac y dylai fod yn agos at 50 y cant, er fy mod yn meddwl eich bod chi a minnau'n derbyn na fyddai llawer ohonynt am iddo fynd yn uwch na 50 y cant, oherwydd wedyn, byddai problem o ran faint o reolaeth a fyddai gan y Llywodraeth. A allwch ddweud yn fras i ble'r ydych yn meddwl y mae hyn yn mynd, gan mai hynny oedd un o'r materion canolog a godwyd? A ydych yn meddwl y gellid codi lefelau'r cyllid yng Nghymru mewn modd tebyg i'r ffordd y maent wedi'u codi dros y ffin? A ydych yn credu y bydd angen inni lunio cylch cyllido tair blynedd? Sonnir am hynny yn yr adroddiad, ac mae'r penderfyniadau cyllido blynyddol yn gallu bod yn broblem i'r sector gofal lliniarol.

Tynnwyd sylw yn eich datganiad, ac yr oeddech yn llygad eich lle'n gwneud hynny, fod angen sicrhau bod arian yn cael ei fuddsoddi yn y GIG ac yn y sector gwirfoddol, gan ddibynnu ar ym mhle y mae'r bylchau yn y gwasanaeth. Yn hynny o beth, mae adroddiad Viv Sugar yn peri pryder. Hoffem eich gweld yn ymateb i'r heriau canlynol yn benodol: darparu mynediad y tu allan i oriau at feddyginiaethau ac ymarferwyr sy'n meddu ar sgiliau perthnasol, diffyg meddygon ymgynghorol mewn rhai rhannau o Gymru, y bwch yn nifer y nyrsys cymunedol medrus, a gofal seibiant brys. Ymdrinnir â'r rhain yn yr adroddiad, ac maent yn heriau enfawr o ran cyllido a pholisi i Lywodraeth y Cynulliad. Yr wyf yn awyddus i glywed syniadau cychwynnol y Gweinidog ar hynny.

Ym maes gwasanaethau plant, Weiniidog, a ydych wedi cael cyfle i asesu'r bwch yn arbennig o ran nyrsio gofal lliniarol pediatriig arbenigol? Ymdriniwyd â hynny yn adroddiad Viv Sugar, mae'n peri pryder mawr, ac felly a yw'r Llywodraeth wedi cael amser i asesu'r bwch hwnnw, ac i feddwl

to think about how we may deal with it?

The issue of out-of-hours cover and respite care is more acute in children's services, partly because of the conditions that the children face, but also because of the poor level of respite care services provided for children generally in Wales, whether in palliative care or other fields. As Minister, do you have a view on how we might start to address that?

I fully accept that you may not be able to answer all of the questions that I have put to you this afternoon on the details, but they are fundamental questions for the future of palliative care in Wales for the next 10 to 20 years. Ultimately—and I hope that you agree with me on this, Minister—we need to ensure that there is a better relationship between the statutory sector and the third sector, and that the relevant and appropriate levels of financial support exist to deliver first-class services across Wales. Elderly people—and, these days, even those who are not so elderly—who require palliative care deserve nothing less, and nor do the children of Wales and their families who wish to access those services.

Edwina Hart: Thank you for that contribution. This is the first time that I have had absolute clarity about the issues involving palliative care, as included in Viv Sugar's report. It makes difficult reading when it reveals the patchy nature of provision across Wales. I looked at what the second stage would be, and it would have been easy for me to sit down with officials to look at the report, and carry on. However, it was important for me to have somebody with expertise—world-renowned expertise in the case of Baroness Finlay—to take forward a group that would strategically advise the Government on what we needed to do, what we needed to do first, and how to work in a progressive way.

A key issue is the commissioning process, given the concerns that have been raised about it. You are right that we have to regard hospices and the voluntary sector as our

sut y gallwn ymdrin ag ef?

Mae'r gwasanaeth y tu allan i oriau a gofal seibiant yn fwy difrifol mewn gwasanaethau plant, yn rhannol oherwydd yr amodau y mae plant yn eu hwynebu, ond hefyd oherwydd y lefel isel o wasanaethau gofal seibiant a ddarperir i blant yn gyffredinol yng Nghymru, p'un a yw hynny mewn gofal lliniarol neu feysydd eraill. Fel Gweinidog, a oes barn gennych ynghylch sut y gallem ddechrau mynd i'r afael â hynny?

Derbyniaf yn llwyr na allwch, o bosibl, ateb yr holl gwestiynau yr wyf wedi eu gofyn ichi y prynhawn yma am y manylion, ond maent yn gwestiynau hollbwysig ar gyfer dyfodol gofal lliniarol yng Nghymru yn ystod y 10 neu'r 20 mlynedd nesaf. Yn y pen draw—a gobeithiaf y cytunwch â mi ynglŷn â hyn, Weinidog—mae angen inni sicrhau gwell perthynas rhwng y sector statudol a'r trydydd sector, a sicrhau bod y lefelau perthnasol a phriodol o gymorth ariannol ar gael i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf ledled Cymru. Nid yw'r henoed—a'r dyddiau hyn, hyd yn oed pobl nad ydynt mor hen—y mae angen gofal lliniarol arnynt yn haeddu dim llai, ac nid yw plant Cymru a'u teuluoedd sydd am gael mynediad at y gwasanaethau hynny'n haeddu dim llai ychwaith.

Edwina Hart: Diolch ichi am y cyfraniad hwnnw. Dyma'r tro cyntaf imi fod yn gwbl glir ynghylch y materion sy'n ymwneud â gofal lliniarol, fel y'u nodir yn adroddiad Viv Sugar. Nid yw'n brofiad pleserus darllen am natur anghyson y ddarpariaeth ledled Cymru. Edrychais ar yr ail gam, a byddai wedi bod yn hawdd imi eistedd i lawr gyda swyddogion i edrych ar yr adroddiad, a bwrw ati. Fodd bynnag, yr oedd yn bwysig imi gael rhywun a chanddo arbenigedd—arbenigedd a gydnabyddir yn fyd-eang yn achos y Farwnes Finlay—i arwain grŵp a fyddai'n rhoi cyngor strategol i'r Llywodraeth ynghylch yr hyn yr oedd angen inni ei wneud, yr hyn yr oedd angen inni ei wneud yn gyntaf, a sut i weithio mewn ffordd flaengar.

Un o'r prif faterion yw'r broses gomisiynu, o gofio'r pryderon a godwyd yn ei chylch. Yr ydych yn iawn wrth ddweud bod yn rhaid inni ystyried hosbisau a'r sector gwirfoddol

partners in dealing with end-of-life issues. They make a valuable contribution, and are not just some little add-on that does fundraising work. They do the work that is sometimes not carried out by the NHS. Some 20 or 30 years ago, end-of-life issues in the NHS were dealt with by shunting people to the end of a ward, where they would be left, and some consultants commented on that when I visited Abergele in north Wales. The hospice movement has meant that we have really moved on in how we deal with end-of-life issues. People are now placed in warm, lovely environments. You hear laughter in hospices, and things are going on there. We need to recognise that the voluntary sector has brought that to the table, and they are our full partners.

We have had hundreds of contributions regarding what I might do on the restructuring of the NHS in Wales. I am keen to involve stakeholders, such as the voluntary sector and others, in the mainstream of any reorganisation of the NHS. How could they become part of any new boards that we might form? What would their role and function be? Would they be at the table when the decisions are being made about services? I am mindful of that.

The basis of our core funding will emerge when Baroness Finlay and the group start to go through the issues around service level agreements. I recognise that, and I hope that the Minister for Finance and Public Delivery will recognise that, because decisions about money may have to be made in the future. For instance, if Baroness Finlay and the group look at service level agreements, such as that relating to the contribution of the NHS in providing consultant cover, that could push up the costs tremendously in certain areas. When we get down to tackling what the SLAs should include and the arrangements that we make, we have to be mindful of the underlying bill for that. I cannot go into more detail, because I do not think that the detailed work has yet been done in that area.

fel ein partneriaid wrth ymdrin â materion yn ymwneud â diwedd oes. Maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr, ac nid dim ond rhyw bethau bach ychwanegol sy'n codi arian ydynt. Maent yn gwneud y gwaith na chaiff ei wneud gan y GIG weithiau. Ryw 20 neu 30 mlynedd yn ôl, ymdrinnid â materion diwedd oes yn y GIG drwy symud pobl i ben pellaf ward, lle y byddent yn cael eu gadael, a gwnaeth rhai meddygon ymgynghorol sylwadau am hynny pan ymwelais ag Abergele yn y gogledd. Mae'r mudiad hosbisau wedi golygu ein bod bellach wedi symud ymlaen o ran y ffordd yr ydym yn delio â materion diwedd oes. Bellach caiff pobl eu rhoi mewn amgylcheddau cynnes, clyd. Clywch chwerthin mewn hosbisau, ac mae pethau'n digwydd yno. Mae angen inni gydnabod mai'r sector gwirfoddol sy'n gyfrifol am hynny, a'i fod yn bartner llawn inni.

Yr ydym wedi cael cannoedd o gyfraniadau ynghylch yr hyn y gallwn ei wneud o ran ailstrwythuro'r GIG yng Nghymru. Yr wyf yn awyddus i gynnwys rhanddeiliaid, fel y sector gwirfoddol ac eraill, ym mhrif ffrwd unrhyw broses o ad-drefnu'r GIG. Sut y gallent ddod yn rhan o unrhyw fyrdau newydd y gallem eu creu? Beth fyddai eu rôl a'u swyddogaeth? A fyddent o amgylch y bwrdd pan wneir penderfyniadau ynghylch gwasanaethau? Yr wyf yn cadw hynny mewn cof.

Cawn wybod beth fydd sail ein cyllid craidd pan fydd y Farwnes Finlay a'r grŵp yn dechrau trafod y materion yn ymwneud â chytundebau lefel gwasanaeth. Yr wyf yn cydnabod hynny, a gobeithiaf y bydd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod hynny, oherwydd bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau am arian yn y dyfodol. Er enghraifft, os bydd y Farwnes Finlay a'r grŵp yn edrych ar gytundebau lefel gwasanaeth, fel y rhai sy'n ymwneud â chyfraniad y GIG o ran darparu meddygon ymgynghorol, gallai hynny beri i'r costau gynyddu'n sylweddol mewn rhai meysydd. Pan awn ati i ymdrin â'r hyn a ddylai gael ei gynnwys mewn cytundebau lefel gwasanaeth a'r trefniadau a wnawn, rhaid inni gadw'r bil ar gyfer hynny mewn cof. Ni allaf fanylu rhagor, oherwydd ni chredaf fod y gwaith

On the three-year funding, I concur with the view that that should be the minimum. In our relationship with the voluntary sector, ideally, we should look at a cycle of five years and not just three years. I will move to that when there is clarity on how we take forward service level agreements.

Some of the key areas identified by the report are those that really worry me, namely out-of-hours services, consultant and nurse cover and emergency respite, and the flexibility needed in the palliative care system. When you talk to the people who are in the system, they tell you that on some days they are happy to be in a hospice, and on others they would like to go home. When they feel like going home, they want to be able to do so, and they want social services to be able to contact them at home if required. That represents real challenges, but, if we are to give people dignity at the end of their life, we have to be prepared to consider that type of flexibility in the service. We will not be able to do a cost/benefit analysis of that; it is more of a humanitarian analysis of how important it is to deal with those issues.

There are real difficulties with children's services and with supporting their families. It is always difficult to accept that someone's life is ending, but it is far worse when it is a child's life. You almost expect to outlive your parents or even your brothers and sisters, but, when it comes to the death of a child, families require an enormous amount of support. My paediatric adviser is taking forward a review of paediatric and young people's services, and I will speak to him about some of the issues that Baroness Finlay will look at, to see how he can help to develop policy in those areas. When Baroness Finlay reports on the first stage, I intend to report back formally to the Assembly, at which point I can indicate the direction of travel on some other issues, too.

Helen Mary Jones: Thank you for your statement, Minister. I add my voice to yours

manwl wedi ei wneud yn y maes hwnnw eto.

O ran y cyllido am dair blynedd, cytunaf â'r farn y dylai hynny fod yn isafswm. Yn ein perthynas â'r sector gwirfoddol, yn ddelfrydol, dylem edrych ar gylch pum mlynedd ac nid dim ond tair blynedd. Trafodaf hynny pan fydd yn eglur sut y datblygwn gytundebau lefel gwasanaeth.

Mae rhai o'r meysydd allweddol a nodir yn yr adroddiad yn feysydd sy'n peri pryder mawr imi, sef gwasanaethau y tu allan i oriau, gwasanaethau meddygon ymgynghorol a nyrsys a gofal lliniarol brys, a'r hyblygrwydd y mae ei angen mewn system gofal lliniarol. Pan siaredwch â'r bobl sy'n rhan o'r system, dywedant wrthyhych eu bod yn fodlon bod mewn hosbis rai dyddiau, ac yr hoffent fynd adref ddyddiau eraill. Pan fyddant yn awyddus i fynd adref, maent am allu gwneud hynny, ac maent am i'r gwasanaethau cymdeithasol allu cysylltu â hwy gartref os bydd angen. Mae hynny'n cynnig heriau gwirioneddol, ond, os ydym am roi urddas i bobl ar ddiwedd eu hoes, rhaid inni fod yn barod i ystyried y math hwnnw o hyblygrwydd yn y gwasanaeth. Ni fyddwn yn gallu gwneud dadansoddiad cost a budd o hynny; mae'n fwy o ddadansoddiad dyngarol ynghylch pa mor bwysig yw ymdrin â'r materion hynny.

Mae anawsterau gwirioneddol gyda gwasanaethau plant a chefnogi eu teuluoedd. Mae bob amser yn anodd derbyn bod bywyd rhywun yn dod i ben, ond mae'n waeth o lawer pan fydd yn fywyd plentyn. Yr ydych bron yn disgwyl byw'n hwy na'ch rhieni neu'ch brodyr a'ch chwioroydd hyd yn oed, ond, gyda marwolaeth plentyn, mae angen llawer iawn o gymorth ar deuluoedd. Mae fy nghynghorydd pediatrig yn cynnal adolygiad o wasanaethau pediatrig a phobl ifanc, a siaradaf ag ef am rai o'r materion y bydd y Farwnes Finlay yn edrych arnynt, i weld sut y gall helpu i ddatblygu polisi yn y meysydd hynny. Pan fydd y Farwnes Finlay yn cyflwyno adroddiad ar y cam cyntaf, bwriadaf adrodd yn ôl yn ffurfiol i'r Cynulliad, a'r pryd hynny gallaf nodi'r sefyllfa ynghylch rhai materion eraill, hefyd.

Helen Mary Jones: Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Ychwanegaf fy llais at

and Jonathan Morgan's thanking Viv Sugar and the team that prepared the report. It is a comprehensive piece of work, although, clearly, there is further detailed work to be done. It has been a very valuable exercise.

We all know that palliative care is a service that has often been neglected in the NHS. That partly arises from our living in a culture that finds it difficult to talk about death and dying and, therefore, finds it difficult to talk about and prioritise end-of-life care. I welcome what you said in your statement and in your response to Jonathan Morgan about the example that has been set by voluntary organisations, which have been prepared to raise those issues when mainstream services were perhaps turning away.

I strongly endorse the approach of undertaking more detailed work, and it is right that you are setting up an independent implementation group, and who better to lead it than Baroness Finlay. There are so many issues that could be raised in this complex field. You have already answered some of my questions, in response to Jonathan Morgan, but there are one or two other specific issues that I want to raise.

I am sure that you would agree that, for many patients, end-of-life care best takes place at home, and I appreciate what you said about the need to be able to move between settings. Will you ensure that the implementation group gives due priority to this, particularly to the training of community nurses and GPs, to empower them to care for patients effectively? It has been put to me that some GPs are concerned about using strong and powerful medicines, particularly since the case of Harold Shipman, given the implications that it may have. If we are to have effective community services for palliative care, as well as having specialised care, we need to ensure that the generic services are upskilled to be able to provide that care. That may be particularly important in rural communities, where we will be simply unable to provide specialised services all the time.

I welcome and support very much the service

eich llais chi a llais Jonathan Morgan i ddiolch i Viv Sugar a'r tîm a baratôdd yr adroddiad hwn. Mae'n waith cynhwysfawr, ond, yn amlwg, mae rhagor o waith manwl i'w wneud. Mae wedi bod yn ymarferiad gwerthfawr iawn.

Gwyddom oll fod gofal lliniarol yn wasanaeth sydd yn aml wedi cael ei esgeuluso yn y GIG. Mae hynny'n deillio'n rhannol o'r ffaith ein bod yn byw mewn diwylliant sy'n ei chael yn anodd siarad am farwolaeth a marw ac sydd, felly, yn ei chael yn anodd siarad am ofal diwedd oes a'i flaenoriaethu. Croesawaf yr hyn a ddywedasochoch yn eich datganiad ac yn eich ymateb i Jonathon Morgan am yr esiampl a osodwyd gan sefydliadau gwirfoddol, sydd wedi bod yn barod i godi'r materion hynny pan oedd gwasanaethau prif ffrwd yn amharod i wneud hynny o bosibl.

Cymeradwyaf yn gryf y dull o fynd ati i wneud rhagor o waith manwl, ac mae'n briodol eich bod yn sefydlu grŵp gweithredu annibynnol, a phwy'n well i'w arwain na'r Farwnes Finlay. Mae cynifer o faterion y gellid eu codi yn y maes cymhleth hwn. Yr ydych eisoes wedi ateb rhai o'm cwestiynau mewn ymateb i Jonathan Morgan, ond mae un neu ddau o faterion penodol eraill yr hoffwn eu codi.

Yr wyf yn siŵr y cytunech mai yn y cartref y mae'r lle gorau i ddarparu gofal diwedd oes i lawer o gleifion, ac yr wyf yn deall yr hyn a ddywedasochoch am yr angen i allu symud rhwng lleoliadau. A sicrhewch y bydd y grŵp gweithredu yn rhoi'r flaenoriaeth briodol i hyn, yn arbennig o ran hyfforddi nyrsys cymunedol a meddygon teulu, a'u grymuso i ofalu am gleifion yn effeithiol? Dywedwyd wrthyf fod rhai meddygon teulu yn pryderu ynghylch defnyddio meddyginiaethau cryf a phwerus, yn arbennig ers achos Harold Shipman, o gofio goblygiadau posibl hynny. Os ydym am sicrhau gwasanaethau cymunedol effeithiol ar gyfer gofal lliniarol, mae angen inni wella sgiliau mewn gwasanaethau cyffredinol er mwyn gallu darparu'r gofal hwinnw, yn ogystal â darparu gofal arbenigol. Gall hynny fod yn bwysig iawn mewn cymunedau gwledig, lle na allwn ddarparu gwasanaethau arbenigol bob amser.

Croesawaf a chefnogaf yn fawr y dull o fynd

level agreement approach to funding for voluntary sector hospices. I realise—and I acknowledge that you also realise—that this may present some challenges, but I think that that is the only correct way in which to proceed. Given the work that the team has done, you now have a strong basis on which to start working on the service level agreements.

In that context, I recommend that those working on the service level agreements look at the funding arrangements that have been established between Tŷ Bryngwyn Hospice in my constituency of Llanelli and the Hywel Dda NHS Trust. There is a positive working relationship there. The trust provides the funding for the core medical services, and the voluntary sector money is used for extra care, such as counselling and that kind of support. There may be long-term lessons to be learned from that.

3.40 p.m.

I am sure that this is not necessary but, for the reassurance of the hospices, I will ask it anyway. Could you ensure that the service level agreement process is structured in such a way as to respect the autonomy of voluntary sector hospices? We need to understand that some hospices take a slightly different approach and have slightly different priorities in their work, and we have all acknowledged that that variation of approach has been useful. While I concur that we need core service level agreements, we also need the capacity to be flexible and to innovate.

I accept absolutely that the central funding that you make available at this point should be used to fill the unacceptable gaps in care. However, it has been put to me that, in the short term, this disadvantages those health communities like Carmarthenshire that have already invested more effectively in palliative care. Is it your intention in the long term that proper palliative care services be built in as a core part of health services, not as an add-on, and that they eventually include the service level agreements with hospices? Eventually,

ati i gyllido hosbisau'r sector gwirfoddol drwy gytundebau lefel gwasanaeth. Sylweddolaf—a chydabyddaf eich bod chithau hefyd yn sylweddoli—y gall hyn gynnig heriau, ond credaf mai dyna'r unig ffordd gywir o fwrw ymlaen â hyn. O gofio'r gwaith a wnaethpwyd gan y tîm, bellach mae gennych sail gadarn i ddechrau gweithio ar y cytundebau lefel gwasanaeth.

Yn y cyd-destun hwnnw, argymhellaf y dylai'r rhai sy'n gweithio ar y cytundebau lefel gwasanaeth edrych ar y trefniadau ariannu a sefydlwyd rhwng Hosbis Tŷ Bryngwyn yn fy etholaeth, sef Llanelli, ac Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda. Mae perthynas waith gadarnhaol yno. Mae'r ymddiriedolaeth yn darparu'r arian ar gyfer y gwasanaethau meddygol craidd, a defnyddir arian y sector gwirfoddol ar gyfer gofal ychwanegol, megis cwnsela a'r math hwnnw o gymorth. Efallai fod gwersi i'w dysgu yn sgîl hynny yn y tymor hir.

Yr wyf yn siŵr nad yw hyn yn angenrheidiol ond, er mwyn rhoi sicrwydd i'r hosbisau, gofynnaf y cwestiwn beth bynnag. A allech sicrhau y caiff y broses o wneud cytundebau lefel gwasanaeth ei strwythuro yn y fath fodd fel y bydd yn parhau annibyniaeth hosbisau'r sector gwirfoddol? Mae angen inni ddeall bod gan rai hosbiau ddull ychydig yn wahanol o fynd ati a bod ganddynt flaenoriaethau ychydig yn wahanol yn eu gwaith, ac yr ydym oll wedi cydnabod bod yr amrywio hwnnw o ran y dull o fynd ati wedi bod yn ddefnyddiol. Er fy mod yn cytuno bod angen cytundebau lefel gwasanaeth craidd arnom, mae angen inni hefyd allu bod yn hyblyg ac yn arloesol.

Derbyniaf yn llwyr y dylai'r arian canolog yr ydych yn ei ddarparu'n awr gael ei ddefnyddio i lenwi'r bylchau annerbyniol mewn gofal. Fodd bynnag, dywedwyd wrthyf, yn y tymor byr, bod hyn yn peri anfantais i gymunedau ieched fel sir Gaerfyrddin sydd eisoes wedi buddsoddi'n fwy effeithiol mewn gofal lliniarol. Ai eich bwriad yn y tymor hir yw sicrhau bod gwasanaethau gofal lliniarol priodol yn rhan greiddiol o wasanaethau ieched, ac nid yn rhywbeth ychwanegol, ac y byddant yn y pen

will funding for palliative care be made available through mainstream health funding structures rather than as a separate core grant from central Government?

Edwina Hart: Those are interesting points regarding the financial aspects of this. There is a case for making end-of-life and palliative care a part of core services in the delivery of future funding arrangements. I would not want the fact that I am looking at the gaps to disadvantage the organisations that already have established arrangements. When we look at the implementation plans, we have to be careful that that balance develops, and that we do not see a two-tier system emerging.

There are important issues regarding the service level agreements. There are very good agreements, such as that which you spoke about between the Hywel Dda trust and a hospice in your constituency. The group that has been established will have to look at some of the good existing agreements and their structure. I have focused on the clinical assistance that the NHS has been able to give. People would expect the role of the public sector to relate to those core clinical services. There will be some problems for hospices when they look at service level agreements. It might be difficult for some, but we are there to help them through it, and ensure that they get their agreements up and running to the satisfaction of all parties. However, there will inevitably be tensions. The nature of Viv's report is about clinicians deciding who is admitted, because, traditionally, some hospices have decided who is admitted. However, if you have clinical involvement from the NHS, such issues will have to be dealt with according to the priority that clinicians feel is appropriate. Therefore, we will have to deal with many discussions in that area.

I concur that, sometimes, the best place for people to be looked after is at home, although that is sometimes the most difficult care to provide. There have been concerns in the community about certain allegations, and we have heard of cases, such as that which you mentioned, of the people concerned

draw yn cynnwys y cytundebau lefel gwasanaeth gyda hosbisau? Yn y pen draw, a fydd cyllid ar gyfer gofal lliniarol ar gael drwy strwythurau cyllido iechyd prif ffrwd yn hytrach nag fel grant craidd ar wahân gan y Llywodraeth ganolog?

Edwina Hart: Mae'r pwyntiau hynny ynghylch yr agweddau ariannol yn bwyntiau diddorol. Mae dadl dros wneud gofal diwedd oes a gofal lliniarol yn rhan o wasanaethau craidd wrth wneud trefniadau cyllido ar gyfer y dyfodol. Ni fyddwn am i'r ffaith fy mod yn edrych ar y bylchau beri anfantais i'r sefydliadau sydd eisoes wedi rhoi trefniadau ar waith. Pan edrychwn ar y cynlluniau gweithredu, rhaid inni fod yn ofalus bod y cydbwysedd hwnnw'n datblygu, ac na welwn system dwy haen.

Mae materion pwysig yn gysylltiedig â'r cytundebau lefel gwasanaeth. Mae cytundebau da iawn, fel y rhai y soniasoch amdanynt rhwng ymddiriedolaeth Hywel Dda a hosbis yn eich etholaeth. Bydd yn rhaid i'r grŵp a sefydlwyd edrych ar rai o'r trefniadau da presennol a'u strwythur. Yr wyf wedi canolbwyntio ar y cymorth clinigol y mae'r GIG wedi gallu ei roi. Byddai pobl yn disgwyl i rôl y sector cyhoeddus ymwneud â'r gwasanaethau clinigol craidd hynny. Bydd rhai problemau i hosbisau pan edrychant ar gytundebau lefel gwasanaeth. Efallai y bydd yn anodd i rai, ond yr ydym yma i roi help llaw iddynt, a sicrhau eu bod yn rhoi eu cytundebau ar waith er budd pawb dan sylw. Fodd bynnag, bydd tensiynau'n anochel. Mae natur adroddiad Viv yn ymwneud â chlinigwyr yn penderfynu pwy a gaiff eu derbyn, oherwydd, yn draddodiadol, mae rhai hosbisau wedi penderfynu pwy sy'n cael eu derbyn. Fodd bynnag, os bydd y GIG yn cyfrannu'n glinigol, bydd yn rhaid ymdrin â materion o'r fath yn ôl y flaenoriaeth sy'n briodol ym marn clinigwyr. Felly, bydd yn rhaid inni ymdrin â llawer o drafodaethau yn y maes hwnnw.

Cytunaf mai'r cartref yw'r lle gorau i bobl gael gofal weithiau, er mai hwnnw yw'r gofal anoddaf i'w ddarparu weithiau. Bu pryderon yn y gymuned ynghylch rhai honiadau, ac yr ydym wedi clywed am achosion, fel yr un y soniasoch amdano, o'r bobl dan sylw yn rhoi cyffuriau pwerus iawn i gleifion. Byddaf yn

administering very powerful drugs. I will certainly take up your comments. I am currently looking at the community nursing review with the Royal College of Nursing, and end-of-life issues will feature in that. I will also take up your comments with the British Medical Association, which is also interested in this. This all fits in with some of the issues relating to the rural health plan, which, if developed properly, can achieve benefits across Wales. I am happy to do that.

As you said, Helen, we need more detailed work. You are right that, to an extent, people are no longer used to death and dying. I come from a generation that is used to seeing someone's body laid out in the front room when they die, and everyone going along to pay their respects. It would be very unusual for the younger generation ever to have to do that. It is almost as though death is far removed from them. In some ways, that has not been helpful in the discussion about end-of-life issues. Therefore, we must recognise that there is a lot of work to do on end-of-life issues, ensuring that the patient concerned is at ease with the process, as well as their families. We will look at anything that we can do in developing this.

The question of money is important given that many more people survive much longer and are kept alive with new drugs and so on, but it is still an end-of-life issue. We will have to look at the resources in the long term.

Jenny Randerson: Thank you, Minister, for your statement. It is a very welcome move to have some development in relation to hospices and palliative care. I simply regret that we have wasted so much time in the past few years failing to get to grips with the inadequate situation that Viv Sugar's report and previous reports have identified. That inadequacy is in no way the fault of the excellent voluntary hospice movement—it is a result of the fact that hospices exist where people happen to have had the energy to establish one. A more rigorous, umbrella approach to palliative care is long overdue.

sic yn mynd ar drywydd eich sylwadau. Ar hyn o bryd yr wyf yn edrych ar yr adolygiad o nyrsio cymunedol gyda Choleg Brenhinol y Nyrsys, a bydd materion yn ymwneud â diwedd oes yn cael eu cynnwys ynddo. Af ar drywydd eich sylwadau gyda Chymdeithas Feddygol Prydain hefyd. Mae ganddi hithau ddi-ddordeb yn y mater hwn hefyd. Mae hyn oll yn cyd-fynd â rhai o'r materion yn y cynllun iechyd gwledig, a all sicrhau manteision ledled Cymru os caiff ei ddatblygu'n briodol. Yr wyf yn fodlon gwneud hynny.

Fel y dywedsoch, Helen, mae angen gwneud rhagor o waith manwl. Yr ydych yn iawn nad yw pobl, i raddau, yn gyfarwydd â marwolaeth a marw erbyn hyn. Yr wyf yn perthyn i genhedlaeth sy'n gyfarwydd â gweld corff rhywun yn gorwedd yn y parlwr ar ôl iddynt farw, a phawb yn galw i gydymdeimlo. Byddai'n anarferol iawn i'r genhedlaeth iau orfod gwneud hynny byth. Mae bron fel pe na bai cysylltiad rhyngddynt a marwolaeth. Mewn rhai ffyrdd, nid yw hynny wedi helpu'r drafodaeth am faterion diwedd oes. Felly, rhaid inni gydnabod bod llawer o waith i'w wneud ar faterion diwedd oes, i sicrhau bod y claf dan sylw yn gyfforddus gyda'r broses, yn ogystal â'u teuluoedd. Edrychwn ar unrhyw beth y gallwn ei wneud er mwyn datblygu hyn.

Mae arian yn bwysig o gofio bod llawer mwy o bobl yn byw'n llawer hwy ac yn cael eu cadw'n fyw â chyffuriau newydd ac yn y blaen, ond mater yn ymwneud â diwedd oes ydyw o hyd. Bydd yn rhaid inni edrych ar yr adnoddau yn y tymor hir.

Jenny Randerson: Diolch ichi, Weinidog, am eich datganiad. Mae datblygiad mewn perthynas â hosbisau a gofal lliniarol yn gam sydd i'w groesawu'n fawr. Gresynaf ein bod wedi gwastraffu cymaint o amser dros y blynyddoedd diwethaf yn methu mynd i'r afael â'r sefyllfa annigonol a nodwyd yn adroddiad Viv Sugar ac adroddiadau blaenorol. Nid y mudiad hosbisau gwirfoddol rhagorol sydd ar fai am yr annigonolrwydd hwnnw o gwbl—canlyniad y ffaith bod hosbisau'n bodoli lle y mae pobl, fel y mae'n digwydd bod, wedi cael yr egni i sefydlu un ydyw. Mae'n hen bryd ymdrin â gofal lliniarol mewn dull mwy trylwyr a

chynhwysfawr.

The report raises concerns about the existing commissioning process. I am aware of major variations from one local health board to another, and that causes great complexity for those organisations that work on an all-Wales basis; they have had to make 22 different local agreements. Is it your intention to move towards a more centralised approach to commissioning palliative care, bearing in mind your proposal for a national board to steer the health service in Wales?

I very much welcome the appointment of Baroness Finlay of Llandaff. I cannot think of anyone better to provide the step change that we need. Her proposals, I am sure, will be useful. I am interested in exactly what kind of remit her group will have, because there are many recommendations in this report that are not dealt with in your statement. I understand that an oral statement cannot deal with every detail, but there are whole swathes of information that are not covered. I am particularly concerned about the short-term proposals for the next 12 months, because the months pass very quickly. I am also concerned about the numbers of consultants, both for adult and paediatric care. Therefore, I would be grateful if you could explain in more detail exactly what the group will do—will it look at these core recommendations in the report?

I welcome the establishment of service level agreements—they are the only organised, consistent, efficient and effective way ahead. It is obviously a more equitable way of distributing money, because, to be honest, the previous dollops of money were distributed in a very haphazard manner. The hospices themselves said that it tended to reward institutions that already had money for new innovations, and continued to ignore those hospices that had failed to get that funding.

I am interested in the actual amounts of money. I would value your clarification on this, because your statement mentions £2 million for this year and beyond, but states

Mae'r adroddiad yn codi pryderon ynglŷn â'r broses gomisiynu ar hyn o bryd. Yr wyf yn ymwybodol o amrywiadau mawr rhwng byrddau iechyd lleol a'i gilydd, ac mae hynny'n achosi cymhlethdod mawr i'r cyrff hynny sy'n gweithio ar sail Cymru gyfan; maent wedi gorfod gwneud 22 o gytundebau lleol gwahanol. Ai eich bwriad yw symud tuag at ddull mwy canoledig o gomisiynu gofal lliniarol, a chadw mewn cof eich cynnig i gael bwrdd cenedlaethol i lywio'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru?

Yr wyf yn croesawu penodiad y Farwnes Finlay o Landaf. Ni allaf feddwl am neb gwell i greu'r newid sylweddol y mae ei angen arnom. Bydd ei chynigion, yr wyf yn siŵr, yn fuddiol. Mae gennyf ddiddordeb mewn gweld pa fath yn union o gylch gwaith a fydd gan ei grŵp, oherwydd y mae llawer o argymhellion yn yr adroddiad hwn nad yw eich datganiad yn delio â hwy. Yr wyf yn deall na all datganiad llafar ddelio â phob manylyn, ond mae cryn amrywiaeth o wybodaeth nad yw'n cael sylw. Yr wyf yn pryderu'n arbennig ynglŷn â'r cynigion tymor byr ar gyfer y 12 mis nesaf, oherwydd y mae'r misoedd yn mynd heibio'n gyflym iawn. Yr wyf yn bryderus hefyd ynglŷn â nifer yr ymgynghorwyr, ar gyfer gofal oedolion a gofal pediatrig. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio'n fanylach beth yn union y bydd y grŵp yn ei wneud—a fydd yn edrych ar yr argymhellion craidd hyn yn yr adroddiad?

Yr wyf yn croesawu sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth—dyna'r unig ffordd ymlaen sy'n drefnus, yn gyson, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae'n amlwg yn ffordd decach o ddosbarthu arian, oherwydd, a bod yn onest, yr oedd y talpiau blaenorol o arian yn cael eu dosbarthu mewn modd mympwyol iawn. Dywedodd yr hosbisau eu hunain ei fod yn tueddu i wobrwyo sefydliadau a oedd eisoes ag arian i ddatblygu arloesi newydd, a'i fod yn dal i anwybyddu'r hosbisau hynny a oedd wedi methu cael yr arian hwnnw.

Mae gennyf ddiddordeb yn yr union symiau o arian. Byddwn yn gwerthfawrogi cael eglurhad gennych ar hyn, oherwydd y mae eich datganiad yn crybwyll £2 miliwn ar

that service level agreements will actually start from 1 April 2009—although you are happy to establish long-term ones earlier than that. Later, it states that there is an additional £1 million this year, increasing to £2 million next year and £5 million the year after that. Exactly where are we with these amounts of money? Is the £2 million for 2009-10 additional to the £1 million for 2008-09, or does it include that £1 million? Your earlier paragraph seems to transfer that £1 million to 2009-10. I know that it is a complicated question, but I would be grateful if you could make clear exactly how much in total is available for this year and for next year. Given that you plan to establish the overwhelming majority of service level agreements in April next year, will any of that £2 million be forfeited, or will it be rolled forward? The sector as a whole will be concerned to tie down the exact amounts of money.

3.50 p.m.

Finally, I am interested in the issue of service gaps—the black holes, or the areas where there simply is no hospice service. We have variations in service from one area to another, but the ultimate problem is in those areas where there is no service. By what process will you make your investment in NHS and voluntary sectors providers of palliative care? How are you planning to establish hospice services and palliative care services throughout Wales to plug the gaps?

Edwina Hart: You refer to wasted time, but there is not going to be any more time wasted on this agenda, because, now that I have Viv Sugar's report, and with Baroness Finlay taking the lead on the implementation, I doubt that there will be any further waste of time in getting the right decisions for patients in Wales.

In your initial thoughts, you included a tribute to those who establish hospices. You are right about those cases where something has happened or a group has come together to

gyfer eleni a'r tu hwnt, ond dywed y bydd y cytundebau lefel gwasanaeth yn dechrau mewn gwirionedd o 1 Ebrill 2009—er eich bod yn fodlon sefydlu rhai hirdymor yn gynharach na hynny. Yn ddiweddarach, dywed fod £1 miliwn ychwanegol eleni, yn cynyddu i £2 miliwn y flwyddyn nesaf a £5 miliwn y flwyddyn ar ôl hynny. Ble yn union yr ydym arni gyda'r symiau hyn o arian? A yw'r £2 miliwn ar gyfer 2009-10 yn ychwanegol at y £1 miliwn ar gyfer 2008-09, ynteu a yw'n cynnwys y £1 miliwn hwnnw? Mae eich paragraff cynharach fel petai'n trosglwyddo'r £1 miliwn hwnnw i 2009-10. Gwn ei fod yn gwestiwn cymhleth, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech ei gwneud yn glir faint sydd ar gael fel cyfanswm ar gyfer eleni a'r flwyddyn nesaf. O gofio eich bod yn bwriadu sefydlu'r mwyafrif helaeth o'r cytundebau lefel gwasanaeth ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf, a gollir unrhyw ran o'r £2 miliwn hwnnw, ynteu a gaiff ei drosglwyddo? Bydd y sector cyfan yn awyddus i gael gwybod beth yn union yw'r symiau o arian.

Yn olaf, mae gennyf ddi-ddordeb yn y bylchau yn y gwasanaeth—y tyllau duon, neu'r ardaloedd lle nad oes gwasanaeth hosbis. Mae gennym amrywiadau yn y gwasanaeth o ardal i ardal, ond mae'r broblem waethaf yn yr ardaloedd hynny lle nad oes gwasanaeth. Drwy ba broses y byddwch yn gwneud eich buddsoddiad yn narparwyr gofal lliniarol y GIG a'r sector gwirfoddol? Sut yr ydych yn bwriadu sefydlu gwasanaethau hosbis a gwasanaethau gofal lliniarol ledled Cymru i gau'r bylchau?

Edwina Hart: Yr ydych yn cyfeirio at amser a wastraffwyd, ond ni fydd rhagor o amser yn cael ei wastraffu ar yr agenda hon, oherwydd, a minnau bellach wedi cael adroddiad Viv Sugar, a chyda'r Farwnes Finlay yn arwain o ran rhoi hyn ar waith, ni chredaf y bydd dim rhagor o wastraffu amser cyn cael y penderfyniadau iawn ar gyfer cleifion yng Nghymru.

Yn eich sylwadau cychwynnol, cynwysasoch deyrnged i'r rhai sy'n sefydlu hosbisau. Yr ydych yn iawn am yr achosion hynny lle y mae rhywbeth wedi digwydd neu y mae grŵp

establish a hospice. Clearly, they did not look at the geography of Wales; they looked at where they lived and at where things were happening, but they did a fabulous job in delivering in their localities. There are major concerns, however, and you are right that individual LHBs may deal with things very differently. Something can happen in one way in one LHB area and in a different way in another.

I am in favour of a centralised approach to this area of work, because that will give an element of stability to the movement. Those are the issues that I have asked Baroness Finlay to look at.

You are interested in the group's remit. It is to look at the proposals that came out of Viv Sugar's report. I have told Baroness Finlay, 'You go ahead and look at this. If you then think that there is anything further that you need to do, just come and tell me', because I want this to be an open and transparent exercise on end-of-life issues. If I wanted to control this exercise, I would have just responded to Viv Sugar's report and got on with the service, but I thought that it was important to have that element of independence, so that trusts knew who they were dealing with and we could get an open picture. That open picture might mean that a lot of money is required in that sector. Now, I will have to deal with that in a highly transparent manner within my health service budget. It is important that we recognise that she has an open remit to deal with all of this. She has promised me the short-term proposals, in terms of the money for 2008-09, by mid-September, and I have been speaking to her this morning about other issues—she wants an early indication of where I am going on reforms within the NHS, for example, and I will share that with her as soon as I have shared it with the National Assembly, because that will impact on her work. Also, we are going to look at the issues of consultant numbers and at how we will plug some of the gaps in that area.

wedi dod ynghyd i sefydlu hosbis. Yn amlwg, nid edrychasant ar ddaearyddiaeth Cymru; edrychasant ar yr ardal lle'r oeddent hwy yn byw a lle'r oedd pethau'n digwydd, ond gwnaethant waith gwych yn cyflawni yn eu broydd. Mae pryderon mawr, fodd bynnag, ac yr ydych yn iawn y bydd BILlau unigol yn delio â phethau'n wahanol iawn efallai. Gall rhywbeth ddigwydd mewn un ffordd yn ardal un BIL ac mewn ffordd wahanol mewn ardal arall.

Yr wyf o blaid ymdrin â'r maes gwaith hwn mewn dull sydd wedi'i ganoli, oherwydd bydd hynny'n rhoi elfen o sefydlogrwydd i'r mudiad. Dyna'r materion yr wyf wedi gofyn i'r Farwnes Finlay edrych arnynt.

Mae gennych ddiddordeb yng nghylch gwaith y grŵp. Edrych ar y cynigion a ddeilliodd o adroddiad Viv Sugar ydyw hynny. Yr wyf wedi dweud wrth y Farwnes Finlay, 'Bwriwch iddi i edrych ar hyn. Os ydych yn meddwl wedyn fod unrhyw beth ymhellach y mae angen ichi ei wneud, dewch i ddweud wrthyf', oherwydd yr wyf am i hyn fod yn ymarferiad agored a thryloyw ynglŷn â materion diwedd oes. Petawn am reoli'r ymarferiad hwn, ni fyddwn ond wedi ymateb i adroddiad Viv Sugar ac wedi bwrw ymlaen â'r gwasanaeth, ond tybiwn ei bod yn bwysig cael yr elfen honno o annibyniaeth, fel y byddai'r ymddiriedolaethau'n gwybod â phwy y byddent yn delio ac y gallem gael darlun agored. Gallai'r darlun agored hwnnw olygu bod angen llawer o arian yn y sector hwnnw. Yn awr, bydd yn rhaid imi ddelio â hynny mewn ffordd hynod o dryloyw o fewn fy nghyllideb i'r gwasanaeth iechyd. Mae'n bwysig inni gydnabod bod ganddi gylch gwaith agored i ddelio â hyn i gyd. Mae wedi addo'r cynigion tymor byr imi, o safbwynt yr arian ar gyfer 2008-09, erbyn canol mis Medi, a bŵm yn siarad â hi y bore yma am faterion eraill—mae hi am gael rhyw syniad yn fuan ynghylch lle'r wyf yn mynd o ran diwygio'r GIG, er enghraifft, a byddaf yn rhannu hynny â hi cyn gynted ag y byddaf wedi'i rannu â'r Cynulliad Cenedlaethol, oherwydd bydd hynny'n effeithio ar ei gwaith hi. Hefyd, yr ydym yn mynd i edrych ar nifer yr ymgynghorwyr a sut y gallwn gau rhai o'r bylchau yn y maes hwnnw.

The key issue that you raised was that of Y mater allweddol a godwyd gennych oedd

equity and distribution. It is clear to me that, when I have had responsibility, I have felt quite guilty in some ways, because I have doled out the money on a historical basis; that has sometimes been on the basis that some know how to bid and they know what to say. That is not the right way to deal with money in this area, so we will at least get to the stage of knowing where we are going.

On the service gaps, this will present a challenge for the NHS—I have no doubt about it. However, the working group that Baroness Finlay has under her to work on these areas will make a tremendous difference. We are talking about people who already know the issues. It will not take them long to say what the issues are in north Wales, south-east Wales or west Wales, because they are already in the system and they know what they are. With the group that is looking at service level agreements, I can tell you now, from the Nightingale House perspective, that the issues about SLAs are already known, and what colleagues within the hospice movement feel is already known, as is how we need to move on and what we need to see included in the agreements.

With regard to the money, I thought that I was quite clear. I have that £2 million, and probably have an extra £1 million this year, and eventually I will be looking at a package of £5 million. I have also acknowledged that I might have to make bids for more when we see how the service level agreements turn out. If Members are happy for me to do so, I will keep them appraised of the financial position and of how I intend to act to ensure clarity, and when I report back, hopefully at the end of September, with the update on 2008-09, I can give an indication about some of the financial issues as well.

Mark Isherwood: I welcome this report and its focus on adults and children alike. I welcome the role that Dafydd Wigley is playing and his input as patient and carer to

mater tegwch a dosbarthiad. Mae'n glir i mi fy mod, pan wyf wedi cael cyfrifoldeb, wedi teimlo braidd yn euog mewn rhai ffyrdd, oherwydd yr wyf wedi rhannu arian ar sail hanesyddol; mae hynny weithiau wedi bod ar y sail bod rhai pobl yn gwybod sut y mae gwneud cais ac maent yn gwybod beth i'w ddweud. Nid dyna'r ffordd iawn o ddelio ag arian yn y maes hwn, felly byddwn o leiaf yn cyrraedd sefyllfa lle'r ydym yn gwybod i ble yr ydym yn mynd.

O ran y bylchau yn y gwasanaeth, bydd hyn yn her i'r GIG—nid oes gennyf amheuaeth ynghylch hynny. Fodd bynnag, bydd y gweithgor sydd gan y Farwnes Finlay i weithio oddi tani ar y meysydd hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr. Yr ydym yn siarad am bobl sydd eisoes yn gyfarwydd â'r hyn sydd dan sylw. Ni fydd yn cymryd llawer o amser iddynt ddweud beth yw'r materion dan sylw yn y gogledd, yn y de-ddwyrain neu yn y gorllewin, oherwydd y maent eisoes yn y system ac maent yn gwybod beth ydynt. O ran y grŵp sy'n edrych ar gytundebau lefel gwasanaeth, gallaf ddweud wrthyf yn awr, o safbwynt Tŷ'r Eos, fod yr ystyriaethau ynglŷn â chytundebau lefel gwasanaeth eisoes yn hysbys, ac mae teimladau cydweithwyr o fewn y mudiad hosbisau eisoes yn hysbys, yn ogystal â sut y mae angen inni symud ymlaen a'r hyn y mae angen inni ei weld yn cael ei gynnwys yn y cytundebau.

O ran yr arian, yr oeddwn yn meddwl bod hynny'n bur glir. Mae'r £2 miliwn gennyf, ac mae'n debygol bod gennyf £1 miliwn yn ychwanegol ar gyfer eleni, a maes o law byddaf yn edrych ar becyn o £5 miliwn. Yr wyf wedi cydnabod hefyd y bydd yn rhaid imi wneud ceisiadau am ragor efallai pan welwn sut bethau fydd y cytundebau lefel gwasanaeth. Os yw'r Aelodau'n fodlon imi wneud hynny, rhoddaf wybod iddynt am y sefyllfa ariannol a sut yr wyf yn bwriadu gweithredu i sicrhau eglurder, a phan fyddaf yn adrodd yn ôl, ddiwedd mis Medi gobeithio, gallaf roi rhyw syniad ynglŷn â rhai o'r materion ariannol hefyd.

Mark Isherwood: Yr wyf yn croesawu'r adroddiad hwn a'i ffocws ar oedolion a phlant fel ei gilydd. Yr wyf yn croesawu'r rôl y mae Dafydd Wigley yn ei chwarae a'i

the implementation group. I know that he has played a major role in the sector in north Wales, working particularly with one association, but he is respected across the associations. He attended the lobby event in November 2006, representing his own hospice, alongside the representatives of all the other hospices that are based in or work in Wales. I also welcome the fact that John Savage will be developing the model service level agreement, given his particular experience and expertise in this area.

What consideration has been given to the cross-border aspect of services and planning? I declare that, among other things, I am an ambassador for Claire House Children's Hospice. Almost 50 per cent of the children who attend the residential provision at Wallasey are from north Wales and they are also developing a hospice and a community service in north Wales. On an adult level, we have Nightingale House Hospice providing services for people living across the border in England and the Hospice of the Good Shepherd in Chester, providing services to people across the border from Wales. How can we develop that equitably across the border, in the interests of all the people involved?

As has been mentioned, you will be developing service level agreements for implementation from April next year. In addition to the core palliative care services, will they include other added value services that some hospices already provide and that, no doubt, others would be prepared to consider, provided that the quantitative and qualitative service would be of benefit to the NHS in its commissioning? You have stated that some hospices will find the process difficult and that every effort will be made to support them. You will also be aware that some local health boards have found this process difficult and, despite your guidance, have been resistant to service level agreements. How will you support them or their successors in crossing the bridge and meeting the hospices in the middle on this one?

gyfraniad i'r grŵp gweithredu fel claf a gofalwr. Gwn ei fod wedi chwarae rhan fawr yn y sector yn y gogledd, gan weithio'n arbennig gydag un gymdeithas, ond mae'n uchel ei barch ar draws y cymdeithasau. Daeth i'r digwyddiad lobïo ym mis Tachwedd 2006, yn cynrychioli ei hosbis ei hun, ynghyd â chynrychiolwyr yr holl hosbisau eraill sydd wedi'u lleoli neu sy'n gweithio yng Nghymru. Yn ogystal yr wyf yn croesawu'r ffaith y bydd John Savage yn datblygu'r cytundeb lefel gwasanaeth enghreifftiol, o gofio ei brofiad a'i arbenigedd penodol yn y maes hwn.

Pa ystyriaeth sydd wedi cael ei rhoi i'r agwedd drawsffiniol ar wasanaethau a chynllunio? Yr wyf yn datgan fy mod, ymysg pethau eraill, yn llysgennad ar ran Hosbis Plant Claire House. Daw bron 50 y cant o'r plant sy'n mynychu'r ddarpariaeth breswyl yn Wallasey o ogledd Cymru ac maent yn datblygu hosbis a gwasanaeth cymunedol yng ngogledd Cymru hefyd. Ar lefel oedolion, mae gennym Hosbis Tŷ'r Eos yn darparu gwasanaethau i bobl sy'n byw dros y ffin yn Lloegr a'r Hospice of the Good Shepherd yng Nghaer, sy'n darparu gwasanaethau i bobl o'r ochr arall i'r ffin, o Gymru. Sut y gallwn ddatblygu hynny'n deg ar draws y ffin, er budd yr holl bobl dan sylw?

Fel sydd wedi cael ei grybwyll, byddwch yn datblygu cytundebau lefel gwasanaeth i'w gweithredu o fis Ebrill y flwyddyn nesaf. Yn ychwanegol at y gwasanaethau gofal lliniarol craidd, a fyddant yn cynnwys y gwasanaethau eraill sy'n ychwanegu gwerth y mae rhai hosbisau eisoes yn eu darparu ac y byddai eraill, mae'n siŵr, yn barod i'w hystyried, cyhyd ag y byddai'r gwasanaeth, o ran maint ac ansawdd, o fudd i'r GIG o ran ei gomisiynu? Yr ydych wedi datgan y bydd rhai hosbisau'n ei chael yn broses anodd ac y gwneir pob ymdrech i'w cynorthwyo. Byddwch yn ymwybodol hefyd fod rhai byrddau iechyd lleol wedi teimlo bod y broses hon yn anodd ac, er gwaethaf eich arweiniad, maent wedi bod yn anfoddog i dderbyn y syniad o gytundebau lefel gwasanaeth. Sut y byddwch yn eu cynorthwyo hwy neu'r rhai a fydd yn eu holynu i groesi'r bont a chwrdd â'r hosbisau yn y canol ar y mater hwn?

On the allocation of funding, how will you ensure that it is not only a matter of focus on good clinical practice, but also on good internal corporate governance within the relevant hospices? That is something that I have mentioned to you before. Finally, with regard to funding—I will not repeat the sums; they have been mentioned many times—I note that the sums that you referred to are for both NHS and voluntary sector providers, not just palliative care providers. You will be aware that when we had the lobby event in 2006, that related to concern after the end of the £10-million three-year funding—I know that it was legacy money that was allocated for a fourth year—and the sector said at that time that it needed £3.33 million per annum just for the voluntary hospices to stand still. If this money is to be split between the NHS and the voluntary sector hospices, how are we going to ensure that it meets the level of essential core financial funding that they have identified?

Edwina Hart: Following the discussions here today, I will be taking a further look at the financial issues and the concerns that have been raised with me by Members. I will be discussing them with Baroness Finlay, who is taking the implementation through, and with my officials. Governance issues are crucial—you are quite right on that—and we are always available and ready to help in terms of providing assistance with governance; we have actually assisted hospices with discussions about their governance issues previously.

In terms of the response of the LHBs, as you have indicated, they have already been told to travel in one direction, but perhaps they have not all done so. However, I have Paul Williams, the chief executive of Abertawe Bro Morgannwg University NHS Trust, on the group for that reason, because he understands all the issues about the management of the service and how they can be dealt with. In future, I do not think that there will be guidance for any new health bodies; there will be instructions on the way that things will be done, because I think that it is much simpler if you are tasked and told what you will do, rather than there being

O ran dyrannu cyllid, sut y sicrhewch mai nid mater o ganolbwyntio'n unig ar arferion clinigol da fydd hynny, ond hefyd ar lywodraethu corfforaethol mewnol da o fewn yr hosbisau perthnasol? Mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi'i grybwyll wrthy ch o'r blaen. Yn olaf, o safbwynt cyllid—nid ailadroddaf y symiau, maent wedi cael eu crybwyll droeon—sylwaf fod y symiau y cyfeiriasoch atynt ar gyfer darparwyr y GIG a'r sector gwirfoddol, nid darparwyr gofali liniariol yn unig. Byddwch yn ymwybodol, pan gawsom y digwyddiad lobio yn 2006, fod hwnnw'n ymwneud â'r pryder ar ôl i'r cyllid o £10 miliwn dros dair blynedd ddod i ben—gwn mai arian etifeddol oedd hwnnw a ddyrannwyd am bedwaredd flwyddyn—a bod y sector yn dweud ar y pryd fod angen £3.33 miliwn y flwyddyn ar yr hosbisau gwirfoddol er mwyn sefyll yn eu hunfan yn unig. Os yw'r arian hwn i gael ei rannu rhwng y GIG a hosbisau'r sector gwirfoddol, sut yr ydym yn mynd i sicrhau ei fod yn cyrraedd lefel y cyllid craidd hanfodol y maent wedi'i nodi?

Edwina Hart: Wedi'r trafodaethau heddiw, byddaf yn edrych ymhellach ar y materion ariannol a'r pryderon a godwyd gyda mi gan Aelodau. Byddaf yn eu trafod gyda'r Farwnes Finlay, sy'n rhoi hyn ar waith, a chyda'm swyddogion. Mae materion yn ymwneud â llywodraethu'n dyngedfennol—yr ydych yn hollol iawn am hynny—ac yr ydym wastad ar gael ac yn barod i helpu o ran darparu cymorth gyda llywodraethu; yr ydym wedi cynorthwyo hosbisau gyda thrafodaethau ynghylch eu problemau ynglŷn â materion llywodraethu cyn hyn.

O ran ymateb y BILLau, fel yr ydych wedi nodi, dywedwyd wrthynt eisoes am deithio i un cyfeiriad, ond efallai nad ydynt i gyd wedi gwneud hynny. Fodd bynnag, mae Paul Williams, prif weithredwr Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Abertawe Bro Morgannwg, ar y grŵp am y rheswm hwnnw, oherwydd ei fod yn deall yr holl faterion ynglŷn â rheoli'r gwasanaeth a sut y gellir delio â hwy. Yn y dyfodol, ni chredaf y bydd canllawiau ar gyfer unrhyw gyrff iechyd newydd; bydd cyfarwyddiadau ynglŷn â'r ffordd y caiff pethau eu gwneud, oherwydd credaf ei bod yn llawer symlach os gosodir tasgau ichi ac os dywedir wrthy ch beth y byddwch yn ei

suggestions made. I hope that we can overcome that issue in that way. I also think that health bodies in general—some are good, some are not so good and some are bad—need to understand what type of relationship they should have with the voluntary sector: they are partners and I regard them as equal partners. They might not have the cash and they might not have the clout, but they are equal partners in terms of how the Assembly has always regarded the voluntary sector. I always have to remind the health service of that.

You used the phrase ‘benefit to the NHS’, but I see all this as being of benefit to patients, and that is what we should focus our services on. There will be some issues about what should be paid for, and I believe that they will be around some of the core clinical areas in terms of how we support service level agreements. However, Baroness Finlay will work through that, regarding how service level agreements should go.

4.00 p.m.

On cross-border issues, I am confident that the implementation process that I have outlined will address cross-border concerns, because the people who are involved in it understand some of those concerns. I believe that you mentioned Claire House, which is in the Wirral, and provides care for children. I am not aware that any Welsh LHBs currently commission any services from that hospice, but I will make further inquiries in the light of your comments. However, it is important to recognise that end-of-life issues go across our borders—because people live along our borders—and it is important to get the right service for the individual, rather than worry about where the border is.

wneud, yn hytrach na bod awgrymiadau'n cael eu gwneud. Gobeithiaf y gallwn oresgyn y mater hwnnw yn y ffordd honno. Yr wyf yn credu hefyd fod angen i gyrff iechyd yn gyffredinol—mae rhai'n dda, rhai heb fod cystal a rhai'n wael—ddeall pa fath o berthynas a ddylai fod ganddynt â'r sector gwirfoddol: maent yn bartneriaid ac yr wyf yn eu hystyried yn bartneriaid cydradd. Efallai nad yw'r arian ganddynt ac efallai nad yw'r grym ganddynt, ond maent yn bartneriaid cydradd o ran y ffordd y mae'r Cynulliad wedi ystyried y sector gwirfoddol drwy'r amser. Yr wyf bob amser yn gorfod atgoffa'r gwasanaeth iechyd o hynny.

Defnyddiasoch yr ymadrodd ‘budd i'r GIG’, ond yr wyf fi'n gweld hyn oll fel rhywbeth sydd o fudd i gleifion, ac at hynny y dylem dargedu ein gwasanaethau. Bydd rhai materion yn ymwneud â'r hyn y dylid talu amdano, a chredaf y byddant yn ymwneud â rhai o'r meysydd clinigol craidd, o ran sut yr ydym yn cefnogi cytundebau lefel gwasanaeth. Fodd bynnag, bydd y Farwnes Finlay yn ymdrin â hynny, ynaglŷn a sut y dylid mynd ati o ran cytundebau lefel gwasanaeth.

O ran materion trawsffiniol, yr wyf yn ffyddiog y bydd y broses weithredu a amlinellwyd gennyf yn rhoi sylw i bryderon trawsffiniol, gan fod y bobl sy'n ymwneud â hynny'n deall rhai o'r pryderon hynny. Credaf eich bod wedi sôn am Claire House, yng Nghilgwri, sy'n darparu gofal i blant. Nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw BILlau yng Nghymru'n comisiynu gwasanaethau gan yr hosbis hwnnw ar hyn o bryd, ond gwnaf ragor o ymholiadau yn sgîl eich sylwadau. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod materion diwedd oes yn croesi'n ffiniau—gan fod pobl yn byw ar ein ffiniau—ac mae'n bwysig cael y gwasanaeth priodol ar gyfer yr unigolyn, yn hytrach na phoeni ym mhle y mae'r ffin.

Datganiad am y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd Statement on the Climate Change Commission

The Minister for Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): I am pleased to report on the **Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson):** Yr wyf yn falch o roi adroddiad am drydydd

third meeting of the Climate Change Commission for Wales, held on 19 June. The meeting was held at the Technium OptTIC in St Asaph. It was an appropriate venue for the commission to meet, as it has many sustainable features, including a large solar photovoltaic wall and innovative technology start-ups.

I also provided an overview of the actions that have been undertaken by the Assembly Government since the commission last met in March. Key updates included the completion of a report commissioned by the Assembly Government, providing an initial assessment of the cost-effectiveness of various options of delivering emissions reduction across all sectors. The detailed report was considered during the meeting. As part of the journey towards all new buildings being zero carbon from 2011, the Assembly Government is now promoting the Code for Sustainable Homes as the assessment framework for new housing. The Assembly Government is earmarking exemplar projects to help plan effectively for zero carbon.

I will be announcing a package of planning and climate change measures later this week, following the consultation, 'Planning for Climate Change'. Work on scoping the national energy efficiency and savings plan is underway. At the beginning of June, I announced that, with the UK Government, we will be launching a scheme to install microgeneration in fuel-poor households. We are making good progress with developing a strategic project to support community energy generation through the convergence programme. In April, two further community events on climate change were held, in Llandudno and Carmarthen.

A community information pack is being developed, and will be published shortly. The Assembly Government is developing plans for a national communications campaign on climate change, to be launched later this year. Last month, I announced the decision to remake the Assembly Government's sustainable development scheme. Wales has

cyfarfod Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, a gynhaliwyd ar 19 Mehefin. Cynhaliwyd y cyfarfod yn Technium OptTIC yn Llanelwy. Yr oedd yn lleoliad priodol ar gyfer cyfarfod y comisiwn, gan fod yno lawer o nodweddion cynaliadwy, gan gynnwys wal solar ffotofoltäig fawr a chwmnïau newydd sy'n arloesi ym maes technoleg.

Cyflwynais drosolwg hefyd o'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ers cyfarfod diwethaf y comisiwn ym mis Mawrth. Yr oedd y camau allweddol yn cynnwys cwblhau adroddiad, wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth y Cynulliad, a oedd yn darparu asesiad cychwynnol o gosteffeithiolrwydd dewisiadau amrywiol ar gyfer lleihau allyriadau ym mhob sector. Cafodd yr adroddiad manwl ei ystyried yn ystod y cyfarfod. Fel rhan o'r ymdrech i sicrhau y bydd pob adeilad newydd yn ddi-garbon o 2011 ymlaen, mae Llywodraeth y Cynulliad yn awr yn hybu'r Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy fel y fframwaith asesu ar gyfer tai newydd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn clustnodi prosiectau enghreifftiol er mwyn helpu i gynllunio'n effeithiol ar gyfer adeiladau di-garbon.

Byddaf yn cyhoeddi pecyn o fesurau cynllunio a newid yn yr hinsawdd yn ddiweddarach yr wythnos hon, yn dilyn yr ymgynghoriad, 'Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd'. Mae'r gwaith o lunio'r cynllun cenedlaethol ar gyfer effeithlonrwydd ac arbedion ynni yn mynd rhagddo. Ddechrau mis Mehefin, cyhoeddais y byddwn yn lansio cynllun, ar y cyd â Llywodraeth y DU, i osod systemau microgynhyrchu mewn cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd. Yr ydym yn gwneud cynnydd da â'r gwaith o ddatblygu prosiect strategol i gefnogi cynhyrchu ynni cymunedol drwy'r rhaglen gydgyfeirio. Ym mis Ebrill, cynhaliwyd dau ddigwyddiad arall yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd, yn Llandudno a Chaerfyrddin.

Mae pecyn gwybodaeth i'r gymuned yn cael ei ddatblygu, a bydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu cynlluniau ar gyfer ymgyrch gyfathrebu genedlaethol ar newid yn yr hinsawdd, a fydd yn cael ei lansio yn ddiweddarach eleni. Y mis diwethaf, cyhoeddais y penderfyniad i ailwampio

become the world's first fair-trade nation, which is an important milestone on which to build.

The commission recognised that the annual 3 per cent emission reduction target is a major political commitment, and one that enjoys broad support from all parties in Wales. The commission welcomed the target, and the expectation that it will deliver real reductions in emissions, as an important step in the right direction. At the same time, the commission recognised that annual reductions of 3 per cent globally will not be sufficient to stabilise emissions at a level that avoids dangerous climate change. The scientific evidence makes it clear that, to avoid temperature increases of more than 2 degrees C, much greater reductions in emissions in Wales, and globally, will be required. The commission will be keeping this greater challenge in mind as it works to inform, develop and implement proposals on the 3 per cent target, and to stimulate action in the sectors that commission members represent.

Last week, the UK Government launched its renewable energy strategy, including plans for the UK to produce 15 per cent of its energy from renewable sources by 2020. A significant proportion of Welsh emissions are from non-renewable electricity generation, and these moves towards increased renewable generation will help us reach our targets for emission reduction. The commission devoted a significant proportion of the meeting to discussing the definition and delivery of the 3 per cent target, as outlined in 'One Wales'. Good progress was made in tightening up the definition.

The commission agreed that the target should use a mix of production and consumption data, in particular to ensure that energy consumption was reflected. The commission agreed that a broad sectoral approach was appropriate, and that this would include, for example, transport, the residential and public sectors, land use, agriculture, and those parts of business that are not part of the 'traded sector', that is, those parts that are not subject

cynllun datblygu cynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad. Cymru bellach yw'r wlad masnach deg gyntaf yn y byd, ac mae hyn yn garreg filltir bwysig i adeiladu arni.

Cydabu'r comisiwn fod y targed o ostyngiad o 3 y cant bob blwyddyn mewn allyriadau yn ymrwymiad gwleidyddol pwysig, sydd â chefnogaeth gyffredinol iddo gan bob plaid yng Nghymru. Croesawodd y comisiwn y targed, a'r gobaith y bydd yn arwain at leihad gwirioneddol mewn allyriadau, gan ei fod yn gam pwysig i'r cyfeiriad cywir. Yr un pryd, cydnabu'r comisiwn na fydd gostyngiadau blynyddol o 3 y cant drwy'r byd yn ddigon i sefydlogi allyriadau ar lefel sy'n osgoi newid peryglus yn yr hinsawdd. Mae'r dystiolaeth wyddonol yn ei gwneud yn glir y bydd angen gostyngiadau llawer mwy mewn allyriadau yng Nghymru, ac yn fyd-eang, er mwyn osgoi cynnydd o fwy na 2 radd C yn y tymheredd. Bydd y comisiwn yn cadw'r her fwy hon mewn cof pan fydd yn ceisio llunio, datblygu a gweithredu cynigion ar gyfer y targed o 3 y cant, ac ysgogi'r sectorau a gynrychiolir gan aelodau'r comisiwn i weithredu.

Yr wythnos diwethaf, lansiodd Llywodraeth y DU ei strategaeth ar ynni adnewyddadwy, gan gynnwys cynlluniau i'r DU gynhyrchu 15 y cant o'i hynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn y flwyddyn 2020. Mae cyfran sylweddol o allyriadau Cymru'n dod o ddulliau cynhyrchu trydan anadnewyddadwy, a bydd y newid hwn i ddefnyddio mwy o ddulliau cynhyrchu adnewyddadwy yn ein helpu i gyrraedd ein targedau ar gyfer lleihau allyriadau. Neilltuodd y comisiwn gyfran sylweddol o'r cyfarfod i drafod y diffiniad o'r targed o 3 y cant, a geir yn 'Cymru'n Un', a sut y bydd y targed hwn yn cael ei gyrraedd. Gwnaethpwyd cynnydd da wrth fanylu ynglŷn â'r diffiniad.

Cytunodd y comisiwn y dylai'r targed ddefnyddio cyfuniad o ddata cynhyrchu a data defnyddio, yn enwedig i sicrhau bod yr ynni sy'n cael ei ddefnyddio'n cael ei adlewyrchu. Cytunodd y comisiwn fod ymagwedd sectoraidd gyffredinol yn briodol, ac y byddai hyn, er enghraifft, yn cynnwys trafniadaeth, y sectorau preswyl a chyhoeddus, defnydd tir, amaethyddiaeth, a'r rhannau hynny o fusnes nad ydynt yn rhan

to the European Union emissions trading scheme. The commission also discussed detailed issues such as base years and whether to measure on the basis of a single year or a rolling average. The sub-groups will be asked to make final recommendations on these more technical matters.

The commission received a presentation from Npower renewables outlining the current status of the marine renewables industry. During the question-and-answer session following the presentation, commission members discussed what could be done to support the development and commercial application of these technologies in Wales. The commission believes that there is considerable potential for both existing and developing marine renewable technologies to play a significant role in helping Wales to reduce its greenhouse gas emissions.

The commission was updated on the progress of the sub-groups. Several key pieces of work are under way, including identifying urgent actions that can be taken to reduce emissions in key sectors, scoping current adaptation actions and future priorities across key sectors, and defining the 3 per cent target and data sources.

Two of the Assembly Government's climate change champions participated in the meeting. One of the champions, James Fletcher, gave a presentation on his involvement in the recent G8 environment Ministers summit in Japan where, as one of the UK's three international climate change champions, he was part of a delegation of young people who presented the 'Kobe Challenge' on climate change to participants in the summit. There was also positive dialogue between the champions and the representatives of the Federation of Small Businesses and the CBI about how young people, as future employees and entrepreneurs, can work with business to encourage action on climate change. The climate champions will be following this up with business sector representatives.

o'r 'sector a fasnachir', hynny yw, y rhannau hynny nad ydynt yn ddarostyngedig i gynllun masnachu allyriadau'r Undeb Ewropeaidd. Bu'r comisiwn hefyd yn trafod materion manwl megis blynyddoedd sylfaen ac a ddylid mesur ar sail blwyddyn unigol neu gyfartaledd treigl. Gofynnir i'r is-grwpiau wneud argymhellion terfynol ar y materion mwy technegol hyn.

Cafodd y comisiwn gyflwyniad gan gwmni Npower renewables yn amlinellu statws presennol y diwydiant ynni adnewyddadwy morol. Yn ystod y sesiwn holi ac ateb wedi'r cyflwyniad, trafodd aelodau'r comisiwn beth y gellid ei wneud er mwyn helpu i ddatblygu a defnyddio'r technolegau hyn yn fasnachol yng Nghymru. Mae'r comisiwn yn credu y gallai technolegau ynni adnewyddadwy morol sy'n bodoli'n barod, ac sy'n cael eu datblygu, fod yn bwysig iawn er mwyn helpu Cymru i leihau ei hallyriadau nwyon tŷ gwydr.

Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r comisiwn ynglŷn â'r cynnydd yr oedd yr is-grwpiau wedi'i wneud. Mae llawer o waith pwysig yn cael ei wneud, gan gynnwys nodi camau y gellir eu cymryd ar unwaith er mwyn lleihau allyriadau mewn sectorau allweddol, archwilio camau addasu sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol mewn sectorau allweddol, a diffinio'r targed o 3 y cant a ffynonellau'r data.

Bu dau o hyrwyddwyr newid hinsawdd Llywodraeth y Cynulliad yn cymryd rhan yn y cyfarfod. Rhoddodd un o'r hyrwyddwyr, James Fletcher, gyflwyniad yn sôn am ei ran ef yn uwchgynhadledd yr G8 ar gyfer Gweinidogion dros yr amgylchedd a gynhaliwyd yn Japan yn ddiweddar. Yr oedd yno fel un o dri hyrwyddwr newid hinsawdd rhyngwladol y DU, ac yr oedd yn rhan o ddirprwyaeth o bobl ifanc a gyflwynodd 'Her Kobe' ar newid yn yr hinsawdd i'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn yr uwchgynhadledd. Cafwyd deialog gadarnhaol hefyd rhwng yr hyrwyddwyr a chynrychiolwyr Ffederasiwn Busnesau Bach a Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain ynglŷn â sut y gall pobl ifanc, fel gweithwyr ac entrepreneuriaid y dyfodol, weithio gyda busnesau er mwyn eu hannog i weithredu ym maes newid yn yr

hinsawdd. Bydd yr hyrwyddwyr newid hinsawdd yn trafod hyn gyda chynrychiolwyr y sector busnes.

The commission endorsed the recently published ecological footprint report as providing an accessible route into considering the type, and scale, of the changes that we need to make in our policies and our lives in response to the challenge to live sustainably. The meeting followed on from significant progress already made in two previous sessions. The Climate Change Commission for Wales is developing into a highly productive organisation, which has an important role to play in Wales's progress in tackling climate change.

Cymeradwyodd y comisiwn yr adroddiad ar ôl-troed ecolegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan ddweud ei fod yn adroddiad sy'n cynnig ffordd hygyrch o ystyried faint o newidiadau, a pha fath o newidiadau, y mae angen inni eu gwneud yn ein polisïau i ymateb i'r her o fyw'n gynaliadwy. Yr oedd y cyfarfod yn parhau â'r cynnydd sylweddol a oedd wedi'i wneud yn barod mewn dwy sesiwn flaenorol. Mae Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn datblygu'n sefydliad cynhyrchiol iawn, sydd â rhan bwysig i'w chwarae yn y cynnydd y bydd Cymru'n ei wneud wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Darren Millar: Diolch am eich datganiad, Weinidog.

Darren Millar: Thank you for your statement, Minister.

I am pleased to note that the commission met in north Wales for the first time in June. The Technium OptTIC centre at St Asaph was an appropriate venue, as there are some excellent examples there of companies that are right at the cutting edge of the future green jobs that we will have in Wales. It is important to ensure that the work of the commission is seen across the country, and that members of the commission can see at first hand the good work that is being done across Wales to make the country more sustainable in the future.

Yr wyf yn falch o weld bod y comisiwn wedi cyfarfod yn y gogledd am y tro cyntaf ym mis Mehefin. Yr oedd canolfan Technium OptTIC yn Llanelwy yn lleoliad priodol, gan fod yno enghreifftiau gwych o gwmnïau sydd ar flaen y gad o ran y swyddi gwyrdd a fydd gennym yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n bwysig sicrhau bod gwaith y comisiwn yn cael ei weld ym mhob rhan o'r wlad, a bod aelodau'r comisiwn yn gallu gweld drostynt eu hunain y gwaith da sy'n cael ei wneud ledled Cymru er mwyn gwneud y wlad yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol.

I was also delighted to hear that two of the climate change champions were present at the meeting, and not just in a dormant sense, but taking an active role, participating in the meeting, and making a presentation. I recently read an article in my local weekly newspaper by Katie Mason, the climate change champion who attends Ysgol Bryn Elian in my constituency. It is clear that these champions have an enormous amount to contribute towards taking this matter forward and representing the views that need to be represented among their peers and further afield.

Yr oeddwn yn falch o glywed hefyd fod dau o'r hyrwyddwyr newid hinsawdd yn bresennol yn y cyfarfod, a'u bod wedi chwarae rhan weithredol, gan gymryd rhan yn y cyfarfod, a gwneud cyflwyniad. Darllenais erthygl yn ddiweddar yn fy mhapur newydd wythnosol lleol gan Katie Mason, yr hyrwyddwr newid hinsawdd sy'n mynychu Ysgol Bryn Elian yn fy etholaeth. Mae'n amlwg bod gan yr hyrwyddwyr hyn gyfraniad mawr iawn i'w wneud er mwyn bwrw ymlaen â'r mater hwn a mynegi'r safbwyntiau y mae angen eu mynegi ymhlith eu cyfoedion ac yn ehangach.

It is encouraging that the commission believes that marine renewable technologies will have a significant role to play in

Mae'n galonogol bod y comisiwn yn credu y bydd gan dechnolegau adnewyddadwy morol ran bwysig i'w chwarae er mwyn lleihau

reducing greenhouse gas emissions in the future. That is something that my party, as you will know, Minister, has been saying for a long time. Given that it is saying that, perhaps you can tell us what the Welsh Assembly Government will now do to support and promote the development of marine renewable technologies in Wales? It is clear from the evidence that has been taken by the Sustainability Committee that insufficient work is being done with these technologies at the moment, and that there is insufficient encouragement from the Welsh Assembly Government for their development.

You also referred in your statement to how progress against the 3 per cent annual emissions reduction targets may be measured in the future, hinting that it could be measured on the basis of a rolling average. Can you assure us today that, if a rolling average is to be used to monitor progress, it will not be used as an excuse for not meeting the targets, and that it will be done on the basis of a far shorter period than the four-year term of office of the Assembly? Perhaps you can also tell us whether you have any plans to revise the 3 per cent target in the light of the growing and stark evidence that has been presented, not just to the commission, which you alluded to, but also to the Assembly and the Sustainability Committee. There is a growing need to reduce emissions at a much quicker rate. Will you look at that again and perhaps revise the target upwards?

4.10 p.m.

Finally, given the commission's work in looking at the mitigation of and adaptation to the effects of climate change, will the commission members have time to look at the conclusions of the Pitt report into last year's floods and make recommendations to the Welsh Assembly Government on how it might address the concerns that were raised in the report, particularly around the investment that might be needed in the future to mitigate flood risk around our coasts and inland?

Jane Davidson: There are huge opportunities in terms of investment in the renewable

allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y dyfodol. Mae hynny'n rhywbeth y mae fy mhlaid, fel y gwyddoch, Weinidog, wedi bod yn ei ddweud ers talwm. Gan fod y comisiwn yn dweud hynny, efallai y gallwch ddweud wrthym beth y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud yn awr er mwyn cefnogi a hybu datblygiad technolegau adnewyddadwy morol yng Nghymru? Mae'n amlwg yn ôl y dystiolaeth a gymerwyd gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd nad oes digon o waith yn cael ei wneud â'r technolegau hyn ar hyn o bryd, ac nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi digon o anogaeth i'w datblygu.

Cyfeiriasoch hefyd yn eich datganiad at sut y gellir mesur y cynnydd tuag at y targed o ostyngiad o 3 y cant y flwyddyn mewn allyriadau yn y dyfodol, gan awgrymu y gellid ei fesur ar sail cyfartaledd treigl. A allwch ein sicrhau heddiw, os bydd cyfartaledd treigl yn cael ei ddefnyddio i fonitro cynnydd, na fydd yn cael ei ddefnyddio fel esgus dros beidio â chyrraedd y targedau, ac y bydd hyn yn cael ei wneud ar sail cyfnod llawer byrrach na thymor pedair blynedd y Cynulliad? Efallai y gallwch ddweud wrthym hefyd a oes gennych unrhyw gynlluniau i ddiwygio'r targed o 3 y cant o ganlyniad i'r dystiolaeth gynyddol a chlir a gyflwynwyd i'r comisiwn, fel y clywsom gennych, a hefyd i'r Cynulliad a'r Pwyllgor Cynaliadwyedd. Mae angen cynyddol i leihau allyriadau'n llawer cynt. A wnewch edrych ar hynny unwaith eto a chodi'r targedau o bosibl?

Yn olaf, o ystyried gwaith y comisiwn ym maes lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac ymaddasu i'r newidiadau hynny, a fydd gan aelodau'r comisiwn amser i edrych ar gasgliadau adroddiad Pitt ynglŷn â'r llifogydd y llynedd a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn â sut y gallai roi sylw i'r pryderon a fynegwyd yn yr adroddiad, yn enwedig yng nghyswllt y buddsoddiad y byddai ei angen yn y dyfodol efallai er mwyn lliniaru perygl llifogydd o amgylch ein harfordiroedd ac yn y mewndir?

Jane Davidson: Mae cyfleoedd aruthrol yng nghyswllt buddsoddi ym maes ynni

energy area, and the renewable energy strategy published by the UK Government last week indicates that there is £100 billion-worth of potential investment in the renewable sector. We want to do what we can to bring as many as possible of those jobs, particularly in the manufacturing sector, to Wales.

I am glad that you mentioned the contribution of the two climate change champions. We have two champions out of the six present at every meeting. It is a rolling programme, because we need to ensure that all of the champions get a chance to sit at a high-level table with those who contribute to major decision making. Their contribution was very effective, and they also challenged the adults at the table in ensuring that those adults consider young people in how they take this agenda forward, which was extremely important.

It was pointed out to us clearly that the most developed marine renewable energy technology is offshore wind, in the same way that the most developed onshore renewable energy technology is wind power. The members of the commission fully appreciated the need to use all renewable energy technologies. Another aspect of the Government's agenda that was launched last week in the renewable energy strategy is that if we are able to achieve the propositions that were put in place, it will extend and raise the level of the renewables obligation to encourage up to 30 per cent to 35 per cent of electricity to come from renewable resources by 2020 across the whole of the United Kingdom. The renewables obligation has rebanded marine renewable energy technologies, particularly lagoon barrage technologies, so that they have the greatest benefit.

So, there is substantial market investment. Interestingly enough, the vast majority of people who had responded to the UK Government's statement when I searched the web last night are strongly supportive, including environmental groups and establishments such as the Confederation of British Industry, of the idea that Britain

adnewyddadwy, ac mae'r strategaeth ar ynni adnewyddadwy a gyhoeddwyd gan Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf yn awgrymu y gellid buddsoddi gwerth £100 biliwn yn y sector ynni adnewyddadwy. Mae arnom eisiau hynny a allwn i ddod â chynifer ag sy'n bosibl o'r swyddi hyn i Gymru, yn enwedig yn y sector gweithgynhyrchu.

Yr wyf yn falch eich bod wedi sôn am gyfraniad y ddau hyrwyddwr newid hinsawdd. Mae gennym ddau hyrwyddwr allan o chwech yn bresennol ym mhob cyfarfod. Mae'n rhaglen dreigl, gan fod angen inni sicrhau bod pob un o'r hyrwyddwyr yn cael cyfle i eistedd wrth fwrdd lefel uchel gyda'r rhai sy'n cyfrannu at wneud penderfyniadau pwysig. Yr oedd eu cyfraniad yn effeithiol iawn, ac yr oeddent hefyd yn herio'r oedolion a oedd wrth y bwrdd i sicrhau bod yr oedolion hynny'n ystyried pobl ifanc o ran sut y maent yn bwrw ymlaen â'r agenda hon, ac yr oedd hynny'n bwysig iawn.

Dywedwyd wrthym yn glir iawn mai'r dechnoleg fwyaf datblygedig o ran ynni adnewyddadwy morol yw ffermydd gwynt ar y môr, a'r un modd, mai'r dechnoleg fwyaf datblygedig o ran ynni adnewyddadwy ar y tir yw ynni gwynt. Yr oedd aelodau'r comisiwn yn deall yn iawn fod angen defnyddio technolegau ynni adnewyddadwy o bob math. Agwedd arall ar agenda'r Llywodraeth, a lansiwyd yr wythnos diwethaf yn y strategaeth ar ynni adnewyddadwy, yw y bydd cyflawni'r cynigion a gyflwynwyd yn arwain at ymestyn a chynyddu'r ymrwymiad i ynni adnewyddadwy, gan annog hyd at 30 y cant i 35 y cant o drydan i ddod o adnoddau adnewyddadwy erbyn 2020 ledled y Deyrnas Unedig. Mae'r ymrwymiad i ynni adnewyddadwy wedi ailfandio technolegau ynni adnewyddadwy morol, yn enwedig technolegau morglawdd morlyn, er mwyn iddynt gael y budd mwyaf.

Felly, mae llawer o fuddsoddi yn y farchnad. Yn ddiddorol iawn, mae'r rhan fwyaf o'r bobl a oedd wedi ymateb i ddatganiad Llywodraeth y DU pan edrychais ar y we neithiwr yn gefnogol iawn, gan gynnwys grwpiau amgylcheddol a sefydliadau fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, i'r syniad y dylai Prydain wneud y

should take these renewable energy decisions, because although there may be some price increases in the short term—and they are seen to be minimal—in the long term the price will be much cheaper because they are renewable technologies and build on energy security.

On meeting our targets, part of the reason why I ensure that I report to the Assembly soon after we have a Commission meeting is to give you a flavour of the difficult debates. That is because we have to deliver on our very public commitment to reduce emissions year on year, and you do not get the information for the year just gone on 31 March—you often have to wait, sometimes up to 18 months, to get the data on how you should move forward. Also, if you have an incredibly cold winter, it can dramatically affect the information coming forward. So, I have left the propositions to the experts because, as a Government, we must be satisfied that we have a set of measures to achieve the targets on which we can engage with the people of Wales, so that people feel that we are delivering on our manifesto commitment. So, I can give you a guarantee that we are leaving it to the experts so that we can find the right mechanism for delivering on our targets.

Jane Davidson: The Pitt report was published alongside an influential report from the Institute of Civil Engineers. Both reports say that, because we will have flooding, we cannot just build higher defences; we are going to have to manage our flood arrangements differently. The Pitt report and the ICE report will remain as ongoing items in terms of the commission's work, particularly for the adaptation sub-group, which focuses on action that can be taken to mitigate the effects of flooding.

Leanne Wood: Thank you for your statement, Minister. The Wales spatial plan must ensure that the right developments happen in the right places and do not damage the environment. Could clarify how the Wales spatial plan will be the main means of

penderfyniadau hyn ynglŷn ag ynni adnewyddadwy, oherwydd er y gellid disgwyl rhywfaint o gynnydd mewn prisiau yn y tymor byr—a chredir mai bach iawn fydd y cynnydd—bydd y pris yn llawer rhatach yn y tymor hir gan eu bod yn dechnolegau adnewyddadwy a chan eu bod yn adeiladu ar ddiogelwch ynni.

O ran cyrraedd ein targedau, rhan o'r rheswm pam yr wyf yn sicrhau fy mod yn adrodd i'r Cynulliad yn fuan ar ôl i'r Comisiwn gyfarfod yw er mwyn dangos ichi mor anodd yw'r dadleuon. Un rheswm dros hyn yw ei bod yn ofynnol inni gyflawni'n hymrwymiad cyhoeddus iawn i leihau allyriadau y naill flwyddyn ar ôl y llall, ac nid ydych yn cael y wybodaeth am y flwyddyn sydd newydd ddod i ben ar 31 Mawrth—yn aml iawn rhaid ichi aros, hyd at 18 mis weithiau, er mwyn cael y data ynglŷn â sut y dylech symud ymlaen. Yn ogystal, os cewch aeaf anhygoel o oer, gall gael effaith syfrdanol ar y wybodaeth a gyflwynir. Felly, yr wyf wedi gadael y cynigion i'r arbenigwyr oherwydd, fel Llywodraeth, rhaid inni fod yn sicr bod gennym gyfres o fesurau i gyflawni'r targedau y gallwn ymgysylltu â phobl Cymru yn eu cylch, fel y bydd pobl yn teimlo ein bod yn cyflawni'r ymrwymiad a oedd yn ein maniffesto. Felly, gallaf eich sicrhau ein bod yn gadael pethau i'r arbenigwyr fel y gallwn gael y mecanwaith priodol er mwyn cyrraedd ein targedau.

Jane Davidson: Cyhoeddwyd adroddiad Pitt yr un pryd ag adroddiad dylanwadol gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil. Mae'r ddau adroddiad yn dweud, am y byddwn yn cael llifogydd, na allwn godi amddiffynfeydd uwch yn unig; byddwn yn gorfod rheoli ein trefniadau ar gyfer llifogydd yn wahanol. Bydd adroddiad Pitt ac adroddiad yr ICE yn cael eu hystyried yn barhaus yng nghydestun gwaith y comisiwn, yn enwedig yn achos yr is-grŵp addasu, sy'n canolbwyntio ar gamau y gellir eu cymryd i liniaru effeithiau llifogydd.

Leanne Wood: Diolch i chi am eich datganiad, Weinidog. Rhaid i gynllun gofodol Cymru sicrhau bod y datblygiadau priodol yn digwydd yn y lleoedd priodol ac nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd. A allech egluro sut y bydd cynllun gofodol

delivering action to combat climate change?

Cymru'n brif gyfrwng i gymryd camau i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd?

Would you be prepared to agree to the development and publication of a climate change programme for Wales, to include a greenhouse gases emissions reduction plan and a schedule of adaptation measures with designated lead responsibilities?

A fydddech yn barod i gydsynio â datblygu a chyhoeddi rhaglen newid yn yr hinsawdd i Gymru, a fydd yn cynnwys cynllun i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a rhestr o fesurau addasu a'r cyfrifoldebau arweiniol wedi'u dynodi?

Finally, we in Plaid Cymru would like to see the emissions reduction plan incorporate a carbon budgeting approach, with much steeper emissions reductions targeted for the earlier years, reflecting calculations presented to the commission by the Tyndall Centre for Climate Change Research. Have you given any consideration to that?

Yn olaf, byddem ni ym Mhlaid Cymru yn hoffi gweld y cynllun i leihau allyriadau'n cynnwys cyllidebau carbon, gyda thargedau ar gyfer gostyngiadau llawer cyflymach mewn allyriadau yn y blynyddoedd cyntaf, gan adlewyrchu'r cyfrifiadau a gyflwynwyd i'r comisiwn gan Ganolfan Tyndall ar gyfer Ymchwilio i'r Newid yn yr Hinsawdd. A ydych wedi ystyried hynny o gwbl?

Jane Davidson: The spatial plan is an extremely important tool in delivering a whole range of Assembly Government responsibilities. In the context of the town and country planning system, the local development plan, which will be produced at the local authority area and national park area level, will guide planning obligations.

Jane Davidson: Mae'r cynllun gofodol yn offeryn pwysig iawn i gyflawni amryw o gyfrifoldebau Llywodraeth y Cynulliad. Yng nghyd-destun y system cynllunio gwlad a thref, bydd y cynllun datblygu lleol, a gynhyrchir ar lefel ardaloedd awdurdodau lleol ac ardaloedd parciau cenedlaethol, yn llywio'r rhwymedigaethau cynllunio.

What I have described to you today with regard to the delivery of our 3 per cent target is our greenhouse gas reduction plan, as signed up to by both parties in the Assembly Government. There is a representative from the Tyndall Centre for Climate Change Research on our commission and he has indicated strong support for the way in which we are taking this agenda forward in Wales.

Yr hyn yr wyf wedi'i ddisgrifio i chi heddiw mewn cysylltiad â chyrraedd ein targed o 3 y cant yw ein cynllun i leihau nwyon tŷ gwydr, fel y cytunwyd arno gan y ddwy blaid sydd yn Llywodraeth y Cynulliad. Mae cynrychiolydd o Ganolfan Tyndall ar gyfer Ymchwilio i'r Newid yn yr Hinsawdd ar ein comisiwn ac mae wedi mynegi cefnogaeth gref i'r modd yr ydym yn hyrwyddo'r agenda hon yng Nghymru.

The carbon budget approach will be legislated for. The climate change committee, which will advise the UK Government and all the devolved administrations, will be making recommendations in December regarding the carbon budget and the contribution of aviation and shipping. Those will be built into legislative requirements that are coming through the Climate Change Bill.

Deddfir ar gyfer dull y gyllideb garbon. Bydd y pwyllgor ar y newid yn yr hinsawdd, a fydd yn cynghori Llywodraeth y DU a'r holl weinyddiaethau datganoledig, yn gwneud argymhellion ym mis Rhagfyr ynghylch y gyllideb garbon a'r cyfraniad gan awyrennau a llongau. Bydd y rheini'n cael eu cynnwys mewn gofynion deddfwriaethol sy'n dod drwy'r Mesur Newid yn yr Hinsawdd.

Michael German: We welcome this statement today and are pleased to have an update. I am slightly uneasy about the words on the second page of your statement:

Michael German: Yr ydym yn croesawu'r datganiad hwn heddiw ac yr ydym yn falch o gael diweddariad. Yr wyf yn anesmwyth braidd ynghylch y geiriau ar ail dudalen eich datganiad:

'I will be announcing a package of planning and climate change measures later this week, following the consultation "Planning for Climate Change".'

Byddaf yn cyhoeddi pecyn o fesurau ar gynllunio a'r newid yn yr hinsawdd yn ddiweddarach yr wythnos hon, yn dilyn yr ymgynghoriad "Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd".

I wonder whether it might have been more appropriate to combine this statement today with a statement on that package of measures so that we could have scrutinised you on the measures you are proposing to take. I assume that that announcement will not be made in the Chamber or before a Committee and, therefore, it will be some time before we will be able to scrutinise it. This is a technical matter with which I am sure the business manager will be able to help you.

Yr wyf yn meddwl tybed a fuasai'n fwy priodol cyfuno'r datganiad hwn heddiw â datganiad am y pecyn mesurau hwnnw fel y byddem wedi gallu'ch holi am y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd. Cymeraf na wneir y cyhoeddiad hwnnw yn y Siambr neu gerbron Pwyllgor ac, felly, y bydd cryn amser cyn y byddwn yn gallu craffu arno. Mae hyn yn fater technegol yr wyf yn siŵr y bydd y rheolwr busnes yn gallu'ch helpu arno.

4.20 p.m.

You have previously echoed Mick Bates's words in saying that it is all very well using bold words but that we should be measured by what we do rather than by what we say. We need to check your view on this 3 per cent carbon emissions target that Darren mentioned earlier. It is easy to have a target; it is delivering it that is difficult, and it is the strategy for achieving that target that is important. If we wait until 2009 for your commission to deliver the pathway for how we will approach this 3 per cent target, the kick start will be missing in terms of getting your target in place for 2010. You may recall that the commitment, as I understand it, is to produce 4 TWh of our electricity from renewable sources by 2010. However, according to the last figures available on this, we were less than halfway there, producing only 1.79 TWh. The year 2010 is not that far away. Do you still believe that the 2010 target can be reached? If so, how would you expect it to be reached, given that your commission will not give you the full pathway until 2009?

Yr ydych wedi ategu geiriau Mick Bates o'r blaen wrth ddweud ei bod yn ddigon hawdd siarad yn eofn ond y dylem gael ein barnu yn ôl yr hyn yr ydym yn ei wneud yn hytrach na'r hyn yr ydym yn ei ddweud. Mae angen inni'ch holi am eich barn am y targed hwn o 3 y cant ar gyfer allyriadau carbon y soniodd Darren amdano'n gynharach. Mae'n hawdd gosod targed; ei gyrraedd yw'r peth anodd, a'r strategaeth ar gyfer cyrraedd y targed hwnnw sy'n bwysig. Os arhoswn tan 2009 i'ch comisiwn gynnig y llwybr ar gyfer cyrraedd y targed hwn o 3 y cant, ni fydd symbyliad i osod eich targed ar gyfer 2010. Efallai y cofiwch mai'r ymrwymiad, fel yr wyf fi'n ei ddeall, yw cynhyrchu 4 awr terrawatt o'n trydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010. Er hynny, yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael ynghylch hyn, yr oeddem wedi mynd lai na hanner y ffordd at hynny, ac yn cynhyrchu dim ond 1.79 awr terrawatt. Nid yw'r flwyddyn 2010 yn bell i ffwrdd. A ydych yn dal i gredu y gellir cyrraedd y targed ar gyfer 2010? Os ydych, sut y byddech yn disgwyl ei gyrraedd, o gofio na fydd eich comisiwn yn rhoi'r llwybr llawn i chi tan 2009?

While your commission is giving you information, you have had some guidance from the Sustainability Committee. One of the biggest problems that you face is that, although most of our development on buildings is fine for new buildings, two thirds

Er bod eich comisiwn yn rhoi gwybodaeth i chi, yr ydych wedi cael rhywfaint o arweiniad gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd. Un o'r problemau mwyaf yr ydych yn eu hwynebu yw, er bod y rhan fwyaf o'n datblygu ar adeiladau'n iawn ar gyfer adeiladau newydd,

of the properties that will be standing in 2050 are already built. Therefore, if we are to make an impact on the reduction of the carbon footprint through buildings, which, I think, everyone accepts is important, we will have to do something about our existing building stock. I note your view that work should be undertaken in this area, but what programme do you have in mind for tackling one of the biggest areas that you need to tackle to meet that carbon footprint target and the 3 per cent target that you have given yourself?

The other area that I want to raise is that of feed-in tariffs. I know that this is not entirely in your hands, but it is crucial to microgeneration. Unless people are going to be attracted to putting their electricity generation back into the grid, they will never achieve the payback time to make it worthwhile installing microgeneration devices. I always find it amazing—and I am sure that everyone here knows it—that Wales has the largest photovoltaic cell production in Europe, in Wrexham, yet 80 per cent of its production goes to Germany, because Germany has feed-in tariffs, which allow the structure of the industry to be developed because people have that opportunity to feed their electricity in. What progress have you made on that? Alongside that is the matter of the grid, because there is no point in having a tariff to feed back into the grid unless you have access to the grid. Will the commission look specifically at this issue so that we can realise our full potential in terms of producing our own energy by renewable forces? Also, what plans does the commission have to extend the scope of its work to advise on a holistic plan of action to address climate change, given that there are now so many different areas?

I am grateful for your acceptance of the ecological footprint as the way in which we should measure. If we take that as our challenge, there will be a number of different routes and approaches to it. Have you extended your commission's remit to ensure that it can give you full advice on that area?

I know that you now have several sub-groups

fod dwy ran o dair o'r adeiladau a fydd yn sefyll yn 2050 wedi'u codi eisoes. Felly, os ydym i gael effaith ar leihau'r ôl-troed carbon drwy adeiladau, sy'n rhywbeth y mae pawb yn derbyn ei fod yn bwysig, yr wyf yn credu, bydd yn rhaid inni wneud rhywbeth ynghylch ein stoc adeiladau bresennol. Sylwaf ar eich barn i'r perwyl y dylid ymgymryd â gwaith yn y maes hwn, ond pa raglen sydd gennych dan sylw i ddelio ag un o'r meysydd mwyaf y mae angen ichi ddelio ag ef er mwyn cyrraedd y targed hwnnw ar gyfer yr ôl-troed carbon a'r targed o 3 y cant yr ydych wedi'u gosod i chi'ch hun?

Y maes arall y dymunaf sôn amdano yw tariffau bwydo i mewn. Gwn nad yw hyn yn dan eich gofal chi'n llwyr, ond mae'n hollbwysig ar gyfer microgynhyrchu. Oni chymhellir pobl i roi'r trydan y maent yn ei gynhyrchu'n ôl i'r grid, ni fyddant byth yn sicrhau'r amser ad-dalu i'w gwneud yn fuddiol gosod dyfeisiau microgynhyrchu. Byddaf yn rhyfeddu bob amser—ac yr wyf yn siŵr bod pawb sydd yma'n gwybod hyn—mai Cymru sydd â'r gwaith cynhyrchu celloedd ffotofoltäig mwyaf yn Ewrop, yn Wrecsam, ac eto aiff 80 y cant o'i gynnrych i'r Almaen, gan fod tariffau bwydo i mewn gan yr Almaen, sy'n caniatáu datblygu strwythur y diwydiant gan fod cyfle gan bobl i fwydo eu trydan i mewn. Pa gynnydd yr ydych wedi'i wneud ar hynny? Ochr yn ochr â hynny mae mater y grid, gan nad oes diben cael tariff i fwydo'n ôl i'r grid os nad oes gennych fynediad at y grid. A fydd y comisiwn yn ystyried y mater penodol hwn fel y gallwn wireddu ein potensial yn llawn o ran cynhyrchu ein hynni ein hunain drwy rymoedd adnewyddadwy? Hefyd, pa gynlluniau sydd gan y comisiwn i ehangu cwmpas ei waith i roi cyngor ar gynllun gweithredu cyfannol i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd, gan fod cynifer o feysydd gwahanol yn awr?

Yr wyf yn ddiolchgar eich bod yn derbyn mai'r ôl-troed ecolegol yw'r modd y dylem fesur. Os cymerwn mai hynny yw'r her inni, bydd nifer o wahanol lwybrau a dulliau o'i drafod. A ydych wedi ehangu cylch gwaith eich comisiwn i sicrhau y gall eich cynghori'n llawn ar y maes hwnnw?

Gwn fod gennych amryw o is-grwpiau'n awr

looking at the 3 per cent target. Perhaps you could update us on when you would expect the commission to be able to tell us what programmes it suggests that you put in place to meet that target.

Jane Davidson: Your contribution demonstrates the difficulty that there is in this area, because there are several different targets in the context of this agenda. I have always specifically said that we are not talking about a carbon emissions target, and I have reported to the Assembly previously that we are looking at a greenhouse gas emission target, and the commission warmly supported that.

The strategy for the 3 per cent reduction in emissions is from 2011, and the work of the commission will ensure that we have an appropriate strategy in place to be tested through the Assembly and others, and that will lead to a full consultation that will be ready for delivery from 2011. That is not to be confused—and I think that you had confused the two—with the TAN 8 targets.

The Sustainability Committee was absolutely right, and I very much applauded its intention to focus on the residential sector in terms of national energy efficiency and appropriate savings. The ecological footprint on which I have already reported to the Assembly makes it clear that the residential sector has the largest ecological footprint and, therefore, we need to take major action there. That is why, as I announced, we will be producing a national energy efficiency and savings plan in the autumn. In fact, I am having a fuel poverty summit follow-up in the next few weeks with Ministers from across the UK to look particularly at those issues. I have been pleased to announce that we have been given an additional £1 million from our colleagues in the Department for Business, Enterprise and Regulatory Reform for the low-carbon building programme, to bring microgeneration to fuel-poor households.

You may want to have a look in some detail

sy'n ystyried y targed o 3 y cant. Efallai y gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch pryd y disgwyliech i'r comisiwn allu dweud wrthym pa raglenni y mae'n awgrymu y dylech eu rhoi ar waith i gyrraedd y targed hwnnw.

Jane Davidson: Mae eich cyfraniad yn dangos yr anhawster a geir yn y maes hwn, gan fod amryw o dargedau gwahanol yng nghyd-destun yr agenda hon. Yr wyf yn wastad wedi dweud yn benodol nad ydym yn sôn am darged ar gyfer allyriadau carbon, ac yr wyf wedi adrodd i'r Cynulliad o'r blaen ein bod yn ystyried targed ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr, a chefnogodd y comisiwn hynny'n frwd.

Mae'r strategaeth ar gyfer y gostyngiad o 3 y cant mewn allyriadau'n dechrau yn 2011, a bydd gwaith y comisiwn yn sicrhau bod gennym strategaeth briodol i'w harchwilio gan y Cynulliad ac eraill, a bydd hynny'n arwain at ymgynghoriad llawn a fydd yn barod i'w gyflwyno o 2011. Ni ddylid cymysgu rhwng hynny—a chredaf eich bod wedi cymysgu rhwng y ddau—a'r targedau yn TAN 8.

Yr oedd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn llygad ei le, a chanmolais yn fawr ei fwriad i ganolbwyntio ar y sector preswyl yng nghyd-destun effeithlonrwydd ynni cenedlaethol ac arbedion priodol. Mae'r ôl-troed ecolegol yr wyf wedi adrodd arno i'r Cynulliad eisoes yn dangos mai'r sector preswyl sydd â'r ôl-troed ecolegol mwyaf ac, felly, mae angen inni gymryd camau sylweddol yn y maes hwnnw. Dyna pam, fel y cyhoeddais, y byddwn yn cynhyrchu cynllun cenedlaethol ar gyfer effeithlonrwydd ac arbedion ynni yn yr hydref. Mewn gwirionedd, byddaf yn cymryd rhan mewn cyfarfod yn sgîl yr uwchgynhadledd ar dlodi tanwydd yn yr wythnosau nesaf gyda Gweinidogion o bob rhan o'r DU i ystyried y materion hynny'n benodol. Yr oeddwn yn falch o gyhoeddi ein bod wedi cael £1 miliwn yn ychwanegol gan ein cydweithwyr yn yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio ar gyfer y rhaglen adeiladu carbon isel, i ddod â microgynhyrchu i gartrefi lle y mae tlodi tanwydd.

Efallai y byddwch am edrych yn eithaf

at the renewable energy strategy that was published last week, because it proposes a consultation on feed-in tariffs in terms of microgeneration, which I would warmly welcome. The strategy, as Jonathan Porrit has fully acknowledged, also looks at some of the issues that came up in the Sustainable Development Commission's report, 'Lost in Translation', which is about access to the grid. It includes some exciting propositions that would dramatically change the pace of that relationship.

The terms of reference for the commission are that it will provide leadership to contribute to tackling the causes and consequences of climate change in Wales; build a consensus on the action needed in Wales to address climate change; support the delivery of those actions; advise on the development of Assembly Government policies and programmes and monitor progress; network and share advice on best practice; and develop scenarios for climate change action in Wales. Those terms of reference have been agreed by commission members and have previously been reported to the Assembly in Plenary session. I am sure that that scope allows any activity that will help us, with the contribution from the commission, to take our important decisions forward in this field.

manwl ar y strategaeth ar ynni adnewyddadwy a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, gan ei bod yn cynnig ymgynghoriad ar dariffau bwydo i mewn yng nghyd-destun microgynhyrchu, y byddwn yn ei groesawu'n frwd. Mae'r strategaeth yn edrych hefyd, fel y mae Jonathan Porrit wedi llwyr gydnabod, ar rai o'r materion a gododd yn adroddiad y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, 'Lost in Translation', sy'n ymwneud â mynediad at y grid. Mae'n cynnwys rhai cynigion cyffrous a fyddai'n newid cyflymder y berthynas honno'n sylweddol.

Cylch gorchwyl y comisiwn yw y bydd yn rhoi arweiniad i gyfrannu at ddelio ag achosion a chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru; yn meithrin consensws ar y camau y mae angen eu cymryd yng Nghymru i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd; yn rhoi cymorth i gymryd y camau hynny; yn rhoi cyngor ar ddatblygu polisiau a rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad ac yn monitro cynnydd; yn rhwydweithio ac yn rhannu cyngor ar yr arferion gorau; ac yn datblygu senarios ar gyfer gweithredu ynghylch newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Mae aelodau'r comisiwn wedi cytuno ar y cylch gorchwyl hwnnw a rhoddwyd gwybod amdano o'r blaen i'r Cynulliad mewn Cyfarfod Llawn. Yr wyf yn siŵr bod y cyfle hwnnw'n caniatáu unrhyw weithgarwch a fydd yn ein helpu, gyda'r cyfraniad gan y comisiwn, i fwrw ymlaen â'n penderfyniadau pwysig yn y maes hwn.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.27 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.27 p.m.*

Dadl ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd (2007-2013) Debate on the European Structural Fund Programmes (2007-2013)

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 2 in the name of Kirsty Williams, and amendments 3 and 4 in the name of William Graham.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Kirsty Williams, a gwelliannau 3 a 4 yn enw William Graham.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Cynigiad fod

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I propose that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

the National Assembly for Wales:

yn cefnogi cynnydd llwyddiannus rhaglenni'r cronfeydd strwythurol 2007 i 2013 yng Nghymru, o'r gwaith o'u datblygu i'w cyflawni, a fydd yn helpu i hyrwyddo twf a swyddi cynaliadwy yn unol â 'Chymru'n Un' ac agendâu Lisbon a Gothenburg yr Undeb Ewropeaidd. (NDM3975)

supports the successful progress, from the development to delivery, of the structural funds programmes 2007 to 2013 in Wales, which will help promote sustainable growth and jobs in line with 'One Wales' and the European Union's Lisbon and Gothenburg agendas. (NDM3975)

Yr wyf yn croesawu'r cyfle hwn i drafod rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar gyfer y cyfnod 2007 i 2013. Mae'n bleser gennyf gynnig y cynnig fel y mae wedi'i osod ar yr agenda. Byddaf yn gofyn i Aelodau'r Cynulliad wrthod y pedwar gwelliant sydd wedi eu rhoi gerbron, a byddaf yn egluro pahan yn nes ymlaen.

I welcome this opportunity to discuss the European structural funds programme for 2007 to 2013. It is a pleasure to propose the motion on the agenda. I will be asking Assembly Members to reject the four amendments laid, and I will explain why later on.

Fel yr ydym oll yn gwybod, mae Cymru yn elwa ar bron i £3.6 biliwn, sef cyfanswm yr arian sydd wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau o dan y rhaglen cronfeydd strwythurol rhwng 2007 a 2013. Cymru oedd y rhanbarth cyntaf yn y Deyrnas Gyfunol, ac un o'r rhai cyntaf yn Ewrop, i sicrhau bod y Comisiwn Ewropeaidd yn cytuno'n gyfreithiol ar ei holl raglenni cronfeydd strwythurol. Mae'r rhaglenni hyn yn gydnaws ag agendâu Lisbon a Gothenburg, o ran sicrhau swyddi a thwf cynaliadwy, ac mae llawer mwy o arian wedi'i fuddsoddi. I atgoffa ein hunain, prif benawdau agendâu Lisbon a Gothenburg yw'r angen i fuddsoddi ym maes ymchwil a datblygu ac arloesi; yr angen i godi lefelau sgiliau; a'r angen i helpu mwy o bobl sy'n anweithgar yn economaidd i gael gwaith cynaliadwy. Fel mae'n digwydd, mae'r blaenoriaethau hynny hefyd yn flaenoriaethau i'r Llywodraeth bresennol.

As we all know, Wales is benefiting from almost £3.6 million, which is the total funding invested in projects under the structural funds programme between 2007 and 2013. Wales was the first region in the United Kingdom, and one of the first in Europe, to ensure that the European Commission agreed legally on all of its structural funds programmes. These programmes are in accordance with the Lisbon and Gothenburg agendas in terms of ensuring employment and sustainable growth, and a lot more money has been invested. To remind ourselves, the main headings of the Lisbon and Gothenburg agendas are the need to invest in the field of research, development and innovation; the need to raise skills levels; and the need to help more people who are economically inactive to get sustainable employment. As it happens, those principles are also the principles of the current Government.

Mae'r rhaglenni yn wahanol y tro hwn, oherwydd eu bod wedi'u seilio ar wersi sydd wedi'u dysgu, maent yn canolbwyntio'n fwy ar gydweithio a chyflawni strategol, sydd yn arwain at lai o brosiectau, mae mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth, ac mae llai o ddyblygu gweithgareddau. Bydd y prosiectau sy'n cael eu cymeradwyo yn rhoi blaenoriaethau'r rhaglen weithredol ar waith, yn gydnaws â strategaethau Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys, wrth gwrs, ymrwymiadau 'Cymru'n Un', er mwyn sicrhau swyddi a thwf cynaliadwy.

The programmes are different this time, because they are based on lessons learned, they focus more on collaboration and strategic delivery, which leads to there being fewer projects, there is more emphasis on working in partnership, and there is less duplication of activity. The projects that will be approved will put the action programme's priorities in place, in accordance with the Assembly Government's strategy, including, of course, the 'One Wales' commitments, in order to ensure employment and sustainable growth.

4.30 p.m.

Mae'n falch gennyf ddweud y gwnaed y penderfyniad eisoes i ariannu 27 prosiect, sef cyfanswm o ryw £504 miliwn, gyda'r Undeb Ewropeaidd yn cyfrannu £252 miliwn.

Some of those programmes include: £50 million for two research and development and innovation projects, which will enable industry and educational institutions to work together to turn cutting-edge ideas into commercially viable products; £36 million for the new business start-up support; £70 million for the new modern apprenticeship world-class skills project, which will help to raise the skill levels of the workforce in Wales; and £32 million for the next phase of the Want2Work project, which will help some 14,000 unemployed people to obtain employment or training in Wales's most deprived areas.

I am pleased to confirm today that an additional £11 million-worth scheme has been made available, with a contribution of £5.2 million from the European regional development fund, to transform Swansea's bus station, the Quadrant. That has now been approved. It will help to improve the quality of public transport in Swansea and south-west Wales, and will result in a modern, passenger-friendly service that will contribute to the city's regeneration.

During my visit to Llanelli yesterday, I was also pleased to announce a £19.3 million-worth project, with an ERDF grant contribution of almost £9 million, for businesses in south-west Wales. Based on collaboration between five local authorities, the project provides a streamlined and simplified approach to supporting business, which will complement the Government's own approach.

Three further projects have been approved by the Welsh European Funding Office, subject to its finalising its match funding arrangements. Two of those projects are from the voluntary sector and one is from the private sector. In addition to those approved projects, a further 133 potential projects are currently moving through WEFO's project

I am pleased to say that the decision has already been taken to fund 27 projects, totalling some £504 million, with the European Union contributing £252 million.

Mae rhai o'r rhaglenni hynny'n cynnwys: £50 miliwn ar gyfer dau brosiect ymchwil a datblygu ac arloesi, a fydd yn galluogi diwydiant a sefydliadau addysgol i weithio gyda'i gilydd i droi syniadau sydd ar flaen y gad yn gynhyrchion sy'n ddichonadwy'n fasnachol; £36 miliwn ar ffurf cymorth i fusnesau newydd sy'n dechrau; £70 miliwn i'r prosiect sgiliau newydd gyda'r gorau yn y byd ar gyfer prentisiaethau modern, a fydd yn helpu i godi lefelau sgiliau'r gweithlu yng Nghymru; a £32 miliwn i gam nesaf y prosiect Yn Awyddus i Weithio, a fydd yn helpu rhyw 14,000 o bobl ddi-waith i gael cyflogaeth neu hyfforddiant yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Yr wyf yn falch o gadarnhau hefyd fod cynllun ychwanegol gwerth £11 miliwn wedi cael ei ddarparu, gyda chyfraniad o £5.2 miliwn gan gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop, i drawsnewid gorsaf fysiau Abertawe, y Cwadrant. Mae hwnnw wedi cael ei gymeradwyo erbyn hyn. Bydd yn helpu i wella ansawdd cludiant cyhoeddus yn Abertawe ac yn y de-orllewin, a bydd yn arwain at wasanaeth modern, hwylus i deithwyr, a fydd yn cyfrannu at adfywio'r ddinas.

Yn ystod fy ymweliad â Llanelli ddoe, yr oeddwn yn falch hefyd o gyhoeddi prosiect gwerth £19.3 miliwn, gyda chyfraniad grant ERDF o bron £9 miliwn, ar gyfer busnesau yn y de-orllewin. Wedi'i seilio ar gydweithredu rhwng pum awdurdod lleol, mae'r prosiect yn darparu ffordd symlach o gynorthwyo busnes, a fydd yn ategu dull gweithredu'r Llywodraeth ei hun.

Mae tri phrosiect pellach wedi cael eu cymeradwyo gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, os bydd yn cwblhau trefniadau'r arian cyfatebol. Mae dau o'r prosiectau hynny o'r sector gwirfoddol ac un o'r sector preifat. Yn ychwanegol at y prosiectau hynny sydd wedi cael eu cymeradwyo, mae 133 arall o brosiectau

assessment process. More than 50 of them are now close to having a funding decision, and I look forward to making further announcements soon.

As part of the commitment in 'One Wales', we are also exploring new opportunities for co-operation with the European Investment Bank through the JEREMIE and JESSICA instruments. JEREMIE, the joint European resources for micro to medium enterprises initiative, is jointly financed by the ERDF, a European Investment Bank loan and private finance, and will establish a £150 million-worth investment fund that can support investment in small and medium-sized enterprises through loans and equity. That approach moves away from the grant culture and has been welcomed by the main business organisations. Its intention is to enable small business to have access to venture capital, which is often difficult to secure.

We are looking closely at other new initiatives, such as JESSICA, the joint European support for sustainable investment in city areas initiative, which can offer imaginative ways of combining structural funds with other private and public funding to deliver long-term integrated regeneration activity in Wales. Our feasibility study is currently under way, and I will report in early autumn.

Eleanor Burnham *rose*—

The Deputy First Minister: No, I will not give way, because of the time constraints.

Eleanor Burnham: Will you take an intervention?

The Deputy Presiding Officer: Order. Sit down, please, Eleanor. He is not taking interventions.

The Deputy First Minister: The two projects, JEREMIE and JESSICA, are innovative, and there is the possibility of their being all-Wales projects. What is interesting is that they will outlive the convergence programme period, because this money can

posibl yn mynd drwy broses asesu prosiectau WEFO ar hyn o bryd. Mae penderfyniad ynglŷn â chyllido bron â chael ei wneud ynghylch mwy na 50 ohonynt erbyn hyn, ac edrychaf ymlaen at wneud cyhoeddiadau pellach yn fuan.

Fel rhan o'r ymrwymiad yn 'Cymru'n Un', yr ydym hefyd yn archwilio cyfleoedd newydd i gydweithredu â Banc Buddsoddi Ewrop drwy offerynnau JEREMIE a JESSICA. Mae JEREMIE, y fenter cyd-adnoddau Ewropeaidd ar gyfer busnesau micro i ganolig, yn cael ei gyd-gyllido gan yr ERDF, benthyciad gan Fanc Buddsoddi Ewrop a chyllid preifat, a bydd yn sefydlu cronfa fuddsoddi sy'n werth £150 miliwn a all gefnogi buddsoddi mewn busnesau bach a chanolig drwy fenthyciadau ac ecwiti. Mae'r drefn honno'n symud oddi wrth y diwylliant grantiau ac mae wedi cael ei chroesawu gan y prif gyrff busnes. Ei bwriad yw galluogi busnesau bach i gael mynediad at gyfalaf menter, sydd yn aml yn anodd ei sicrhau.

Yr ydym yn edrych yn ofalus ar fentrau newydd eraill, megis JESSICA, y fenter cyd-gymorth Ewropeaidd ar gyfer buddsoddi cynaliadwy mewn ardaloedd dinesig, sy'n gallu cynnig ffyrdd dychmygus o gyfuno cronfeydd strwythurol â chyllid preifat a chyhoeddus arall i gyflawni gweithgarwch adfywio integredig hirdymor yng Nghymru. Mae ein hastudiaeth ddichonoldeb ar y gweill ar hyn o bryd, a byddaf yn adrodd yn gynnar yn yr hydref.

Eleanor Burnham *a gododd*—

Y Dirprwy Brif Weinidog: Na, nid ildiaf, oherwydd y cyfyngiadau o ran amser.

Eleanor Burnham: A dderbyniwch ymyriad?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Eisteddwch, os gwelwch yn dda, Eleanor. Nid yw'n derbyn ymyriadau.

Y Dirprwy Brif Weinidog: Mae'r ddau brosiect, JEREMIE a JESSICA, yn arloesol, ac mae posiblwydd iddynt fod yn brosiectau i Gymru gyfan. Yr hyn sy'n ddiddorol yw y byddant yn goroesi cyfnod y rhaglen gydgyfeirio, oherwydd gall yr arian hwn gael

be recycled for the benefit of Welsh businesses.

Finally, I am pleased to advise the Assembly that six projects have been approved in principle under the first round of the Ireland-Wales cross-border programme, with an indicative grant commitment of around £5 million.

The Assembly Government has also announced its ongoing commitment to providing a targeted match funding scheme, which combines the old Progress through Partnership and local regeneration funds, and which will be available to support all structural fund programmes. It will be a £350 million-worth fund, available during the 2007-13 programming period, which is the same amount as that provided for the 2000-06 programmes. However, I must make it clear that this is a funding pot of last resort. Local government, third sector, social partner and private sector organisations will be the main beneficiaries of the targeted match funding. However, a great deal of the match funding will be made available either through the Assembly's departmental budgets, the private sector, local authorities or the voluntary sector. Therefore, as I stressed, it must be regarded as a fund of last resort.

The 2007-13 structural fund programmes have a much stronger focus on jobs and growth, and will be implemented through fewer, more strategic projects. That is not to say that there will be less activity; we will continue to work with our partners in local government, education, environment, the voluntary and private sectors to deliver our joint commitments and to achieve the Government's pledges in 'One Wales' for a stronger economy for all.

I will now deal with the amendments briefly. The two from William Graham, amendments 3 and 4, are rather superfluous, as we have already involved the private sector and intend to spend the resources available in full. Therefore, we ask the Assembly to vote against those.

I can announce today that the Ebbw Vale

ei ailgylchu er budd busnesau Cymru.

Yn olaf, yr wyf yn falch o ddweud wrth y Cynulliad fod chwe phrosiect wedi cael eu cymeradwyo mewn egwyddor o dan gylch cyntaf rhaglen drawsffiniol Iwerddon a Chymru, gydag ymrwymiad grant dangosol o tua £5 miliwn.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyhoeddi ei hymrwymiad parhaus i ddarparu cynllun arian cyfatebol a dargedir, sy'n cyfuno'r hen gronfa Cynnydd drwy Bartneriaeth a'r cronfeydd adfywio lleol, a bydd ar gael i gefnogi holl raglenni'r cronfeydd strwythurol. Bydd yn gronfa sy'n werth £350 miliwn, ar gael yn ystod cyfnod rhaglennu 2007-13, sef yr un swm â'r hyn a ddarparwyd ar gyfer rhaglenni 2000-06. Fodd bynnag, rhaid imi ei gwneud yn glir mai pot arian pan fetha popeth arall ydyw. Llywodraeth leol, y trydydd sector, partneriaid cymdeithasol a chyrrff sector preifat fydd yn elwa'n bennaf o'r arian cyfatebol a dargedir. Fodd bynnag, bydd llawer o'r arian cyfatebol yn cael ei ddarparu un ai drwy gyllidebau adrannol y Cynulliad, y sector preifat, yr awdurdodau lleol neu'r sector gwirfoddol. Felly, fel y pwysleisiais, rhaid ei hystyried fel cronfa pan fetha popeth arall.

Mae ffocws llawer cryfach yn rhaglenni cronfeydd strwythurol 2007-13 ar swyddi a thwf, a byddant yn cael eu gweithredu drwy nifer lai o brosiectau mwy strategol. Nid yw hynny'n golygu y bydd llai o weithgarwch; byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid mewn llywodraeth leol, ym maes addysg, yr amgylchedd, a'r sectorau gwirfoddol a phreifat i wireddu ein cydymrwmiadau ac i gyflawni addunedau'r Llywodraeth yn 'Cymru'n Un' i sicrhau economi gryfach i bawb.

Ymdriniaf yn awr â'r gwelliannau. Mae'r ddau gan William Graham, gwelliannau 3 a 4, braidd yn ddiangen, gan ein bod eisoes wedi cynnwys y sector preifat a'n bod yn bwriadu gwario'r adnoddau sydd ar gael yn llawn. Felly, gofynnwn i'r Cynulliad bleidleisio yn erbyn y rheini.

Gallaf gyhoeddi heddiw fod Canolfan

Innovation Centre demonstrates the private sector benefiting from convergence funding, and I am pleased to confirm that the second phase of this successful project, with a total cost of £4.1 million, has been approved. That will provide 41 offices in 12 development units and create 195 jobs.

UK Steel Enterprise is working closely with Blaenau Gwent County Borough Council and the steelworks regeneration team, and it is hoped that these units will provide follow-on units for the proposed incubator units at the learning campus.

I do not think that I can accept the Liberal Democrats' amendments 1 and 2 either. On their amendment 1, more than 14 per cent of the programme's funding is already committed. I must say to the leader of the Liberal Democrat group that, when he was doing my job, just under 9 per cent of the funding for the Objective 1 programme had been committed at this stage.

As for amendment 2, we do not yet know how many additional sums will be available due to the strength of the euro. That may be a simple lesson in economics for the Liberal Democrats: currencies can go up as well as down. Contrary to some of the reports that have been in the press recently, I can say that the Welsh European Funding Office and other organisations are working very hard to ensure that all the money available is put to best use. I therefore ask the Assembly to reject the four amendments and to vote for the motion unamended.

Michael German: I propose the following amendments in the name of Kirsty Williams. Amendment 1: delete the words 'supports the successful' and replace with 'notes the slow'.

Amendment 2: add as a new point at the end of the motion:

notes with concern the Welsh Assembly Government's difficulty in spending the additional £40 million of European funding from the 2000 to 2006 programme.

Arloesedd Glynebwy yn dangos y sector preifat yn elwa o gyllid cydgyfeirio, ac yr wyf yn falch o gadarnhau bod ail gam y prosiect llwyddiannus hwn, y mae ei gost lawn yn £4.1 miliwn, wedi cael ei gymeradwyo. Bydd hynny'n darparu 41 o swyddfeydd mewn 12 uned ddatblygu ac yn creu 195 o swyddi.

Mae UK Steel Enterprise yn gweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a thîm adfywio'r gwaith dur, a'r gobaith yw y bydd yr unedau hyn yn darparu unedau dilynol ar gyfer yr unedau hybu arfaethedig ar y campws dysgu.

Ni chredaf y gallaf dderbyn gwelliannau 1 a 2 gan y Democratiaid Rhyddfrydol ychwaith. O ran gwelliant 1, mae mwy na 14 y cant o gyllid y rhaglen eisoes wedi cael ei neilltuo. Dywedaf wrth arweinydd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol, pan oedd ef yn gwneud fy swydd i, nad oedd ond ychydig llai na 9 y cant o'r cyllid ar gyfer rhaglen Amcan 1 wedi cael ei neilltuo yr adeg hon.

O ran gwelliant 2, ni wyddom eto faint o symiau ychwanegol a fydd ar gael oherwydd cryfder yr ewro. Efallai fod hynny'n wers syml mewn economeg i'r Democratiaid Rhyddfrydol: mae arian cyfredol yn gallu codi yn ei werth yn ogystal â gostwng. Yn groes i rai o'r adroddiadau a fu yn y wasg yn ddiweddar, gallaf ddweud bod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a chyrrff eraill yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod yr holl arian sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio yn y modd gorau. Felly, gofynnaf i'r Cynulliad wrthod y pedwar gwelliant a phleidleisio o blaid y cynnig heb iddo gael ei ddiwygio.

Michael German: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw Kirsty Williams. Gwelliant 1: dileu'r geiriau 'yn cefnogi cynnydd llwyddiannus' a rhoi 'yn nodi cynnydd araf' yn eu lle.

Gwelliant 2: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn nodi gyda phryder anhawster Llywodraeth Cynulliad Cymru i wario'r £40 miliwn ychwanegol o arian Ewropeaidd o'r rhaglen 2000 i 2006.

To correct the Deputy First Minister, if he compares the progress achieved during the time that he has been in post with that achieved during the time when I was in that same post, he will find that, in fact, he is about £20 million adrift. Of course, there were also around 397 projects to approve at that time, but that is another matter. That is about whether you take a strategic approach or a bottom-up approach to projects, which I will talk about in a moment.

The key issue is that there has been a substantive change in how projects are approved. If you take the projects that have been announced—and I accept that the Deputy First Minister is allowed to make announcements in the Chamber on information that has not yet been published by WEFO—you see that all bar a few of them are managed and run by parts of the Welsh Assembly Government. The Government itself has approved projects and it is now taking responsibility for the vast majority of the money that is available.

I am sure that it will not take Members long to find people who are frustrated by this, and who say that, because we have this hugely structured approach with the Government very much in the driving seat, they are losing out on some of the benefits that we had previously. That was the advantage of taking the bottom-up approach to projects: they were developed in communities, where people are established. That is a crucial difference, and the Deputy First Minister may have thrown the baby out with the bath water by not recognising that there was value in that approach. If he looks at the documentation that was sent around when the proposals were put to the commission, he will find that there was going to be space for those individual, smaller scale projects that would help to develop our communities to be much stronger.

4.40 p.m.

The suspicion may be that if you, as a Government, are in the driving seat, taking the lion's share of this money, and managing it in whichever department, you have the advantage of being able to take on the match

I gywiro'r Dirprwy Brif Weinidog, os cymhara'r cynnydd a gyflawnwyd yn ystod yr amser y mae wedi bod yn ei swydd â'r hyn a gyflawnwyd pan oeddwn i yn yr un swydd, fe wêl ei fod, mewn gwirionedd, ryw £20 miliwn ohoni. Wrth gwrs, yr oedd tua 397 o brosiectau i'w cymeradwyo hefyd bryd hynny, ond mater arall yw hwnnw. Mae a wnelo hynny ag a ydych yn ymdrin â phrosiectau'n strategol ynteu o'r gwaelod i fyny, a siaradaf am hynny mewn munud.

Y mater allweddol yw bod newid sylweddol wedi bod o ran sut y mae prosiectau'n cael eu cymeradwyo. Os edrychwch ar y prosiectau sydd wedi cael eu cyhoeddi—ac yr wyf yn derbyn bod hawl gan y Dirprwy Brif Weinidog i wneud cyhoeddiadau yn y Siambr am wybodaeth nad yw eto wedi cael ei chyhoeddi gan WEFO—fe welwch eu bod i gyd ar wahân i nifer fach yn cael eu rheoli a'u rhedeg gan rannau o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Llywodraeth ei hun wedi cymeradwyo prosiectau ac yn awr mae'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y rhan fwyaf o ddigon o'r arian sydd ar gael.

Yr wyf yn siŵr na chymer lawer o amser i'r Aelodau ddod o hyd i bobl sy'n teimlo'n rhwystredig ynglŷn â hyn, ac sy'n dweud, oherwydd bod y dull hwn sy'n eithriadol o strwythuredig gennym, a'r Llywodraeth yn amlwg yn rheoli, eu bod hwy ar eu colled o safbwynt rhai o'r manteision a oedd gennym o'r blaen. Dyna oedd mantais ymdrin â phrosiectau drwy batrwm o'r gwaelod i fyny: yr oeddent yn cael eu datblygu mewn cymunedau, lle y mae pobl yn byw. Mae hynny'n wahaniaeth allweddol, ac efallai fod y Dirprwy Brif Weinidog wedi taflu'r llo a chadw'r brych drwy beidio â chydabod bod gwerth yn y dull hwnnw o fynd at. Dim ond iddo edrych ar y dogfennau a gylchredwyd pan gyflwynwyd y cynigion i'r comisiwn, fe wêl y byddai lle ar gyfer y prosiectau unigol, llai hynny a fyddai'n helpu i ddatblygu ein cymunedau fel y byddent yn llawer cryfach.

Efallai mai'r amheuaeth yw, os mai chi, fel Llywodraeth, sy'n llywio hyn, yn cymryd y rhan fwyaf o'r arian hwn, ac yn ei reoli ym mha adran bynnag, fod gennych y fantais o allu defnyddio'r potiau o arian cyfatebol sydd

funding pots that are available. However, if you are not the Welsh Assembly Government and you are trying to get this money together—unless you are part of a very big partnership—you are in some danger of being unable to find your way through that funding route. I ask the Deputy First Minister to ensure that he gives every support to the private and third sectors to enable them to take as much advantage as possible of this targeted match funding, to ensure that we have some bottom-up approaches.

The Deputy First Minister is well aware that, as of this week, WEFO has closed the doors on the old programmes, which means that people are being laid off. In various parts of the private sector, local government, and certainly the third sector, people are waiting for their approvals to get their projects through. There are, as you will know from the Wales Council for Voluntary Action, a large number of posts in the voluntary sector that are under threat this very day because they have not yet seen their projects come to fruition. There is a combination of top-downism and the Government's taking the lion's share of control. The Gov has a stranglehold on those who wish to see further development.

The second issue that I want to take up briefly is the matter of the territorial co-operation programme, which is very important to us. The Deputy First Minister has given us an indication of six projects. Since the details were not published and information regarding these projects is not on the WEFO website and so we do not know what they are, it is very difficult to know what the stretch has been for those projects. Do they spread, geographically, further into Wales than was the case before? It would have been helpful to have that information to go with the programme, because it could help us in our relationship with Ireland, developing projects further and deeper. There are much larger projects that are not simply the Wales-Ireland territorial co-operation, but which have come about as a result of the progress of the Atlantic arc, which is a part of the programme that the Deputy First Minister did not mention. It would be useful to know what is happening with those projects.

ar gael. Fodd bynnag, i rywrai ar wahân i Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n ceisio cael yr arian hwn at ei gilydd—oni bai eich bod yn rhan o bartneriaeth fawr iawn—mae cryn berygl na fyddwch yn gallu llwyddo drwy'r llwybr cyllido hwnnw. Gofynnaf i'r Dirprwy Brif Weinidog sicrhau ei fod yn rhoi pob cymorth i'r sector preifat a'r trydydd sector i'w galluogi i fanteisio cymaint ag sy'n bosibl ar yr arian cyfatebol hwn a dargedir, i sicrhau bod gennym rywfaint o weithredu o'r gwaelod i fyny.

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn ymwybodol iawn bod WEFO, o'r wythnos hon ymlaen, wedi cau'r drysau ar yr hen raglenni, sy'n golygu bod pobl yn cael eu diswyddo. Mewn gwahanol rannau o'r sector preifat, llywodraeth leol, ac yn sicr y trydydd sector, mae pobl yn aros am eu cymeradwyaethau er mwyn cael eu prosiectau drwodd. Mae llawer iawn o swyddi yn y sector gwirfoddol, fel y gwyddoch drwy Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, o dan fygythiad heddiw am nad ydynt eto wedi gweld eu prosiectau'n cael eu gwireddu. Mae cyfuniad o weithredu o'r brig i lawr a'r Llywodraeth yn cymryd y rhan fwyaf o'r rheolaeth. Mae gan y Llywodraeth afael haearnaidd ar y rhai sydd am weld datblygu pellach.

Yr ail fater yr wyf am ei godi'n fyr yw mater y rhaglen cydweithio tiriogaethol, sy'n bwysig iawn i ni. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi rhoi rhyw syniad inni am chwe phrosiect. Gan nad yw'r manylion wedi cael eu cyhoeddi ac nad oes gwybodaeth am y prosiectau hyn ar wefan WEFO ac nad ydym felly yn gwybod beth ydynt, mae'n anodd iawn gwybod i ba raddau y mae ymestyn wedi bod ar gyfer y prosiectau hynny. A ydynt yn ymledu, yn ddaearyddol, ymhellach i Gymru nag a oeddent o'r blaen? Byddai wedi bod o gymorth cael y wybodaeth honno i ganlyn y rhaglen, oherwydd gallai ein helpu yn ein perthynas ag Iwerddon, gan ddatblygu prosiectau ymhellach ac yn ddyfnach. Mae prosiectau llawer mwy y tu hwnt i'r cydweithio tiriogaethol rhwng Cymru ac Iwerddon, sydd wedi datblygu o ganlyniad i gynnydd bwa'r Iwerydd, sy'n rhan o'r rhaglen na soniodd y Dirprwy Brif Weinidog amdani. Byddai'n fuddiol gwybod beth sy'n digwydd gyda'r

I now turn to the £40 million.

The Deputy Presiding Officer: Order. Can you wind up, please? Five minutes have passed.

Michael German: I ask the Deputy First Minister to tell us when he winds up whether the Welsh Assembly Government spokesperson who reported to *Regeneration & Renewal* magazine was correct when he said that £20 million of the £40 million had already been spent, and so the match funding had been found for that. He went on to state that there is a further £22.5 million to invest that is currently under appraisal. Perhaps the Deputy First Minister could let us know whether that is accurate.

David Melding: I propose the following amendments in the name of William Graham. Amendment 3: add a new point at the end of the motion:

believes that a closer partnership with the private sector is necessary to secure the full benefit offered by EU structural funds.

Amendment 4: add a new point at the end of the motion:

recognises the need to utilise all available structural funds in the full.

Listening to the Deputy First Minister and the leader of the Welsh Liberal Democrat group was a bit like listening to that parlour game in which you have to argue passionately for 30 seconds in favour of the monarchy, or whatever, and then someone blows a whistle and you have to argue the diametrically opposite case. The Deputy First Minister referred to the full programme being worth £3.6 billion without a hint of match funds or whether there is any additionality in this principle. When he was leader of the opposition, he was regarded as something of a lion in tearing apart he who is now merely leader of the Welsh Liberal Democrat group but who was then Deputy First Minister himself, as well as in attacking Rhodri

prosiectau hynny.

Trof yn awr at y £40 miliwn.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allwch ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda? Mae pum munud wedi mynd heibio.

Michael German: Gofynnaf i'r Dirprwy Brif Weinidog ddweud wrthym pan fydd yn dirwyn i ben a oedd llefarydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a siaradodd â'r cylchgrawn *Regeneration & Renewal* yn gywir pan ddywedodd fod £20 miliwn o'r £40 miliwn eisoes wedi cael ei wario, ac felly fod yr arian cyfatebol wedi cael ei ganfod ar gyfer hynny. Aeth ymlaen i ddatgan bod £22.5 miliwn pellach i'w fuddsoddi sy'n cael ei arfarnu ar hyn o bryd. Efallai y gallai'r Dirprwy Brif Weinidog roi gwybod inni a yw hynny'n gywir.

David Melding: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw William Graham. Gwelliant 3: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu bod partneriaeth agosach gyda'r sector preifat yn angenrheidiol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gronfeydd strwythurol yr UE.

Gwelliant 4: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn cydnabod bod angen defnyddio'r holl gronfeydd strwythurol sydd ar gael yn llawn.

Yr oedd gwranddo ar y Dirprwy Brif Weinidog ac arweinydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru braidd fel gwranddo ar gêm barlwr lle y mae'n rhaid ichi ddadlau'n angerddol am 30 eiliad o blaid y frenhiniaeth, neu beth bynnag y bo, ac yna mae rhywun yn chwythu'r chwiban a rhaid ichi ddadlau'r safbwynt hollol groes. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y rhaglen lawn yn werth £3.6 biliwn heb arlliw o arian cyfatebol nac a oes elfen o ychwanegedd yn yr egwyddor hon. Pan oedd yn arweinydd yr wrthblaid, câi ei ystyried yn dipyn o lew yn ymosod yn chwym ar y sawl nad yw mwyach yn ddim ond arweinydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ond a oedd ar y pryd yn Ddirprwy Brif Weinidog ei hun, yn ogystal

Morgan's Government for its rather lacklustre approach. Only last year, when he was doing the deal with Rhodri Morgan, a very senior member of Plaid Cymru was telling him, 'If you argue for one thing above all before you clinch the deal and go into Government, get additionality for these European funds'. However, we rather skated over that. Plaid Cymru seems to have moved on from that matter of supreme principle with the customary ease of a party now used to government. Perhaps people can detect a note of jealousy in my tone, which is perhaps a reason for me to move swiftly on. [*Laughter.*]

European funds are particularly valuable. There is no doubt that, like Objective 1, this is a significant financial boost for the economy of Wales as a whole, but particularly for west Wales and the Valleys.

It is in everyone's interest that these resources are used to their maximum potential. It is also stating the obvious to point out that this is not a badge of honour; much of this money is coming to us because of our relative economic poverty. I also note a point that is not often mentioned: the regional funding programme is an important aspect of European policy, and about one-third of EU expenditure goes into regional programmes. Many people had predicted that we would not have this round of regional funding at all, so we need to commend the EU Governments for continuing the principle of regional spending. I hope that, in a few years, when they discuss possible successors to these programmes, we will be able to make the case for this type of programme to continue further.

I share Mike's concern that, again, we are off to a relatively slow start. I say that because I remember the Deputy First Minister's passion about the level of inactivity in the early stages, when Rhodri Morgan would say that the pace would quicken, and that a slow start was inevitable with these large funding projects. I am using the old figures—the Deputy First Minister has just referred to 27 projects being approved, but after 18 months,

ag ymosod ar Lywodraeth Rhodri Morgan am ei gweithredu di-fflach braidd. Y llynedd, pan oedd yn taro'r fargen gyda Rhodri Morgan, yr oedd aelod uchel iawn o Blaid Cymru yn dweud wrtho, 'Os ydych yn dadlau dros un peth uwchlaw popeth cyn taro'r fargen a chamu i Lywodraeth, mynnwch ychwanegedd ar gyfer y cronfeydd Ewropeaidd hyn'. Fodd bynnag, ni roesom fawr o sylw i hynny. Mae'n ymddangos bod Plaid Cymru wedi symud ymlaen o'r mater hwnnw o egwyddor eithaf gyda rhwyddineb arferol plaid sydd wedi arfer erbyn hyn â bod mewn llywodraeth. Efallai y gall pobl glywed nodyn o genfigen yn fy nhôn, ac mae hynny efallai yn rheswm imi symud ymlaen yn chwim. [*Chwerthin.*]

Mae'r cronfeydd Ewropeaidd yn arbennig o werthfawr. Nid oes amheuaeth nad yw hyn, fel Amcan 1, yn hwb ariannol sylweddol i economi Cymru gyfan, ond yn enwedig i'r gorllewin a'r Cymoedd.

Mae defnyddio'r adnoddau hyn hyd eithaf eu potensial er budd pawb. Datgan yr hyn sy'n amlwg y mae rhywun hefyd wrth bwysleisio nad nod anrhydedd yw hyn; daw llawer o'r arian hwn inni oherwydd ein tlodi economaidd cymharol. Sylwaf hefyd ar bwynt nas crybwyllir yn aml: mae'r rhaglen cyllid rhanbarthol yn agwedd bwysig ar y polisi Ewropeaidd, ac mae tua thraean gwariant yr UE yn mynd at raglenni rhanbarthol. Yr oedd llawer o bobl wedi darogan na fyddem yn cael y cylch hwn o gyllid rhanbarthol o gwbl, felly mae angen inni ganmol Llywodraethau'r UE am barhau ag egwyddor gwariant rhanbarthol. Yr wyf yn gobeithio, ymhen rhai blynyddoedd, pan fyddant yn trafod rhaglenni posibl i olynu'r rhaglenni hyn, y gallwn gyflwyno'r ddadl dros barhau ymhellach â'r math hwn o raglen.

Yr wyf finnau, fel Mike, yn pryderu mai cychwyn yn gymharol araf yr ydym, unwaith eto. Dywedaf hynny oherwydd yr wyf yn cofio angerdd y Dirprwy Brif Weinidog ynghylch lefel yr anweithgarwch yn y cyfnodau cynnar, pan fyddai Rhodri Morgan yn dweud y byddai'r cyflymdra'n cynyddu, a bod cychwyn yn araf yn anochel gyda'r prosiectau cyllid mawr hyn. Yr hen ffigurau yr wyf yn eu defnyddio—mae'r Dirprwy Brif

there were 22 projects approved out of a potential 283. Therefore, I hope that he is correct that many of these decisions are now pending, because we want quick and effective decisions on this.

I will not repeat points that everyone would agree with regarding the Lisbon and Gothenburg agendas. However, it is important that we measure our success against that sort of criteria. Monitoring also needs to be improved—as the consultation document pointed out, we need to learn from the Objective 1 experience. We need a more strategic approach, and deeper interventions, but perhaps fewer ones; that is all to the good. We also need to concentrate on improving competitiveness, and promoting growth in our less-developed regions so that, of the 40,000 jobs that are supposed to be created under the old programme by 2010, as many as possible will be sustainable.

I come briefly to our amendments. I am astonished that the Deputy First Minister is so complacent. He referred to one of the few projects from the private sector—of all the decisions so far, only three have involved private sector projects, and of the 130 in the pipeline for consideration under the convergence and regional competitiveness programmes, only 13 can be identified, in my analysis, as being from the private sector. That is the problem, and Mike German is quite correct: most of this funding is going through traditional governmental streams. We need to improve the private sector take-up, and if we had done that ahead of the £40 million that may be coming to us as a windfall, there might have been more match funding available, because we would not have been so reliant upon public sector funds at a time of squeezed finances.

I see that I am out of time, though there is much more that could be said. I end by promising the Deputy First Minister that the model that I am using to hold this Government to account is the one that he set when he had these responsibilities in opposition.

Weinidog newydd gyfeirio at 27 o brosiectau'n cael eu cymeradwyo, ond ar ôl 18 mis, yr oedd 22 o brosiectau wedi'u cymeradwyo o blith 283 o rai posibl. Felly, yr wyf yn gobeithio ei fod yn gywir bod llawer o'r penderfyniadau hyn yn awr yn yr arfaeth, oherwydd y mae arnom eisiau penderfyniadau cyflym ac effeithiol ar hyn.

Nid wyf am ailadrodd pwyntiau y byddai pawb yn cytuno â hwy o safbwynt agenda Lisbon ac agenda Gothenburg. Er hynny, mae'n bwysig inni fesur ein llwyddiant yn erbyn y math hwnnw o feini prawf. Mae angen i fonitro wella hefyd—fel yr amlygodd y ddogfen ymgynghori, mae angen inni ddysgu yn sgîl profiad Amcan 1. Mae arnom angen dull mwy strategol o weithredu, ac ymyriadau dyfnach, ond llai ohonynt efallai; mae hynny oll er lles. Yn ogystal mae angen inni ganolbwyntio ar wella cystadleurwydd, a hybu twf yn ein rhanbarthau llai datblygedig fel y bydd cynifer ag sy'n bosibl o'r 40,000 o swyddi, sydd i fod i gael eu creu dan yr hen raglen erbyn 2010, yn rhai cynaliadwy.

Cyfeiriau yn fyr at ein gwelliannau. Yr wyf wedi fy syfrdanu bod y Dirprwy Brif Weinidog mor hunanfodlon. Cyfeiriodd at un o'r ychydig brosiectau o'r sector preifat—o'r holl benderfyniadau hyd yma, tri yn unig sydd wedi cynnwys prosiectau sector preifat, ac o'r 130 sy'n aros i gael eu hystyried dan y rhaglen gydgyfeirio a'r rhaglen cystadleurwydd rhanbarthol, 13 yn unig y gellir eu henwi, yn ôl fy nadansoddiad i, fel rhai o'r sector preifat. Dyna'r broblem, ac mae Mike German yn llygad ei le: mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn yn mynd drwy ffrydiau llywodraethol traddodiadol. Mae angen inni wella'r defnydd a wneir gan y sector preifat, a phe byddem wedi gwneud hynny cyn cael y £40 miliwn yr ydym yn ei gael efallai fel arian annisgwyl, efallai y byddai rhagor o arian cyfatebol wedi bod ar gael, oherwydd ni fyddem wedi dibynnu cymaint ar arian sector cyhoeddus ar adeg pan oedd arian yn dynn.

Gwelaf nad oes gennyf amser ar ôl, er bod cymaint yn rhagor y gallwn ei ddweud. Gorffennaf drwy addo i'r Dirprwy Brif Weinidog mai'r model yr wyf yn ei ddefnyddio i ddal y Llywodraeth hon yn atebol yw'r un a bennodd ef pan oedd y cyfrifoldebau hyn ganddo ef yn yr wrthblaid.

The Deputy Presiding Officer: I have a long list of speakers this afternoon, and I have been generous with the speakers who have proposed the two amendments. I will not be so generous with others. The number of speakers that we can fit in depends on you. Alun Davies is first.

Alun Davies: Thank you for that introduction, Deputy Presiding Officer. This afternoon, in addressing issues of convergence and coherence, I want to speak from the perspective of someone who represents Mid and West Wales. When we talk about cohesion and convergence, we should be talking about cohesion across Wales, and ensuring that we create the connectivity between different economies that will enable everyone to share in the growth and prosperity that we have seen over the last decade. We must ensure that people beyond the M4 corridor share in that growth and prosperity. We have already seen phenomenal growth in employment in the west Wales and Valleys region, with an increase of over 4.5 per cent since 1999—compare that with the growth in employment in the rest of Wales, and in the rest of the United Kingdom. There has been real growth in that area.

There has also been an improvement in living standards. Sometimes, in these economic debates, we get lost in a snowstorm of statistics and lose sight of the impact of the economy on people's lives, and their quality of life. We have seen a real improvement in how people live and share in the benefits of the growth and prosperity of the last few years.

4.50 p.m.

I hope that, in this next tranche of European funding, Deputy First Minister, you will put a clear focus on improving the quality of people's lives. I agree with David Melding's points that, in building a sustainable and robust economic base, we must ensure that we include the private sector in investment and partnership to stimulate further growth and further improvements in living standards.

Y Dirprwy Lywydd: Mae gennyf restr faith o siaradwyr y prynhawn yma, ac yr wyf wedi bod yn hael gyda'r siaradwyr sydd wedi cynnig y ddau welliant. Ni fyddaf mor hael gydag eraill. Mae nifer y siaradwyr y gallwn wrando arnynt yn dibynnu arnoch chi. Alun Davies sydd gyntaf.

Alun Davies: Diolch ichi am y cyflwyniad hwnnw, Ddirprwy Lywydd. Y prynhawn yma, wrth roi sylw i gydgyfeirio a chydlyniaeth, hoffwn siarad o safbwynt rhywun sy'n cynrychioli Canolbarth a Gorllewin Cymru. Pan siaradwn am gydlyniant a chydgyfeirio, dylem fod yn siarad am gydlyniant ledled Cymru, a sicrhau ein bod yn creu'r cysylltedd rhwng gwahanol economïau a fydd yn galluogi pawb i gyfranogi yn y twf a'r ffyniant yr ydym wedi'u gweld yn ystod y degawd diwethaf. Rhaid inni sicrhau bod pobl y tu hwnt i goridor yr M4 yn cyfranogi yn y twf a'r ffyniant hwnnw. Yr ydym eisoes wedi gweld twf aruthrol mewn cyflogaeth yn rhanbarth y gorllewin a'r Cymoedd, gyda chynnydd o dros 4.5 y cant ers 1999—cymharwch hynny â'r twf mewn cyflogaeth yng ngweddill Cymru, ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Mae twf gwirioneddol wedi bod yn yr ardal honno.

Cafwyd gwelliant hefyd mewn safonau byw. Weithiau, yn y dadleuon economaidd hyn, awn ar goll mewn storm eira o ystadegau a cholli golwg ar effaith yr economi ar fywydau pobl, ac ar ansawdd eu bywyd. Yr ydym wedi gweld gwelliant gwirioneddol o ran sut y mae pobl yn byw ac yn cyfranogi ym manteision twf a ffyniant y blynyddoedd diwethaf.

Yr wyf yn gobeithio, yn y gyfran nesaf hon o arian Ewropeaidd, Ddirprwy Brif Weinidog, y rhoddwch ffocws clir ar wella ansawdd bywydau pobl. Cytunaf â phwyntiau David Melding fod yn rhaid inni sicrhau ein bod, wrth adeiladu sylfaen economaidd gynaliadwy a chadarn, yn cynnwys y sector preifat mewn buddsoddiadau a phartneriaethau er mwyn ysgogi twf pellach a gwelliannau pellach mewn safonau byw.

With that in mind, I was delighted to see you in Llanelli yesterday, Deputy First Minister, to announce the £19 million funding to support small and medium-sized businesses in south-west Wales. I understand that this is the first local-authority-led project to be approved in the new convergence funding programme. The purpose of this programme, as I understand it, is to support existing businesses and to stimulate the growth of new businesses. If we see 400 new enterprises established, which you have set as your target, then we will see a continued transformation of the economy of south-west Wales, with the ability to push prosperity outwards from the M4 corridor to the whole of Wales. It is in that sense that we will make the 'One Wales' commitments reality. We talk about those commitments, and we will probably talk a lot more about them in the next few weeks, but if we are to make the 'One Wales' concept a reality, that means ensuring that prosperity is shared throughout the whole of Wales. That is something on which we need to keep a strong focus.

Over the next few years, as previous speakers have mentioned, we will come back to the monitoring and the different review processes for the convergence programme. For me, the quality standard and the mark that I will look for is an improvement in living standards in mid and west Wales. I know that you have undertaken a regeneration review, and I know that you are looking at the JESSICA programme, but I hope that you will ensure that that extends to cover the whole of Wales, so that we have an opportunity from Carmarthenshire right through the rest of west Wales to share in the prosperity that is being created.

I hope now that we have an opportunity to continue the job that we started with Objective 1, to take forward the continued transformation of the region's economy. I hope that by doing so, we will also transform the lives of those who live there.

William Graham: We share many of the previous speaker's aspirations. However, as the First Minister reported in his comments to the Committee on European and External Affairs,

Gyda hynny mewn cof, yr oeddwn yn falch iawn o'ch gweld yn Llanelli ddoe, Ddirprwy Brif Weinidog, yn cyhoeddi'r £19 miliwn o gyllid i gynorthwyo busnesau bach a chanolog yn y de-orllewin. Deallaf mai dyma'r prosiect cyntaf dan arweiniad awdurdod lleol i gael ei gymeradwyo yn y rhaglen arian cydgyfeirio newydd. Diben y rhaglen hon, yn ôl a ddeallaf, yw cynorthwyo busnesau sy'n bod eisoes a symbylu twf busnesau newydd. Os gwelwn 400 o fentrau newydd yn cael eu sefydlu, sef yr hyn yr ydych wedi'i osod yn darged i chi eich hun, yna byddwn yn gweld economi'r de-orllewin yn cael ei gweddnewid yn barhaus, gyda'r gallu i wthio ffyniant tuag allan o goridor yr M4 i Gymru gyfan. Yn yr ystyr hwnnw y byddwn yn gwireddu ymrwymadau 'Cymru'n Un'. Yr ydym yn siarad am yr ymrwymadau hynny, ac mae'n debygol y byddwn yn siarad llawer mwy amdanynt yn ystod yr wythnosau nesaf, ond os ydym am wireddu'r cysyniad yn 'Cymru'n Un', mae hynny'n golygu sicrhau bod ffyniant yn cael ei rannu i bob cwr o Gymru. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni gadw ffocws cadarn arno.

Dros y blynyddoedd nesaf, fel y mae siaradwyr blaenorol wedi crybwyll, byddwn yn dychwelyd at y monitro a'r prosesau adolygu gwahanol ar gyfer y rhaglen gydgyfeirio. I mi, y safon ansawdd a'r nod y byddaf yn chwilio amdanynt yw gwelliant mewn safonau byw yn y canolbarth a'r gorllewin. Gwn eich bod wedi cynnal adolygiad o adfywio, a gwn eich bod yn edrych ar raglen JESSICA, ond gobeithiaf y byddwch yn sicrhau bod honno'n ymestyn i gynnwys Cymru gyfan, fel y cawn gyfle o sir Gaerfyrddin a thrwy weddill y gorllewin i gyfranogi yn y ffyniant sy'n cael ei greu.

Gobeithiaf yn awr y cawn gyfle i barhau â'r gwaith a ddechreuasom gydag Amcan 1, i barhau i weddnewid economi'r rhanbarth. Gobeithiaf y byddwn, drwy wneud hynny, yn trawsnewid bywydau'r rhai sy'n byw yno.

William Graham: Yr ydym yn cyd-fynd â llawer o ddyheadau'r siaradwr blaenorol. Er hynny, fel yr adroddodd y Prif Weinidog yn ei sylwadau i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol,

'If the exchange rate stays where it is today, then we will have 15 per cent more money over the next six or seven years. In the same way that we suddenly got this £40 million windfall of European funding, we will get an extra £300 million over the next six years, if the exchange rate stays where it is today'.

Certainly, that is to be welcomed. However, I put it to you, with less charm than my colleague, that we are not getting this money because we are rich; we are getting it because we are poor. The sole achievement of Labour in this Assembly has been to make Wales one of the poorest parts of Europe. That is the reality, and you have to go a long way east in Europe to find parts that are as poor as west Wales and the Valleys.

We acknowledge that it is vital for Wales and the Welsh economy that this extra £40 million is spent making a real difference. This will require projects that proved successful in the first couple of years being enhanced and rolled out to bring benefits to our poorest communities. It also requires greater involvement with the private sector than has been the case in the past. The private sector can drive forward innovation and provide the match funding that the cash-pressed Welsh Assembly Government fails to realise. The Welsh European Funding Office must proactively engage with all sectors of the Welsh economy, public, private and voluntary, to ensure the most effective use of all European funding and to avoid the shame of returning money to Europe.

I am not a great reader of various things that appear online—I would not call them blogs—except where it mentions my own self, of course. This appeared in 'The Devil's Kitchen' and it says, under the heading 'Welsh efficiency':

'It seems the Welsh have assembled a fund to give grants to small businesses'.

Os erys y gyfradd gyfnewid fel y mae heddiw, yna cawn 15 y cant yn rhagor o arian dros y chwech neu saith mlynedd nesaf. Yn yr un modd ag y cawsom y £40 miliwn hwn o arian annisgwyl o Ewrop yn sydyn, cawn £300 miliwn yn ychwanegol dros y chwe blynedd nesaf, os erys y gyfradd gyfnewid fel y mae heddiw.

Yn bendant, mae hynny i'w groesawu. Fodd bynnag, yr wyf yn haeru, gyda llai o ddengarwch na'm cyd-Aelod, nad ydym yn cael yr arian hwn oherwydd ein bod yn gyfoethog; yr ydym yn ei gael oherwydd ein bod yn dlawd. Yr unig beth y mae Llafur wedi'i gyflawni yn y Cynulliad hwn yw gwneud Cymru'n un o rannau tlotaf Ewrop. Dyna'r gwirionedd, ac mae'n rhaid ichi fynd gryn bellter i'r dwyrain yn Ewrop i ddod o hyd i rannau sydd cyn dloted â'r gorllewin a'r Cymoedd.

Cydnabyddwn ei bod yn hollbwysig i Gymru ac economi Cymru i'r £40 miliwn ychwanegol hwn gael ei wario i wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Bydd hyn yn peri ei bod yn ofynnol i brosiectau a fu'n llwyddiannus yn y ddwy flynedd gyntaf gael eu gwella a'u graddol gyflwyno er mwyn sicrhau manteision i'n cymunedau tlotaf. Yn ogystal mae'n gofyn am fwy o gysylltiad â'r sector preifat nag sydd wedi bod yn y gorffennol. Gall y sector preifat ysgogi arloesedd a darparu'r arian cyfatebol y mae Llywodraeth y Cynulliad, nad oes ganddi fawr o arian, yn methu ei sicrhau. Rhaid i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ymgysylltu'n rhagweithiol â phob sector yn economi Cymru, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, er mwyn sicrhau bod yr holl arian Ewropeaidd yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol ag sy'n bosibl ac osgoi cywilydd dychwelyd arian i Ewrop.

Nid wyf yn ddarllenwr mawr ar amrywiol bethau sy'n ymddangos ar-lein—ni fyddwn yn eu galw'n flogiau—ac eithrio pan fydd yn fy nghrybwyll i, wrth gwrs. Ymddangosodd hyn yn 'The Devil's Kitchen' a dywed, dan y pennawd 'effeithlonrwydd Cymru':

Mae'n ymddangos bod y Cymry wedi sefydlu cronfa i roi grantiau i fusnesau bach.

We agree.

'A £19m scheme to support existing and new businesses to south west and mid Wales has been launched. Almost 2,000 grants of up to £5,000 are being made available in five counties...It is supported by £8.9m European funding.'

Sadly, as it points out here, these figures do not add up. The amount of grants suggested only comes to £10 million. So, I will ask the Deputy First Minister to reply on that. Where does the other £9 million go? Surely that cannot all be swallowed up by administration.

I remind you that Europe's regional policy commissioner, Danuta Hübner, has repeatedly emphasised that European funding should not only encourage greater entrepreneurship, but should also be a catalyst to create opportunities to attract the private sector into the poorest areas. It is acknowledged that Objective 1 did not realise its full potential in raising prosperity levels in west Wales and the Valleys, because the majority of the projects were managed by public sector organisations, many of which have very little experience of wealth creation as part of their activities. The largely strategic and public sector approach that dominated the Objective 1 programme, with 60 per cent of the total funding being spent by just 20 organisations and one third of the total funds being distributed by the Assembly Government or its quangos, appears set to continue within convergence funding programmes. The failure of the Assembly Government to engage with the private sector is substantially highlighted in areas such as Merthyr Tydfil, Torfaen and Blaenau Gwent—internationally acclaimed areas of deprivation, economic inactivity and poor health. It has been largely unsuccessful in accessing private sector involvement in EU-funded community projects.

Finally, Deputy First Minister, I remind you of something that I think that you were party to in 2005, when you gave a clear warning about the impact on the voluntary sector of the move from Objective 1 funding to convergence funding; that warning went

Yr ydym yn cytuno.

Lansiwyd cynllun £19m i gynorthwyo busnesau newydd a busnesau sy'n bod eisoes yn y de-orllewin a'r canolbarth. Mae bron 2,000 o grantiau o hyd at £5,000 yn cael eu cynnig mewn pum sir...Fe'i cefnogir gan £8.9m o arian Ewropeaidd.

Yn anffodus, fel y mae'n dweud yma, nid yw'r ffigurau hyn yn dal dŵr. Dim ond £10 miliwn yw cyfanswm y grantiau a awgrymir. Felly, gofynnaf i'r Dirprwy Brif Weinidog ymateb ynghylch hynny. I ble y mae'r £9 miliwn arall yn mynd? Nid oes bosibl y gall gweinyddu lyncu'r cyfan.

Fe'ch atgoffaf fod comisiynydd polisi rhanbarthol Ewrop, Danuta Hübner, wedi pwysleisio droeon y dylai arian Ewropeaidd nid yn unig annog mwy o entrepreneuriaeth, ond y dylai hefyd fod yn gatalydd i greu cyfleoedd i ddenu'r sector preifat i'r ardaloedd tlotaf. Cydnabyddir na wireddodd Amcan 1 ei lawn botensial i gynyddu lefelau ffyniant yn y gorllewin a'r Cymoedd, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r prosiectau'n cael eu rheoli gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, ac ychydig iawn o brofiad o greu cyfoeth sydd gan lawer iawn o'r rhain fel rhan o'u gweithgareddau. Mae'n ymddangos y bydd y dull strategol a thrwy'r sector cyhoeddus yn bennaf o weithredu, a gafodd le blaenllaw yn rhaglen Amcan 1, gyda 60 y cant o'r holl arian yn cael ei wario gan 20 sefydliad yn unig a thraean yr holl arian yn cael ei ddsbarthu gan Lywodraeth y Cynulliad neu ei chwangos, yn parhau yn rhaglenni'r arian cydgyfeirio. Mae methiant Llywodraeth y Cynulliad i ymgysylltu â'r sector preifat yn gwbl amlwg mewn ardaloedd megis Merthyr Tudful, Torfaen a Blaenau Gwent—ardaloedd o amddifadedd, anweithgarwch economaidd ac afiechyd a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae wedi bod yn aflwyddiannus i raddau helaeth o ran sicrhau bod gan y sector preifat ran mewn prosiectau cymunedol a ariennir gan yr UE.

Yn olaf, Ddirprwy Brif Weinidog, fe'ch atgoffaf o rywbeth y credaf eich bod yn rhan ohono yn 2005, pan roddasoch rybudd clir am effaith y symud oddi wrth arian Amcan 1 at arian cydgyfeirio ar y sector gwirfoddol; nid ystyriwyd y rhybudd hwnnw. Mae llawer

unheeded. Many of the services and the people who provide those services have lost confidence in the Assembly Government. On many schemes that were established to help the most vulnerable in our society, key members of staff have either been redeployed or have sought other employment. The lack of Assembly assurance and continued support has devastated the effectiveness of many of the services provided to vulnerable people in our communities. I ask the Deputy First Minister to give an assurance that this will be a priority of his administration.

Nerys Evans: Yr wyf yn falch bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cymryd y cyfle hwn i gynnig dadl ar gronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Fel yr ydym wedi clywed, mae'n ffynhonnell bwysig o gyllid—mae'n defnyddio traean o gyllid yr Undeb Ewropeaidd. Bydd Cymru yn derbyn dros £1.5 biliwn, a fydd yn galluogi buddsoddiad o dros £3 biliwn gydag arian cyfatebol. Cyn mynd ymlaen i sôn am y cynllun yn fwy manwl, ac am y gwelliannau sydd wedi eu gosod gan y gwrthbleidiau, hoffwn sôn ychydig am y sefyllfa yr ydym ynddi yn awr.

Yn amlwg, yr ydym i gyd yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn derbyn y swm sylweddol hwn o arian gan Ewrop, ond mae dau bwynt pwysig i'w cofio. Fel y dywedodd William Graham, yr ydym wedi derbyn yr arian hwn am fod cyfoeth pobl Cymru fesul y pen o'r boblogaeth yn isel. Byddwn yn dadlau ynglŷn â'r amser penodedig a ddefnyddiwyd i asesu cyfoeth y pen pobl Cymru o'i gymharu â gwledydd eraill Ewrop, er mwyn penderfynu pwy oedd i dderbyn cymorth ariannol, ond mae'n ffaith i ni gymhwyso i dderbyn yr arian hwn am fod gennym ffigurau cyfoeth y pen isel yng Nghymru. Nid yw hyn yn rhywbeth y dylem ymfalchïo ynddo. Fodd bynnag, dyma'r sefyllfa yr ydym ynddi. Yr ail bwynt yr hoffwn ei ategu yw bod angen mecanwaith clir i sicrhau nad yw Cymru yn parhau i ddatblygu i fod yn ddibynnol ar grantiau o Ewrop. Yr ydym wedi gweld, dros y misoedd diwethaf, y panig honedig ynghylch yr hyn a oedd yn cael ei weld fel oedi cyn gwario'r arian. Gobeithiaf na fyddwn mewn sefyllfa yn 2013 i dderbyn y grantiau sylweddol hyn gan Ewrop, a hynny oherwydd bod ein lefel

o'r gwasanaethau a'r bobl sy'n darparu'r gwasanaethau hynny wedi colli hyder yn Llywodraeth y Cynulliad. Ar lawer o gynlluniau a sefydlwyd i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, mae aelodau allweddol o'r staff naill ai wedi cael eu hadleoli neu wedi chwilio am gyflogaeth arall. Mae'r diffyg cymorth parhaus a sicrwydd gan y Cynulliad wedi distrywio effeithiolrwydd llawer o'r gwasanaethau a ddarperir i bobl agored i niwed yn ein cymunedau. Gofynnaf i'r Dirprwy Brif Weinidog roi sicrwydd y bydd hyn yn un o flaenoriaethau ei weinyddiaeth.

Nerys Evans: I am pleased that the Assembly Government has taken the opportunity to table a debate on European structural funds. As we have heard, it is an important source of funding—it makes up a third of the European Union's budget. Wales will receive more than £1.5 billion, allowing for an investment of more than £3 billion when match funding is included. Before I go on to talk about the scheme in more detail, and about the opposition amendments, I would like to say a little about the situation that we currently face.

Obviously, we are all proud of the fact that we receive this substantial sum of money from Europe, but there are two important points to bear in mind. As William Graham said, we receive this money because the wealth per capita of the Welsh people is low. We would argue about the specific time used to assess the wealth per capita of the Welsh people compared with other European countries, on which the decision to give financial assistance was based, but it is a fact that we are eligible for this money as a result of our low per capita wealth figures in Wales. That is not something of which we should be proud. However, that is the situation in which we find ourselves. The second point that I would make is that we need a clear mechanism by which we can ensure that Wales does not continue to develop to be dependent upon European grants. We have seen, over the last few months, the supposed panic in relation to what was seen as a delay in spending the money. I hope that we are in a situation in 2013 where we have increased our per capita wealth levels, so that we do not need to receive these substantial European

cyfoeth y pen wedi cynyddu. Mae'n rhaid cynllunio ar gyfer hynny yn awr.

Wrth edrych ar y cynllun newydd ar gyfer cronfeydd strwythurol, croesawaf yn fawr y newid pwyslais yn y cylch cyllido hwn. Yr ydym wedi clywed y Dirprwy Brif Weinidog yn sôn am JESSICA a JEREMIE a hoffwn ategu'r hyn a ddywedodd Alun Davies ynglŷn ag annog ardaloedd o'r canolbarth a gorllewin Cymru i fanteisio ar gynllun JESSICA tra'i fod yn datblygu. Yr wyf yn falch o weld y newid blaenoriaeth yn y cynllun hwn a'r pwyslais bellach ar sgiliau. Un neges glir iawn sy'n dod gan bobl fusnes yn y rhanbarth yw bod angen datblygu'r sgiliau sydd eu hangen yn y gweithle, yn enwedig sgiliau ymarferol. Bûm yn ffodus i fod yn bresennol ar gyfer cyhoeddiad y Dirprwy Brif Weinidog ddoe yn Llanelli ynglŷn â chynllun gwerth £19 miliwn sy'n deillio o'r cronfeydd strwythurol i roi cefnogaeth hyblyg i fusnesau yn y de-orllewin. Cynllun yw hwn i gefnogi 400 o fusnesau newydd wrth iddynt ddechrau ac i gynorthwyo 1,400 o fusnesau sy'n bodoli eisoes. Mae busnesau bach yn hanfodol i economi Cymru; mae gennym ganran uchel o fusnesau bach, ac mae'n bwysig ein bod yn eu cefnogi. Mae ysgogi datblygiad, a chynnig mwy o gefnogaeth, yn hanfodol i sicrhau twf economaidd, yn enwedig mewn ardaloedd fel y de-orllewin.

5.00 p.m.

Trof at welliannau y Democratiaid Rhyddfrydol, a gwelliant 2 yn arbennig. Yn lle ymfalchïo fod gennym fwy o arian i'w wario—hyd at £40 miliwn ychwanegol—oherwydd y gyfradd gyfnewid, maent yn penderfynu bod yn negyddol am yr holl beth. Yn anffodus, mae hynny'n nodweddiadol o agweddau'r gwrthbleidiau. Heddiw, yr ydym yn sôn am fuddsoddiad o dros £3 biliwn, ac yr ydym ni ym Mhlaid Cymru yn croesawu hynny, ac yn edrych ymlaen i weld y canlyniadau hirdymor a ddaw yn ei sgîl.

Joyce Watson: I will start—and I know that the Tories will not like it—by reminding people why we are where we are. It is all well and good for William Graham to tell us that we are poor—we know that we are poor, and we know why we are poor. The Tories,

grants. We must plan for that now.

In looking at the new scheme for structural funds, I warmly welcome the change in emphasis that we see in this funding cycle. We have heard the Deputy First Minister talk about JESSICA and JEREMIE, and I would like to endorse what Alun Davies said about encouraging parts of mid and west Wales to take advantage of the JESSICA scheme as it develops. I am pleased to see the scheme's change in emphasis, with the emphasis now on skills. One very clear message coming from business people in the region is that we must develop the skills that are needed in the workplace, especially practical skills. I was lucky enough to be present yesterday for the Deputy First Minister's announcement in Llanelli about the £19 million structural fund scheme to provide flexible business support for south-west Wales. This is a scheme to support 400 new business start-ups and to assist 1,400 businesses that are already in operation. Small businesses are vital for Wales's economy; we have a high percentage of small businesses and it is important that we support them. Stimulating development, and offering more support, are crucial if we are to secure economic growth, especially in areas such as south-west Wales.

I will now turn to the Liberal Democrat amendments and amendment 2 in particular. Rather than be pleased that we have more money to spend—up to £40 million—because of the exchange rate, they decide to be negative about the whole thing. Unfortunately, that is typical of the opposition parties. Today, we are talking about an investment of more than £3 billion, and we in Plaid Cymru welcome that, and look forward to the long-term benefits that it brings.

Joyce Watson: Yr wyf am ddechrau—a gwn na fydd wrth fodd y Toriaid—drwy atgoffa pobl pam yr ydym yn y sefyllfa yr ydym ynddi. Digon hawdd i William Graham ddweud wrthym ein bod yn dlawd—gwyddom ein bod yn dlawd, a gwyddom pam

through their policies, devastated the areas that he mentioned. They shut everything, and they closed the door on the Valleys.

Andrew R.T. Davies: Will you take an intervention?

Joyce Watson: No, I will not. They left those people in such absolute poverty that, year after year, they had nothing to look forward to. The Tories want to keep harking back to the fact that those people had nothing to look forward to. However, they have a lot to look forward to now. For example, we have the highest levels of employment ever in Wales. It was Labour that fought to secure European funding in the first place, and we are proud of that record. We are not only proud of our record in obtaining Objective 1, but we are proud that Objective 1 has benefited over 40,000 people, with additional jobs in Wales. That is no mean feat.

I cannot understand Kirsty Williams's approach either. I cannot understand why all she wants to do is criticise the delivery of funding, when we are already ahead of the game in Wales—that is fact not fiction. We have spent 15 per cent of the grant fund already, and it is committed to projects that will deliver additional jobs. It is a pity that the opposition parties cannot be positive and show some respect.

I also welcome yesterday's announcement by the Deputy First Minister. That £19 million will secure much-needed jobs in west Wales. I live in rural west Wales, and I understand the needs of the area. It is fantastic news for the people who live there. I have highlighted previously the good work of Carmarthenshire County Council, in particular the work that it has done to encourage local small and medium-sized enterprises to develop and grow. That is the private sector, and the council's meet-the-buyer events and procurement surgeries will help to create vital jobs in that sector. Therefore, again, I refute the statements that have been made by the opposition.

yr ydym yn dlawd. Y Torïaid, drwy eu polisiau, a ddistrywiodd yr ardaloedd y soniodd amdanynt. Caesant bopeth, a chau'r drws ar y Cymoedd.

Andrew R.T. Davies: A wnewch dderbyn ymyriad?

